# Cyngor Sir Penfro
# Cynllun Datblygu Lleol 2
# 2017-2033

# Adroddiad Dechreuol
# Gwerthusiad Cynaliadwyedd

## Fersiwn Ymgynghoriad Cyhoeddus
## 17 Rhagfyr 2018 – 4 Chwefror 2019

## Rhestr Cynnwys

Pennod 1: Crynodeb Annhechnegol.......... 4
Cyflwyniad.......... 4
Proses GC/GSA.......... 4
Fframwaith Gwerthusiad Cynaliadwyedd.......... 4
Strategaeth Ddewisol y CDLl.......... 6
Lefel Twf Dewisol.......... 7
Dewisiadau Gofodol Strategol.......... 7
Dewisiadau Strategaeth Wledig.......... 8
Dewis Gofodol a Strategaeth Wledig Ddewisol.......... 8
Polisïau Strategol.......... 8
Polisïau Cyffredinol.......... 8
Dull Gwerthuso.......... 8
Casgliadau'r Gwerthusiad.......... 9
Sefyllfa Dim-cynllun neu fusnes yn ôl yr arfer.......... 10
Effeithiau cronnus a chyfunol.......... 11
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.......... 11
Camau Nesaf.......... 11
Rhoi sylwadau ar yr adroddiad hwn.......... 11
Pennod 2: Cyflwyniad.......... 12
Cefndir.......... 12
Proses GC/AAS.......... 12
Adroddiad Cwmpasu GC.......... 12
Strategaeth Ddewisol y CDLl.......... 13
Strwythur yr Adroddiad hwn.......... 15
Pennod 3: Fframwaith GC a Methodoleg GC.......... 17
Cyflwyniad.......... 17
Fframwaith Gwerthuso Cynaliadwyedd.......... 17
Amcanion GC.......... 17
Gwerthusiad Cynaliadwy o'r Strategaeth Ddewisol.......... 18
Pennod 4: Crynodeb o'r Asesiadau.......... 21
GC o Weledigaeth y CDLl.......... 21
Cydnawsedd Amcanion y CDLl â'r Amcanion GC.......... 21
GC o'r Strategaeth Ddewisol.......... 21
Pennod 5: Asesiad o'r Polisïau Strategol.......... 23

Cyflwyniad ..... 23
Casgliadau'r Gwerthusiad o'r Polisïau Strategol ..... 26
Pennod 6: Asesiad o'r Polisiau Cyffredinol ..... 28
Cyflwyniad ..... 28
Casgliadau'r Gwerthusiad o'r Polisiau Cyffredinol ..... 29
Pennod 7: Sefyllfa Dim Cynllun ..... 30
Cefndir ..... 30
Casgliad Sefyllfa Dim Cynllun ..... 33
Pennod 8: Effeithiau Cyfunol a Chronnus ..... 34
Cyflwyniad ..... 34
Asesiad o Effeithiau Cronnus y Polisïau ..... 37
Casgliadau Asesiad Effeithiau Cyfunol a Chronnus ..... 37
Pennod 9: Gwerthuso Rheoliadau Cynefinoedd ..... 41
Pennod 10: Crynodeb a'r Camau nesaf ..... 42
Crynodeb ..... 42
Monitro ..... 42
Atodiadau ..... 47
ATODIAD 1: GC o Weledigaeth y CDLl ..... 47
ATODIAD 2: Cydnawsedd yr Amcanion CDLl a'r Amcanion GC ..... 58
ATODIAD 3: GC o'r Dewisiadau Strategol a Ffafrir ..... 61
ATODIAD 4: Asesiad o'r Polisïau Strategol ..... 65
ATODIAD 5: Asesiad o'r Polisïau Cyffredinol ..... 121
ATODIAD 6: Ffurflen Sylwadau Ymgynghori ar yr Adroddiad GC Dechreuol ..... 137
ATODIAD 7: Gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ..... 140

# Pennod 1: Crynodeb Annhechnegol

## Cyflwyniad

1.1. Mae Cyngor Sir Penfro yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Arall (CDLl2). Mae Cynllun Datblygu Lleol 2 yn un o ofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Bydd hwn yn disodli Cynllun Datblygu Lleol 2013-2021 ac yn gosod allan y strategaeth datblygu a'r fframwaith polisi ar gyfer datblygu anghenion datblygu a chadwraeth ardal Sir Benfro heb gynnwys y Parc Cenedlaethol am y cyfnod o 2017 i 2033. Fel rhan o'r broses ar gyfer paratoi'r cynllun, bydd Gwerthusiad Cynaliadwyedd (GC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn profi cyfraniad y CDLl at ddatblygiad cynaliadwy. Mae hyn yn ofyniad statudol.

## Proses GC/GSA

1.2. Mae pum cam yn y broses GC sy'n cynnwys:

Cam A: Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu'r cwmpas

Cam B: Datblygu a mireinio dewisiadau/dulliau gwahanol ac asesu effeithiau

Cam C: Paratoi'r Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd (GC). Gelwir hwn yn Adroddiad Amgylcheddol yn ôl y Rheoliadau AAS, ond mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r term Adroddiad GC drwy'r adeg.

Cam D: Ymgynghori ar y cynllun drafft neu'r rhaglen a'r Adroddiad GC

Cam E: Monitro effeithiau arwyddocaol gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen ar yr amgylchedd.

1.3. Cam cyntaf y broses GC oedd cynhyrchu Adroddiad Cwmpasu (gweler yr Adroddiad Cwmpasu GC). Roedd yr adroddiad yn pennu cyd-destun a chwmpas yr asesiad gan gynnwys adroddiad ar gyflwr presennol yr amgylchedd, ac ar y sefyllfa gymdeithasol ac economaidd yn y Sir. Nodwyd materion cynaliadwyedd allweddol a phennwyd amcanion i fynd i'r afael â'r materion cynaliadwyedd hyn. Bydd y CDLl yn cael ei brofi yn erbyn yr amcanion hyn i sicrhau bod y cynlluniau'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy. Ymgynghorwyd ar yr Adroddiad Cwmpasu GC â'r ymgyngoreion statudol a'i gytuno. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Adroddiad Cwmpasu a'i Atodiadau, a chaiff hwnnw ei ddiweddaru'n unol â hynny drwy gydol paratoi'r cynllun.

1.4. Yr Adroddiad GC Dechreuol hwn yw'r ail gam yn y broses GC ac mae'n asesu Strategaeth Ddewisol Cynllun Datblygu Lleol 2. Mae'r GC o Strategaeth Ddewisol Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro wedi ei wneud yn unol ag arweiniad gan Lywodraeth Cymru a'r Deyrnas Gyfunol.

## Fframwaith Gwerthusiad Cynaliadwyedd

1.5. Datblygwyd fframwaith cynaliadwyedd o'r man cychwyn presennol, materion cynaliadwyedd a chyd-destun gyda deddfwriaeth, cynlluniau a rhaglenni eraill, sydd wedi'u diffinio yn nhermau Amcanion Gwerthuso Cynaliadwyedd (gweler isod). Cofnodwyd datblygiad yr Amcanion GC yn yr Adroddiad Cwmpasu GC y bu ymgynghori statudol arno.

1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys.
2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw'n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân.
3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi'r sail sgiliau a gwybodaeth.
4. Lleihau'r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant.
5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol.
6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol.
7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.
8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth.
9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol.
10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd.
11. Cynnal a gwella ansawdd yr awyr.
12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd.
13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon.
14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol.
15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi.
16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd.
17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd.
18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.
19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol.
20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig.
21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol.

## Strategaeth Ddewisol y CDLl

1.6. Datblygwyd y Strategaeth Ddewisol o ymgynghoriadau anffurfiol ar amrywiol ddogfennau gan gynnwys Gweledigaeth Ddrafft sy’n disgrifio pa fath o le ddylai Sir Benfro fod yn 2033 gan osod Amcanion y mae angen eu cyrraedd er mwyn i hyn ddigwydd[1]. Mae’r Strategaeth yn gosod allan sut mae’r Cyngor yn ystyried y dylid rhannu twf newydd a’i ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun, gyda Pholisïau Strategol yn gosod allan ddulliau gwahanol mewn lleoliadau gwahanol ac ar gyfer gwahanol fathau. Cafodd y Materion Drafft, y Weledigaeth a’r Amcanion 2018 eu cynhyrchu ac ymgynghorwyd arnynt yn ogystal â Dewisiadau Tai Strategol 21018. Mae’r rhain eisoes wedi’u defnyddio i ychwanegu at y Strategaeth Ddewisol ac wedi bod yn destun gwerthusiad cynaliadwyedd, ac mae ar gael ar y wefan.

### Amcanion y CDLl

1.7. Datblygwyd 11 Amcan y CDLl o weledigaeth y CDLl, ymwneud Cynghorwyr Sirol a rhan-ddeiliaid allweddol, ac roeddent yn gosod allan y materion i roi sylw iddynt drwy’r CDLl.

A) Lleddfu ac ymateb i her newid yn yr Hinsawdd.

B) Darparu datblygiad o safon uchel lle caiff llunio lleoedd ei gefnogi gan ddylunio cynaliadwy sy’n ymateb yn briodol i dreftadaeth ddiwylliannol ac o ran adeiladau, tirwedd a threfwedd.

C) Cynnal a gwella’r economi wledig a threfol drwy gefnogi busnesau sy'n cychwyn, dargyfeirio gwledig, newid arferion amaethyddol, yr economi wledig ac ehangu Mentrau Bach a Chanolig.

D) Cynnal cymunedau sy’n llawn adnoddau drwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi’n cael eu cefnogi gan gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol.

E) Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer ynni gwyrdd, a datblygiad morwrol a phorthladdoedd.

F) Gwarchod a hyrwyddo’r Gymraeg.

G) Cefnogi amrywiaeth o faterion mewn Canolfannau Trefi i helpu adferiad.

H) Hyrwyddo amgylcheddau hygyrch ac iach ar gyfer pobl a bywyd gwyllt drwy warchod a darparu seilwaith gwyrdd.

I) Gwella mynediad i nwyddau a gwasanaethau drwy hwyluso gwelliannau mewn seilwaith[2] a chyfleusterau cymunedol, ac arwain datblygiad i leoliadau cynaliadwy.

---

[1] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/opsiynau-strategol

[2] Sylwch fod seilwaith yn cynnwys darpariaeth ffonau symudol a Band eang, gwella cludiant a darpariaeth carthffosydd.

J) Diogelu a gwella amgylchedd, bioamrywiaeth a chynefinoedd y Sir.

K) Atal gwastraff rhag digwydd a sicrhau defnyddio adnoddau mewn ffordd gyfrifol.

**Lefelau Dewisiadau Twf**

1.8. Cynhyrchwyd saith sefyllfa bosibl ar gyfer twf yn y dyfodol yn seiliedig ar wahanol ragweliadau poblogaeth a sefyllfaoedd wedi'u harwain gan bolisi, ac mae hyn wedi'i osod allan yn yr Ymgynghoriad Dewisiadau Tai Strategol, ynghyd â gwerthusiad cynaliadwyedd o'r rhain (Gwerthusiad Cynaliadwyedd Drafft o Ddewisiadau Strategol[3]). Yn dilyn hyn, chynhyrchwyd y dewis o ran twf (gweler y Ddogfen Strategaeth Ddewisol am fwy o fanylion[4]). Dyma oedd y saith dewis gwreiddiol:

**Crynodeb o Ddewisiadau**

- Dewis 1 Sefyllfa WG-2014 (Ail-seilio): 196 o anheddau y flwyddyn
- Dewis 2 Sefyllfa PG 10ml: 340 o anheddau y flwyddyn
- Dewis 3 Sefyllfa PG Tymor Hir: 408 o anheddau y flwyddyn
- Dewis 4 Sefyllfa yn ôl nifer anheddau (5ml ar Gyfartaledd): +443 o anheddau y flwyddyn
- Dewis 5 Sefyllfa yn ôl nifer anheddau (10ml ar Gyfartaledd): +416 o anheddau yflwyddyn
- Dewis 6 Sefyllfa yn ôl nifer anheddau (CDLl Cyfredol): +572 o anheddau y flwyddyn
- Dewis 7 Sefyllfa Dim Mudo: 6 annedd y flwyddyn.

## Lefel Twf Dewisol

1.9. Y cytundeb cyffredinol ar ôl ymgynghori oedd cefnogi darparu mwy o dai na'r lefelau sydd wedi'u nodi yn rhagfynegiadau LIC, a bodloni angen yn seiliedig ar asesiad o dueddiadau mudo dros gyfnod hwy (15 mlynedd) ac yn unol â chyfraddau adeiladu ar gyfartaledd dros y 5-10 mlynedd diwethaf. Mae'r Twf Dewisol, felly, yn seiliedig ar gyfuniad o'r sefyllfa tueddiadau mudo 15 mlynedd (Sefyllfa Cyfnod Hir PG) sy'n awgrymu angen am 408 o gartrefi y flwyddyn a'r ddwy sefyllfa cyfradd adeiladu sy'n dangos darparu 416 o gartrefi y flwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf a 443 o gartrefi y flwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf.

Twf Dewisol: 6,800 o gartrefi newydd dros gyfnod y cynllun (cyfartaledd o 425 o anheddau y flwyddyn).

## Dewisiadau Gofodol Strategol

1.10. Cyflwynwyd tri dewis fel dewisiadau gwahanol ar gyfer dosbarthiad gofodol Twf yn y Strategaeth Ddewisol.

- Dewis Gofodol 1: Canolbwyntio Trefol
- Dewis Gofodol 2: Canolbwyntio'n Seiliedig ar Wasanaeth
- Dewis Gofodol Option 3: Canolbwyntio ar Gymunedau Gwledig

[3] GC Opsiynau https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/opsiynau-strategol
[4] Gweler y Strategaeth Ddewisol yn https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol

## Dewisiadau Strategaeth Wledig

1.11. Cyflwynwyd dewisiadau penodol hefyd ar gyfer ardaloedd gwledig i ddarparu dewisiadau ar gyfer twf tai posibl o fewn lefelau is yr Hierarchaeth Aneddiadau[5].

- Dewis A neu B ar gyfer Clystyrau Aneddiadau
- Dewis C neu D ar gyfer Ffiniau Aneddiadau
- Dewis E neu F ar gyfer Mewnlenwi a Thalgrynnu
- Dewis G neu H ar gyfer Tai'r Farchnad a Thai Fforddiadwy

## Dewis Gofodol a Strategaeth Wledig Ddewisol

1.12. Mae'r Dewis Dewisol yn golygu nodi Hierarchaeth Aneddiadau yn seiliedig ar Ddarpariaeth Gwasanaethau. Y dewis gofodol a ddewiswyd yw Dewis 2:

Canolbwyntio'n Seiliedig ar Wasanaethau - caiff Dyraniadau Tai eu dosbarthu mewn aneddiadau yn ôl lefel bresennol y gwasanaethau a ddarperir o'u mewn - mewn trefi trefol / prif drefi (60%) ac aneddiadau gwledig unigol (40%) gyda lefel dda o wasanaethau (Tref Wledig Arberth, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth).

Y dull polisi dewisol o fewn ardaloedd gwledig oedd cyfuniad o'r dewisiadau, a byddant yn cynnwys:

- Clystyrau Aneddiadau i wahaniaethu rhwng cynaliadwyedd Pentrefi Lleol,
- Defnyddio Ffiniau Aneddiadau o fewn yr Hierarchaeth Aneddiadau,
- Rhai cyfleoedd ar gyfer mewnlenwi mewn amgylchiadau a lleoliadau wedi'u diffinio,
- Datblygu tai'r farchnad ym mhob lleoliad Pentref Lleol ond gyda lefelau uwch o niferoedd yn cymudo i gefnogi darparu Tai Fforddiadwy mewn mannau llai cynaliadwy.

## Polisïau Strategol

1.13. Cafodd yr 19 o Bolisïau Strategol eu datblygu i ddarparu dewisiadau twf a dewisiadau gofodol y CDLl i fynd i'r afael â materion allweddol y Sir sydd wedi'u nodi (gweler y Ddogfen Strategaeth Ddewisol, Pennod 1[6]). Mae'r Strategaeth Ddewisol yn cyflwyno'r Polisïau Strategol (gweler Pennod 6 yn y Strategaeth Ddewisol).

## Polisïau Cyffredinol

1.14. Mae rhai o'r Polisïau Cyffredinol hefyd wedi'u cynhyrchu fel rhan o'r Strategaeth Ddewisol. Mae pum polisi wedi'u datblygu hyd yma yn y broses (Gweler Pennod 7 yn y Strategaeth Ddewisol).

## Dull Gwerthuso

1.15. Gwnaed y gwerthusiad cynaliadwyedd ar gyfer Gweledigaeth ac Amcanion, Dewisiadau Gofodol a Dewisiadau Strategol y CDLl yn ystod eu cynhyrchu.

---

[5] Papur Dewisiadau Tai Strategol yn https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol
[6] Gweler y Strategaeth Ddewisol yn https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol

Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r asesiadau hynny lle maent wedi newid, ac mae'n rhoi GC y dewisiadau, y polisïau strategol a'r polisïau cyffredinol dewisol.

1.16. Cafodd cydnawsedd Amcanion y CDLl â'r Amcanion GC eu hasesu gan ddefnyddio matrics. Aseswyd y Dewisiadau Gofodol a'r Polisïau Cyffredinol yn erbyn yr Amcanion GC gyda sylwebaeth i ehangu'r asesiad.

### Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl

1.17. Cafodd Gweledigaeth y CDLl ei brofi yn erbyn yr Amcanion GC. Cafodd Amcanion y CDLl (gweler Pennod 2 o'r Strategaeth Ddewisol) eu profi i weld eu bod yn gydnaws â'r Amcanion GC. Gwnaed hyn mewn matrics gydag Amcanion y CDLl ar hyd un echelin a'r Amcanion GC ar hyd yr echelin arall. Roedd adroddiad ar hyn yn y Gwerthusiad Cynaliadwyedd o Faterion, Gweledigaeth Ddrafft ac Amcanion Drafft Gorffennaf 2018[7]. Mae Gweledigaeth y CDLl wedi'i diweddaru ar ôl ymgynghori ac wedi ei hail-werthuso yn erbyn yr Amcanion GC .

### Dewisiadau Gofodol Strategol a Strategaeth Wledig

1.18. Cafodd gwerthusiad Dewisiadau Gofodol y CDLl ei wneud gan ddefnyddio matrics. Diben asesu dewisiadau trwy'r GC yw rhagweld effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y Dewisiadau Gofodol dan sylw ym mhroses baratoi'r CDLl (gweler y Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion a'r Papur Dewisiadau Strategol Tai Gorffennaf 2018, a'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd o Ddewisiadau Strategol Gorffennaf 2018 ar gyfer yr asesiad, a'r Strategaeth Ddewisol am fanylion y dewis terfynol).

1.19. Gwerthuswyd y dewisiadau trwy ddefnyddio asesiad dewisiadau traddodiadol ar ffurf tabl. Prif dechneg y gwerthusiad oedd penderfynu a rhagweld effeithiau cadarnhaol a negyddol pob un o'r Dewisiadau Gofodol a'r dewisiadau strategaeth wledig yn erbyn yr Amcanion GC. Mae'r sylwebaeth / esboniad a ddarparwyd yn gosod allan yr ymresymu y tu ôl i'r rhagfynegiad o effeithiau'r Dewis Gofodol a'i allu i ateb y gofynion ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae GC y dewisiadau wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad GC Dechreuol hwn.

### Polisïau Strategol

1.20. Gwerthuswyd y Polisïau Strategol trwy gymharu'r Polisïau yn erbyn yr Amcanion GC ac, yn ogystal â'r golofn sylwebaeth / esboniad, cynhwyswyd dwy golofn ychwanegol yn y tabl i benderfynu a yw'r polisi'n cyfrannu at fodloni'r Amcan GC ac a yw'r polisi'n gydnaws â'r Amcan GC. Mae'r adroddiad cynaliadwyedd i'w weld ym Mhennod 7 o'r ddogfen hon a'r manylion yn Atodiad 4 o'r ddogfen hon.

## Casgliadau'r Gwerthusiad

### Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl

1.21. Roedd y gwerthusiad o'r Weledigaeth a'r 11 o Amcanion y CDLl yn ceisio profi eu bod yn gydnaws â'r Amcanion GC, gan nodi unrhyw wrthdaro posibl neu ddiffyg rhwng y ddwy set o amcanion. Dangosodd y matricsau gwerthuso

[7] Dolen i'r GC o Faterion, gweledigaeth ddrafft ac amcanion drafft Gorffennaf 2018 www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/strategic-options

(gweler Atodiad 2) fod yr amcanion yn cyd-fynd yn fras â'r amcanion cynaliadwyedd. Mae rhywfaint o ansicrwydd mewn cysylltiad â chanlyniadau ar hyn o bryd, gan nad yw natur a maint y datblygiad yn wybyddus hyd yma. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn dderbyniol datgelu ansicrwydd o'r fath ar hyn o bryd yn y gwerthusiad GC, ond rhagwelir y bydd lefel yr ansicrwydd yn lleihau wrth i'r CDLl ddatblygu, yn enwedig wrth nodi dyraniadau sy'n benodol i safle.

1.22. Mewn rhai achosion, datgelodd y gwerthusiad fannau lle gallai fod ansicrwydd rhwng Amcanion y CDLl a'r Amcanion GC. Yn gyffredinol, mae profion cydnawsedd Amcanion y CDLl o'u cymryd gyda'i gilydd yn dangos eu bod yn gydnaws yn gyffredinol, a bod gwrthdaro posibl rhwng amcanion penodol yn cael eu gwrthbwyso gan eraill. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei archwilio drwy gydol y broses.

### Strategaeth Ddewisol

1.23. Mae'r Dewis ar gyfer tai yn cynnig rhaniad datblygiad o 60%: 40% sy'n canolbwyntio ar ddyrannu tai mewn aneddiadau yn ôl y lefel bresennol o wasanaethau a ddarperir o'u mewn. Gyda 60% o drefi trefol a 40% o aneddiadau gwledig unigol sydd â lefel dda o wasanaethau, o ran yr asesiad mae hyn yn gyfle da ar gyfer effeithiau cadarnhaol yr Amcanion GC, yn enwedig o ran yr amcanion cymdeithasol ac economaidd hynny. Bydd polisïau yn y cynllun yn ceisio lleddfu unrhyw effeithiau negyddol posibl, yn arbennig mewn cysylltiad â bioamrywiaeth. Caiff manylion y cynllun eu gwerthuso pan gaiff lleoliadau penodol eu nodi yn y cam nesaf.

### Polisïau Strategol a Chyffredinol

1.24. Aseswyd yr 19 o Bolisïau Strategol a'r pum Polisi Cyffredinol yn erbyn yr Amcanion GC ac roedd mwyafrif y Polisïau'n gydnaws ac yn cyfrannu at gyrraedd yr Amcanion GC. Asesodd swyddogion cynllunio ac arbenigol y Cyngor Sir y polisïau i ragweld eu heffeithiau o ran yr Amcanion Gwerthuso Cynaliadwyedd. Yn benodol, roedd y GC yn helpu sicrhau bod datblygiad y polisïau'n unol â'r Amcanion GC o'r dechrau, a choethwyd y polisïau a'u haralleirio i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn well â'r Amcanion GC.

1.25. Mae ychydig ansicrwydd o hyd am effeithiau posibl y polisïau lle na neilltuwyd unrhyw diroedd penodol. Bydd polisïau'n cael eu hasesu'n fwy trylwyr pan fydd polisïau penodol a thir wedi'u neilltuo.

## Sefyllfa Dim-cynllun neu fusnes yn ôl yr arfer

1.26. Aseswyd y sefyllfa dim-cynllun neu fusnes yn ôl yr arfer hefyd yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb AAS. Diben hyn oedd penderfynu beth fyddai'r effeithiau cynaliadwyedd yn absenoldeb y cynllun, ac felly mae'n dangos ymhellach gyfraniad y cynllun newydd at ddatblygu cynaliadwy.

1.27. Dadansoddwyd y materion cynaliadwyedd a'r Amcanion dilynol ar gyfer Sir Benfro er mwyn asesu'r sefyllfa debygol pe na byddai CDLl ar gyfer 2017-2033. Roedd y rhagfynegiad hwn yn anodd gan ei fod yn ddibynnol ar amrywiaeth eang o ffactorau anhysbys. Mae'r CDLl presennol yn ddilys tan 2021,ac wedyn bydd polisi cenedlaethol yn gymwys. Seiliwyd y sefyllfa ar y goblygiadau tebygol ar gyfer Sir Benfro yn absenoldeb fframwaith i lywio defnyddio a datblygu tir. Lle

mae cynlluniau, rhaglenni a pholisïau eraill a all hefyd ddylanwadu ar y materion hyn, fel polisi cenedlaethol, caiff y rhain eu rhoi fel enghraifft.

## Effeithiau cronnus a chyfunol

1.28. Archwiliwyd natur amserol a chronnus yr effeithiau disgwyliedig lle'r oedd modd, a rhoddwyd manylion yn y sylwebaeth. Bydd penderfyniad manylach o'r agweddau amserol a chronnus, yn ogystal ag ystyried camau lleddfu, yn digwydd yng nghyfnodau nesaf y GC/AAS, pan fydd polisïau mwy penodol a safleoedd mwy strategol yn cael eu gwerthuso.

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.29. Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) o effeithiau arwyddocaol tebygol y CDLl ar safleoedd Natura 2000 yn ofynnol hefyd dan Erthygl 6(3) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Dynodwyd nifer o safleoedd Natura 2000 oherwydd eu cynefinoedd a'u rhywogaethau, a bydd angen eu hystyried. Mae HRA yn cael ei wneud drwy gydol cynhyrchu'r cynllun, gydag adroddiadau ar wahân ond yn gyfochrog â'r Broses GC hon. Bydd y Strategaeth Ddewisol yn cael ei sgrinio yn erbyn yr amcanion cadwraeth ar gyfer y safleoedd Natura 2000, ac ymgynghorir arni â'r ymgyngoreion statudol. Bydd canlyniadau hyn hefyd yn cael eu hystyried wrth gynhyrchu'r CDLl.

## Camau Nesaf

1.30. Bydd ymgynghori cyhoeddus llawn ar yr Adroddiad GC Dechreuol hwn a'r Strategaeth Ddewisol yn digwydd o 17 Rhagfyr 2018 i 4 Chwefror 2019.

1.31. Ar ôl ymgynghori, caiff yr Adroddiad GC ei ddiweddaru yn unol ag ymatebion yr ymgynghori. Bydd dewisiadau gwahanol a dewisiadau a pholisïau wedi'u newid yn cael eu hail-asesu lle bydd angen. Wedyn bydd Adroddiad Amgylcheddol yn cyflwyno GC helaeth o'r polisïau manwl a thir a neilltuwyd, a bydd hefyd yn cynorthwyo cynhyrchu'r CDLl er mwyn sicrhau cyfrannu at sicrhau datblygiad cynaliadwy. Yna bydd ymgynghori ar yr Adroddiad Amgylcheddol hwn ochr yn ochr â'r CDLl Adnau, a bydd unrhyw newidiadau yn hwn yn cael eu hail-asesu a'u hymgorffori cyn mabwysiadu'r cynllun. Yn olaf, caiff effeithiau arwyddocaol gweithredu'r cynllun eu monitro. Seilir hyn ar ddangosyddion posibl a awgrymwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu GC, a chânt eu datblygu wrth i'r cynllun symud ymlaen.

## Rhoi sylwadau ar yr adroddiad hwn

1.32. Bydd yr adroddiad hwn yn destun ymgynghori â'r cyhoedd rhwng 17 Rhagfyr 2018 a 4 Chwefror 2019. Gwnewch eich sylwadau gan ddefnyddio'r ddolen [https://www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud](https://www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud) neu ddefnyddio'r ffurflen sylwadau ymgynghori yn Atodiad 6.

# Pennod 2: Cyflwyniad

## Cefndir

2.1. Mae angen Gwerthuso Cynaliadwyedd (GC) cynlluniau defnyddio tir dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i alluogi cynlluniau i gyfrannu at sicrhau datblygiad cynaliadwy. Mae Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC yn gofyn bod effeithiau amgylcheddol rhai cynlluniau a rhaglenni yn cael eu hasesu trwy Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Daeth y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yn rhan o Gyfraith Cymru trwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliadau AAS).

2.2. Penderfynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod yn well ymgorffori gofynion y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yn y GC ar gyfer cynlluniau datblygu[8]. Felly, lle cyfeirir at GC yn yr adroddiad hwn, bydd hyn hefyd yn cynnwys gofynion Asesiad Amgylcheddol Strategol.

2.3. Mae'r Adroddiad GC Dechreuol hwn yn gosod allan werthusiad cynaliadwyedd Strategaeth Ddewisol y Cynllun Datblygu Lleol. Mae canllawiau GC ac AAS yn y Llawlyfr CDLl a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n cyfeirio at ganllawiau[9] AAS Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (SDBW) a chanllawiau GC SDBW[10].

## Proses GC/AAS

2.4. Mae pum cam yn y broses GC, sef:

Cam A: Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu'r cwmpas

Cam B: Datblygu a choethi gwahanol ddewisiadau ac asesu effeithiau

Cam C: Paratoi'r Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd (GC). Gelwir hwn yn Adroddiad Amgylcheddol yn ôl Rheoliadau AAS, ond mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r term Adroddiad GC drwyddo i gyd.

Cam D: Ymgynghori ar y cynllun drafft neu raglen a'r Adroddiad Cwmpasu GC.

Cam E: Arolygu effeithiau arwyddocaol gweithredu'r cynllun neu raglen ar yr amgylchedd.

## Adroddiad Cwmpasu GC

2.5. Cam cyntaf y broses GC oedd cynhyrchu Adroddiad Cwmpasu (Gweler yr Adroddiad Cwmpasu)[11]. Roedd yr adroddiad yn gosod cyd-destun a chwmpas yr asesiad ac yn cynnwys adroddiad ar gyflwr presennol yr amgylchedd, ac ar y sefyllfa economaidd yn y Sir. Nodwyd materion cynaliadwyedd allweddol a gosodwyd amcanion GC i fynd i'r afael â'r materion cynaliadwyedd hyn. Caiff y

[8] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Chwefror 2006, t. 21 (3.2).
[9] Canllaw Ymarferol i Gyfarwyddeb AAS, SDBW, Gweithrediaeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, Medi 2005.
[10] Gwerthuso Cynaliadwyedd Strategaethau Gofodol Rhanbarthol a Dogfennau Datblygu Lleol, SDBW, Tachwedd 2005.
[11] www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/sustainability-appraisal-strategic-environmental-assessment

CDLl ei brofi yn erbyn yr Amcanion GC hyn er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy.

2.6. Bu'r Adroddiad Cwmpasu GC yn destun ymgynghori â'r Ymgyngoreion Statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadw) a chyrff eraill sydd â chyfrifoldeb cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol ac fe'i cytunwyd yn ffurfiol. Mae sylwadau ymgynghori i'w gweld yn https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/gwerthusiad-cynaladwyedd-asesiad-amgylcheddol-strategol

## Strategaeth Ddewisol y CDLl

2.7. Mae'r Adroddiad GC Dechreuol hwn yn darparu GC ac AAS Strategaeth Ddewisol y cynllun Strategaeth Dewisol, a dylid ei ddarllen ar y cyd â Strategaeth Ddewisol y CDLl.[12]

2.8. Mae'r Strategaeth Ddewisol wedi'i datblygu o Faterion, Gweledigaeth a Dewisiadau, Amcanion a Dewisiadau Strategol yr ymgynghori[13]. Defnyddiwyd y Dewisiadau Strategol i fod yn sail ar gyfer trafod gyda budd-ddeiliaid allweddol, aelodau a chynghorau tref a chymuned.

### Amcanion y CDLl

2.9. Datblygwyd 11 Amcan y CDLl o weledigaeth y CDLl a'r rhain sy'n penderfynu sut le ddylai ardal y cynllun fod. Deilliodd Amcanion y CDLl o'r sylfaen dystiolaeth a materion penodol yn y cylch.

A) Lleddfu her Newid yn yr Hinsawdd ac ymateb iddo.

B) Sicrhau datblygiad o safon uchel lle caiff creu lle ei gefnogi gan ddylunio cynaliadwy sy'n ymateb yn briodol i dreftadaeth ddiwylliannol ac adeiladau, tirwedd a threfwedd.

C) Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol dwy gynnal busnesau sy'n cychwyn, arallgyfeirio gwledig, newid arferion amaethyddol, yr economi ymwelwyr, ac ehangu Mentrau Bach a Chanolig.

D) Cynnal cymunedau dyfeisgar drwy ddarparu amrywiaeth a chyfuniad o gartrefi'n cael eu cynnal gan gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol.

E) Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer ynni gwyrdd, a datblygiad yn seiliedig ar y môr a phorthladdoedd.

F) Gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

G) Cefnogi amrywiaeth o ddulliau defnyddio yng Nghanol Trefi i helpu adfywio.

[12] Strategaeth Ddewisol https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/gwerthusiad-cynaladwyedd-asesiad-amgylcheddol-strategol

[13] Gweledigaeth CDLl papur Amcanion a Dewisiadau: https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/opsiynau-strategol

H) Hyrwyddo amgylcheddau cyfleus ac iachus i bobl ac i fywyd gwyllt drwy warchod a darparu seilwaith gwyrdd.

I) Gwella mynediad i nwyddau a gwasanaethau drwy hyrwyddo gwelliannau mewn seilwaith[14] a chyfleusterau cymunedol, a chyfeirio datblygiad i leoliadau cynaliadwy.

J) Gwarchod a gwella amgylchedd, bioamrywiaeth a chynefinoedd y Sir.

K) Atal gwastraff rhag digwydd a sicrhau defnyddio adnoddau'n gyfrifol.

### Lefelau Twf

2.10. Cynhyrchwyd saith dewis twf posibl, gweler y Papur Dewisiadau Gofodol a Dogfen Strategaeth Ddewisol y CDLl am fwy o fanylion. Dyma oedd y saith dewis gwreiddiol:

**Crynodeb o'r Dewisiadau**

- Dewis 1 WG-2014 Sefyllfa (Ail-sail): 196 annedd y flwyddyn
- Dewis 2 PG Sefyllfa 10 ml: 340 annedd y flwyddyn
- Dewis 3 PG Sefyllfa Hirdymor: 408 annedd y flwyddyn
- Dewis 4 Sefyllfa ar sail Annedd (cyfartaledd 5ml): +443 annedd y flwyddyn
- Dewis 5 Sefyllfa ar sail Annedd (cyfartaledd 10ml): +416 annedd y flwyddyn
- Dewis 6 Dewis 5 Sefyllfa ar sail Annedd (CDLl cyfredol): +572 annedd y flwyddyn
- Dewis 7 Sefyllfa Mudo Sero: 6 annedd y flwyddyn.

### Lefel Twf Ddewisol

2.11. Seiliwyd y Dewis Twf Dewisol ar gyfuniad o'r sefyllfa 15 mlynedd o duedd mudo (Sefyllfa Hirdymor PG) sy'n awgrymu bod angen 408 o gartrefi y flwyddyn a'r sefyllfa adeiladu o ddwy gyfradd sy'n dangos darparu 416 o gartrefi y flwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf a 443 o gartrefi y flwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf. Gweler Pennod 3 yn y Strategaeth Ddewisol am y manylion.

### Dewisiadau Gofodol Strategol

2.12. Cyflwynwyd tri Dewis yn cyfeirio dyrannu safleoedd tai mwy o faint (dyraniadau nodweddiadol o fwy na 5) yn yr Ymgynghoriad Dewisiadau Gofodol[15]. Cynhyrchwyd y rhai o'r Ymgynghoriad Dewisiadau Gofodol.

Dewis Gofodol 1: Canolbwyntio Trefol - dyraniadau tai o fewn ac ar ymylon prif drefi (70%) a rhai dyraniadau o fewn ac ar ymylon aneddiadau gwledig (30%)

Dewis Gofodol 2 - Canolbwyntio'n Seiliedig ar Wasanaethau - Canolbwyntio'n Seiliedig ar Wasanaethau - Dyraniadau'n cael eu dosbarthu mewn

---

[14] Sylwch fod seilwaith yn cynnwys darpariaeth ffonau symudol a Band eang, gwella cludiant a darpariaeth carthffosydd.

[15] Opsiynau Strategol https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/opsiynau-strategol

aneddiadau yn ôl lefel bresennol y gwasanaethau a ddarperir o'u mewn - mewn trefi trefol / prif drefi (60%) ac aneddiadau gwledig unigol (40%) gyda lefel dda o wasanaethau.

Dewis Gofodol 3 - Canolbwyntio ar Gymunedau Gwledig - Dyraniadau'n cael eu rhannu ar draws amrywiaeth o aneddiadau, gan gynnwys Prif Drefi (50%) ac aneddiadau gwledig (50%), gyda'r potensial i gyfuno aneddiadau sydd gyda'i gilydd yn darparu lefel gynaliadwy o wasanaethau.

**Dewisiadau Strategaeth Tai Gwledig**

2.13. Cyflwynwyd dewisiadau penodol hefyd ar gyfer ardaloedd gwledig i ddarparu dewisiadau ar gyfer twf posibl mewn tai o fewn lefelau is o'r Heirarchaeth Aneddiadau[16]. Roedd y rhain yn cynnwys clystyrau aneddiadau, defnyddio ffiniau aneddiadau a hyrwyddo mewnlenwi a thalgrynnu. Trafodwyd hefyd y math o dai mwyaf addas ar gyfer yr aneddiadau sydd ag ychydig iawn o wasanaethau (gelwir yn Bentrefi Lleol) - naill ai Tai Fforddiadwy neu Dai'r Farchnad.

- Dewis A neu B ar gyfer Clystyrau Aneddiadau
- Dewis C neu D ar gyfer Ffiniau Aneddiadau
- Dewis E neu F ar gyfer Mewnlenwi a Thalgrynu
- Dewis G neu H ar Tai'r Farchnad a Thai Fforddiadwy

**Dewis Gofodol Dewisol a Dewis Strategaeth Wledig**

2.14. Y dewis a ddewiswyd oedd Dewis Gofodol 2, sef Canolbwyntio'n Seiliedig ar Wasanaethau. Bydd dulliau polisi o fewn ardaloedd gwledig yn cynnwys:

- Clystyrau Aneddiadau i wahaniaethu rhwng cynaliadwyedd Pentrefi Lleol
- Defnyddio Ffiniau Aneddiadau o fewn yr Hierarchaeth Aneddiadau
- Rhai cyfleoedd ar gyfer mewnlenwi mewn amgylchiadau a lleoliadau wedi'u diffinio
- Datblygu tai'r farchnad ym mhob lleoliad Pentrefi Lleol ond gyda lefel uwch o bobl yn cymudo i gefnogi darparu Tai Fforddiadwy mewn lleoliadau llai cynaliadwy.

**Polisïau Strategol a Pholisïau Cyffredinol**

2.15. Cafodd yr 19 o Bolisïau Strategol eu datblygu i ddarparu'r twf dewisol CDLl a dewisiadau gofodol i fynd i'r afael â materion allweddol y Sir (gweler Strategaeth Ddewisol, Pennod 6). Mae'r pum Polisi Cyffredinol sydd wedi'u datblygu hyd yma wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Ddewisol i ganiatáu rhoi sylwadau'n gynnar ar y meini prawf manwl a gaiff eu defnyddio i gefnogi darparu'r polisïau strategol.

## Strwythur yr Adroddiad hwn

2.16. Cyflwynir yr Adroddiad GC Dechreuol hwn yn y Penodau sy'n dilyn:
Pennod 1: Crynodeb annhechnegol o'r adroddiad.
Pennod 2: Yn rhoi cyflwyniad a chefndir i GC a Strategaeth Ddewisol y CDLl.

[16] Opsiynau Strategol https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/opsiynau-strategol

Strategaeth Ddewisol.
Pennod 3: Yn rhoi Crynodeb o'r Fframwaith Gwerthuso Cynaliadwyedd a methodoleg GC. Mae'r Fframwaith GC yn amlinellu'r Amcanion GC a nodau allweddol yr Amcanion hyn. Mae methodoleg GC yn disgrifio'r broses werthuso.
Pennod 4: Yn darparu crynodeb o'r asesiad o Weledigaeth y CDLl, yr Amcanion a'r Strategaeth Ddewisol.
Pennod 5: Cyflwyno crynodeb o'r Asesiad o'r Polisïau Strategol.
Pennod 6: Cyflwyno crynodeb o brofion y Polisiau Cyffredinol yn erbyn yr Amcanion GC.
Pennod 7: Cyflwyno crynodeb o'r 'Senario Dim Cynllun' neu senario busnes fel arfer.
Pennod 8: Cyflwyno crynodeb o effeithiau cyfunol a chronnol Strategaeth Ddewisol y CDLl.
Pennod 9: Cyflwyno crynodeb o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn cysylltiad â'r Strategaeth Ddewisol.
Pennod 10: I gloi, mae Pennod 10 yn rhoi crynodeb o gasgliadau allweddol yr adroddiad hwn ac yn nodi'r camau nesaf yn y broses GC.

2.17. Mae Atodiadau'n rhoi rhagor o wybodaeth: GC y Weledigaeth (Atodiad 1); y matrics cydnawsedd llawn ar gyfer Amcanion y CDLl a'r Amcanion GC (Atodiad 2); gwerthusiad o Ddewisiadau'r Strategaeth Ddewisol (Atodiad 3); Gwerthusiad o'r Polisïau Strategol (Atodiad 4); Gwerthusiad o'r Polisiau Cyffredinol (Atodiad 5) a ffurflen sylwadau Ymgynghori (Atodiad 6). Caiff gofynion y Gyfarwyddeb GSA eu gosod allan yn nogfen gyfarwyddyd SDBW ac maent yn berthnasol i amrywiol gyfnodau yn y broses GC/AAS (ODPM 2005). Mae hyn yn Atodiad 7.

**Beth NAD yw wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad CG Dechreuol hwn?**

- Manylion sydd yn yr Adroddiad Cwmpasu GC a gytunwyd (yr arolwg o gynlluniau eraill, asesiad o'r amgylchiadau llinell sylfaen, a materion perthnasol);
- Asesu dyraniadau penodol i safle, er enghraifft, safleoedd tai neu gyflogaeth - cynhwysir y rhain yn GC y CDLl Adnau;
- Asesu polisïau cynllunio manwl - bydd polisïau ychwanegol a manylach yn cael eu datblygu i gefnogi'r Polisïau Strategol, a bydd asesiad o'r rhain yn GC y CDLl Adnau;
- Gwerthuso Safleoedd Ymgeisiol unigol;
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - darperir hwn ar wahân.

# Pennod 3: Fframwaith GC a Methodoleg GC

## Cyflwyniad

3.1. Mae'r adran hon yn amlinellu sut y defnyddiwyd y fframwaith Gwerthuso Cynaliadwyedd (sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol) i asesu Strategaeth Ddewisol y Cynllun Datblygu Lleol yn erbyn yr Amcanion GC sydd wedi'u gosod allan yn y Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol. Nid yw'r gwerthusiad yn ailadrodd unrhyw bolisi neu amcanion rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol neu leol yn unol â'r canllawiau.

## Fframwaith Gwerthuso Cynaliadwyedd

3.2. Mae'r Amcanion GC yn rhoi sail ar gyfer y gwerthusiad o Strategaeth Ddewisol y CDLl[17].

3.3. Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth ddeillio Amcanion a nodau'r GC yn unol â chanllawiau AAS/GC. Bu ymgynghori statudol ar yr Adroddiad Cwmpasu GC. Ychwanegwyd at yr Amcanion a'r nodau GC, fel y gwelwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu GC/AAS, gan amcanion amgylcheddol sydd wedi'u pennu gan y gyfraith a pholisi ac o amcanion cynaliadwyedd cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill all ddylanwadu ar y cynllun neu ddod dan ei ddylanwad; yn ogystal â'r materion allweddol a nodwyd trwy gasglu data llinell sylfaen ac ymgynghori.

## Amcanion GC

3.4. Mae'r Amcanion GC yn cynnwys rhestr faith o feysydd pwnc a ddiffiniwyd gan ganllawiau (mewn llythrennau italig); nid ydynt yn ôl trefn eu pwysigrwydd. Mae'r Amcanion GC (mewn print trwm) a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad hwn fel a ganlyn:

*Maes Pwnc: POBLOGAETH*

**1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys.**

*Maes Pwnc: IECHYD POBL*

**2. Hybu a gwella iechyd a llesiant pobl trwy ffordd o fyw iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân.**

*Maes Pwnc: ADDYSG A SGILIAU*

**3. Gwella cyfleoedd addysg er mwyn gwella'r sgiliau a'r sail wybodaeth.**

*Maes Pwnc: CLUDIANT*

**4. Lleihau'r angen i deithio ac annog dulliau cludiant cynaliadwy.**

*Maes Pwnc: GWEAD CYMDEITHASOL*

**5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol.**

[17] Adroddiad Cwmpasu https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/gwerthusiad-cynaladwyedd-asesiad-amgylcheddol-strategol

**6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol.**
*7.* **Gwarchod a gwella swyddogaeth yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.**

*Maes Pwnc: ECONOMI*
**8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon sydd o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth.**
**9. Cefnogi economi leol gynaliadwy ac amrywiol.**

*Maes pwnc: FFACTORAU HINSODDOL*
**10. Paratoi ar gyfer newid yn yr hinsawdd a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro ato.**

*Maes pwnc: ANSAWDD YR AWYR*
**11. Cynnal a gwella ansawdd yr awyr.**

*Maes pwnc: ASEDAU MATEROL (GWASTRAFF A MWYNAU A DEFNYDDIO ADNODDAU)*
**12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd.**
**13. Annog cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon.**

*Maes pwnc: DŴR A'R PRIDD*
**14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol.**
**15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi**
**Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad**
**17. Diogelu ansawdd a swmp pridd**

*Maes pwnc: BIOAMRYWIAETH, ANIFEILIAID A PHLANHIGION*

**18. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.**

*Maes pwnc: ETIFEDDIAETH DDIWYLLIANNOL (PENSAERNÏAETH, ARCHEOLEG, A THIRWEDD)*
**19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol.**
**20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig.**
**21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol.**

## Gwerthusiad Cynaliadwy o'r Strategaeth Ddewisol

3.5. Ar yr adeg hon mae'r gwerthuso'n berthnasol i Strategaeth Ddewisol y CDLl. Yn gyntaf, profwyd Amcanion y CDLl gyferbyn â'r Amcanion GC i weld a oeddent yn cyd-fynd (Atodiad 1).

3.6. Yn ail, aseswyd y dewis a ffafriwyd ar gyfer y Strategaeth Ofodol gyferbyn â phob un o'r Amcanion GC ac fe'i aseswyd ar ei allu i hybu'r Amcanion GC a phenderfynu a oedd y dewis a ffafriwyd yn cyd-fynd â'r Amcanion GC. Dylid nodi, er y gall ymddangos nad yw'r strategaeth ddewisol yn cyflawni amcan, nac yn gwneud yn dda gyferbyn ag ef, fe all fod cyfleoedd i gyflwyno polisïau manwl

sy'n gallu sicrhau bod cynigion unigol yn ystyried yr amcanion hynny. Mae disgrifiad llawn o'r Dewisiadau yn y Papur Gweledigaeth, Amcanion a Dewisiadau a'r Strategaeth Ddewisol.

3.7. Yn olaf, aseswyd yr 19 o Bolisïau Strategol a'r pum Polisi Cyffredinol yn fanwl yn erbyn amcanion y fframwaith GC, a'u gallu i hyrwyddo'r Amcanion GC.

### Gwerthusiad o'r Weledigaeth

3.8. Gwerthuswyd Gweledigaeth y CDLl yn erbyn yr Amcanion GC gan ddefnyddio matrics gyda'r Amcanion GC ar hyd un echelin a dyfyniadau o'r Weledigaeth ar hyd y llall (Atodiad 1). Cwblhawyd yr asesiad gan ddefnyddio'r allwedd isod gyda sylwebaeth am faes y weledigaeth sy'n cael ei hasesu a sut mae hyn yn cysylltu â'r Amcan GC.

- \+ Amcanion cydnaws posibl
- \- Amcanion anghydnaws posibl
- ? Ansicr/aneglur pa effeithiau
- 0 Dim perthynas â'r Amcan GC

### Profi Cydnawsedd Amcanion y CDLl

3.9. Profwyd amcanion y CDLl (gweler pennod 6 o'r Strategaeth Ddewisol) am eu cydnawsedd â'r Amcanion GC. Gwnaed hyn mewn matrics gydag Amcanion y CDLl ar hyd un echelin a'r Amcanion GC ar hyd y llall (Atodiad 2). Cynrychiolwyd yr asesiad cydnawsedd gan y canlynol:

- ✓ Amcanion cydnaws
- ✗ Amcanion anghydnaws
- ? Ansicr – dibynnol ar ffactorau eraill neu ragor o fanylion
- 0 Dim cyswllt rhwng amcanion neu amherthnasol i'r amcan GC

### Asesu Polisïau Gofodol Strategaeth Ddewisol a Pholisïau Strategol y CDLl

3.10. Gwerthuswyd dewisiadau'r CDLl gyferbyn a'r Amcanion GC trwy ddefnyddio matrics. Datblygwyd strwythur y tabl ar sail cyfarwyddyd yn Llawlyfr y CDLl (Llawlyfr y CDLl, Adran 6.4) a oedd wedi'i wella gan Arweiniad GC SDBW (Gorchwyl B3). Diben asesu dewisiadau trwy GC yw rhagweld effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y Dewisiadau Gofodol sy'n cael eu hystyried ym mhroses baratoi'r CDLl (gweler y Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion, y Papur Dewisiadau Tai Strategol a'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd o'r ddau bapur hynny, a'r Strategaeth Ddewisol).

3.11. Gwerthuswyd y dewisiadau trwy ddefnyddio dulliau traddodiadol asesu dewisiadau ar ffurf tabl. Prif dechneg y gwerthuso oedd penderfynu a rhagweld effeithiau cadarnhaol a negyddol pob un o'r tri Dewis Gofodol gyferbyn â'r Amcanion GC. Mae'r sylwebaeth / esboniad a roddir yn gosod allan yr ymresymu y tu ôl i'r rhagfynegiad o effeithiau'r Dewis Gofodol a'i allu i ateb gofynion datblygu cynaliadwy. Caiff y 3 dewis gwreiddiol a gyflwynwyd i randdeiliaid eu dangos yn GC y Papur Dewisiadau Strategol Atodiad 2, a darperir yr asesiad o'r Dewis a Ffafriwyd ym Mhennod 6. Gwerthuswyd y Dewisiadau Gofodol gan ddefnyddio'r allwedd:

+ Effeithiau cadarnhaol posibl
- Effeithiau negyddol posibl
? Ansicr / aneglur pa effeithiau.
0 Dim cysylltiad â'r Amcan GC

3.12. Gwerthuswyd y Polisïau Strategol a Chyffredinol trwy gymharu'r Polisïau yn yr erbyn yn Amcanion GC (oedd yn debyg i'r gwerthusiad o'r Dewisiadau Gofodol) ac, yn ogystal â'r golofn sylwebaeth / esboniad, cynhwyswyd dwy golofn ychwanegol yn y tabl i benderfynu a yw'r polisi'n cyfrannu at gyflawni'r Amcan GC ac a yw'r polisi'n gydnaws â'r Amcan GC.

3.13. Gwerthuswyd Polisïau Strategol a Chyffredinol y CDLl yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd a ddatblygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu GC:

✓ Mae'r polisi'n cyfrannu at a/neu'n gydnaws â'r Amcan GC.
✗ Mae'r polisi'n anghydnaws â'r Amcan GC.
0 Nid oes gan y polisi ddim perthynas uniongyrchol â'r Amcan GC.
? Mae'n anhysbys / aneglur a yw'r polisi'n cyfrannu at a/neu'n gydnaws â'r Amcan GC.

3.14. Mae gwerthusiad o'r Dewisiadau Gofodol, y Polisïau Strategol a'r Polisïau Cyffredinol yn rhan hanfodol o asesiad o effaith unrhyw effeithiau cynaliadwyedd mewn cysylltiad â'r canlynol:

- Effeithiau negyddol (andwyol), niwtral neu gadarnhaol (llesol)
- Uniongyrchol neu anuniongyrchol
- Tymor byr, canolig neu hir
- Unigol neu gronnus
- Gwrthdroadwy neu ddiwrthdro
- A yw'n rhesymol ymarferol gwneud gwaith lleddfu.

3.15. Mae adroddiad ar y rhain lle mae'n bosibl ar hyn o bryd, a chânt eu helaethu yn yr Adroddiad GC llawn pan fydd mwy o fanylion am ddyrannu tir a pholisïau manwl yn cael eu cynnig.

# Pennod 4: Crynodeb o'r Asesiadau

## GC o Weledigaeth y CDLl

4.1. Ar y cyfan mae'r Weledigaeth yn gydnaws ac yn cefnogi'r Amcanion GC. Mae yna rai meysydd lle nad yw'n bosibl penderfynu a oes perthynas gadarnhaol neu negyddol. Ond nid yw'r asesiad cyffredinol o'r Weledigaeth yn peri pryder. Mae asesiad llawn i'w weld yn Atodiad 1.

## Cydnawsedd Amcanion y CDLl â'r Amcanion GC

4.2. Roedd y matricsau gwerthuso (gweler Atodiad 2) yn dangos bod yr amcanion ar y cyfan yn gydnaws â'r Amcanion Cynaliadwyedd. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, dangosodd y gwerthuso rywfaint o ansicrwydd mewn cysylltiad â chanlyniadau, gan fod y rhain yn ddibynnol ar natur a maint y datblygiad. O gofio natur strategol yr Amcanion, ystyrir ei bod yn dderbyniol i ansicrwydd o'r fath fod yn dderbyniol.

4.3. Meysydd lle mae anghydnawsedd posibl rhwng yr Amcanion yw'r berthynas rhwng yr amcanion hynny sy'n hyrwyddo datblygiad mewn cymunedau gwledig ac a all felly fod yn cynyddu teithio a defnyddio tir ond heb gefnogi amcanion GC sy'n gysylltiedig â lleihau teithio, lleihau llygredd a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Dylai datblygu strategaethau dulliau polisi sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad ar raddfa fwy yn y mannau mwyaf cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig leddfu'r tensiwn hwn. Mewn rhan achosion, mae ansicrwydd ar hyn o bryd a oes cydnawsedd rhwng yr Amcanion. Mae cyfleoedd drwy ddulliau polisi manwl yn ddiweddarach yn y Cynllun i sicrhau lleddfu unrhyw densiynau.

## GC o'r Strategaeth Ddewisol

4.4. Cafodd y Dewis Gofodol Dewisol a'r Dewis Twf Dewisol eu gwerthuso gan ddefnyddio asesiad ansoddol o'r effeithiau posibl a gâi'r dewisiadau polisi ar yr Amcanion GC, a chan fod y Dewis Twf yn gyfuniad o dri dewis mae hwn wedi ei ail-asesu. Mae'r asesiad llawn o'r Dewis Twf a'r Dewis Gofodol i'w gweld yn Atodiad 3.

### Dewis Gofodol Dewisol

4.5. Ar y cyfan byddai'r Dewis Gofodol Dewisol (|Dewis 2) yn cyfeirio llai o'r twf cyffredinol i'r Prif drefi (trefi Canolbwynt gynt) ac yn cynyddu'r angen i deithio ar gyfer mynediad a hamdden, gofal iechyd a chyfleusterau hamdden. Er bod pobl yn debygol o allu defnyddio dulliau cludiant cynaliadwy, byddai hynny'n cynyddu nifer y siwrneiau car a thagfeydd mewn Prif Drefi. Fodd bynnag, mae'n caniatáu ar gyfer mwy o ddatblygu yn y Trefi Gwledig, y Canolfannau Gwasanaeth a'r pentrefi gwasanaeth, ac o bosibl yn helpu cefnogi'r gwasanaethau lleol presennol.

### Dewis Twf Dewisol

4.6. Byddai'r dewisiadau Twf i gyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at fodloni rhai o'r amcanion GC cymdeithasol, er enghraifft, y rheiny sy'n golygu darparu Tai Fforddiadwy a chefnogi cymunedau cydlynol. O ran yr amcanion GC amgylcheddol yn gysylltiedig â defnyddio adnoddau, gwarchod ansawdd y pridd,

lleihau llygredd a diogelu ansawdd dŵr, roedd y rheiny a oedd o blaid lefelau is o dai yn llai cadarnhaol. Ar y cyfan, nid yw GC y Dewisiadau hyn yn annhebyg i'r holl Ddewisiadau a aseswyd.

# Pennod 5: Asesiad o'r Polisïau Strategol

## Cyflwyniad

5.1. Caiff yr 19 Polisi Strategol eu hasesu yn erbyn yr Amcanion GC (gweler y tablau yn Atodiad 4). Mae yna asesiad o'r cwestiwn a yw'r Polisi'n cyfrannu at fodloni'r Amcan GC, ac a yw'r Polisi'n gydnaws â'r Amcan GC. Dyma'r allwedd a ddefnyddiwyd:

✓ Y polisi'n cyfrannu a/neu'n gydnaws â'r Amcan GC
x Y polisi'n anghydnaws â'r Amcan GC
0 Dim cysylltiad uniongyrchol rhwng y polisi a'r Amcan GC.
? Anhysbys/aneglur a yw'r polisi'n cyfrannu a/neu'n gydnaws a'r Amcan GC.

5.2. Darperir yr asesiadau polisi llawn yn Atodiad 4. Gwelir crynodeb yn Nhabl 1 isod:

Tabl 1 Crynodeb o GC y Polisïau Strategol

| Polisi Strategol | Crynodeb o'r asesiad yn erbyn Amcanion GC |
|---|---|
| **SP 1 Creu Lleoedd Cynaliadwy** | Mae potensial i'r polisi hwn gefnogi mwyafrif yr Amcanion GC, gan ei fod yn ceisio cefnogi creu lleoedd cynaliadwy, gan gyfeirio nifer o wahanol agweddau ar gynaliadwyedd, gan gynnwys llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Roedd tair enghraifft lle na farnwyd fod gan y polisi ddim cysylltiad uniongyrchol â'r Amcan GC, er bod y pynciau hyn yn debygol o gael sylw gan bolisïau eraill yn y cynllun. |
| **SP 2 Angen am Dai** | Mae'r polisi gofynion tai yn cefnogi datblygiad ledled y Sir. Caiff y dyraniad tai ei ddiffinio gan yr Hierarchaeth Anheddau (yn SP 5) a'i gefnogi gan bolisïau manwl eraill ar ffiniau aneddiadau (SP 6), Prif Drefi (SP 7), Tref Wledig Arberth, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth (SP 8) a Phentrefi Lleol (SP 9). Dylai dosbarthiad eang a graddfa gytbwys datblygiad rhwng aneddiadau trefol a gwledig gyfrannu at gynnal poblogaeth wledig iach ac atal gor-ddatblygu mewn ardaloedd yn y Sir. Mae dwy agwedd ar y dull hwn o ran mynediad; lleihau'r angen i deithio am wasanaethau hanfodol a'r potensial i leihau pellter teithio o'r cartref i'r gwaith, sy'n dal yn un o brif resymau teithio yn y Sir. Caiff ymwybyddiaeth genedlaethol o faterion yn ymwneud â thai ac effeithiau ar y newid yn yr hinsawdd ei adlewyrchu ar lefel leol o fewn y polisi hwn ar y cyd ag un neu fwy o'r polisïau. Lle mae datblygiad tai yn debygol o gael effaith ar dirwedd, treftadaeth a/neu fioamrywiaeth, bydd y polisi'n gweithio ar y cyd â pholisïau manwl i ddarparu camau lleddfu a/neu ddiogelu. |
| **SP 3 Targed Tai Fforddiadwy** | Mae'r boblogaeth yn Sir Benfro sy'n heneiddio wedi ei nodi'n duedd y mae angen ei chyfyngu a'i newid lle mae'n bosibl. Dylai darparu tai fforddiadwy fel rhan o ddatblygiadau tai mawr a thrwy bolisïau penodol eraill (e.e. GN 5) gyfrannu'n sylweddol at boblogaeth gytbwys a chefnogi cymunedau bywiog a chydlynol. Mae'r un effeithiau o ran bioamrywiaeth, tirwedd a defnyddio adnoddau yn gymwys i ddatblygiadau tai o fathau eraill, a lle caiff effeithiau posibl eu hystyried yn debygol defnyddir y polisi hwn ar y cyd â pholisïau manwl eraill i leddfu neu warchod lle bydd yn briodol. Ar hyn o bryd mae rhestr hir o |

| | |
|---|---|
| | angen tai fforddiadwy yn Sir Benfro. Rhagwelir y bydd nifer y tai fforddiadwy a gaiff eu datblygu dan y polisi hwn yn cyfrannu at leihau'r rhestr, ac yn y pen draw gall hyn arwain at iechyd a lles gwell. |
| **SP 4 Cefnogi Ffyniant** | Mae perthynas glir a chadarnhaol rhwng y polisi a'r Amcanion GC o ran strwythur y boblogaeth, darparu swyddi a'r economi leol. Roedd dwy enghraifft bellach lle gallai'r polisi o bosibl ymwneud ag Amcan GC, ond ym mhob achos arall nid oedd perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r Amcan GC. |
| **SP 5 Hierarchaeth Aneddiadau – Strategaeth Aneddiadau Cynaliadwy** | Dylai lleoli tai mewn aneddiadau yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau sicrhau y bydd llai o deithio a mynediad da i wasanaethau a chyfleusterau. Bydd polisïau cynllunio cenedlaethol eraill a pholisiau datblygu lleol manwl yn delio â gwarchod y pridd, gwastraff a llifogydd, ac ati. Gall fod effeithiau posibl ar fioamrywiaeth, tirwedd a'r dreftadaeth, ac ati, ond gall y rhain gael eu hatal neu ei lleddfu gan bolisïau i'w gwarchod. |
| **SP 6 Ffiniau Aneddiadau** | Dylai lleoli tai mewn canolfannau aneddiadau ac yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau ac mewn ardaloedd gwledig sicrhau y bydd llai o deithio a mynediad da i wasanaethau a chyfleusterau. Bydd polisïau cynllunio cenedlaethol eraill a pholisiau datblygu lleol manwl yn delio â gwarchod y pridd, gwastraff a llifogydd, ac ati. Gall fod effaith bosibl ar fioamrywiaeth, tirwedd a'r dreftadaeth, ac ati, ond gall y rhain gael eu hatal neu ei lleddfu gan bolisïau i'w gwarchod. |
| **SP 7 Prif Drefi** | Bydd lleoli datblygiad mewn Prif Drefi yn cefnogi strategaeth y CDLl ac yn sicrhau y gellir lleihau teithio a chael mynediad da i wasanaethau a chyfleusterau, a mwy o gyfleoedd ar gyfer ffyrdd iach o fyw a mynediad i gyfleusterau hamdden. Mae gan bolisïau eraill yn y CDLl a pholisi cynllunio cenedlaethol berthynas uniongyrchol ag amcanion yn ymwneud â phridd, gwastraff, ailddefnyddio defnyddiau, a llifogydd, ac ati, a gallant fynd i'r afael a'r rheiny. |
| **SP 8 Tref Wledig Arberth, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth** | Bydd lleoli cyfran helaeth o ddatblygiadau o fewn Tref Wledig Arberth, canolfannau gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth yn cefnogi strategaeth y CDLl ac yn sicrhau y gellir lleihau teithio, a bydd mynediad i wasanaethau a chyfleusterau lleol yn helpu cynnal cymunedau cynaliadwy. Mae gan bolisïau eraill yn y CDLl a pholisi cynllunio cenedlaethol berthynas uniongyrchol ag amcanion yn ymwneud â phridd, gwastraff, ailddefnyddio defnyddiau, a llifogydd, ac ati, a gallant fynd i'r afael a'r rheiny. |
| **SP 9 Pentrefi Lleol** | Mae'r polisi hwn yn ceisio annog cymunedau lleol cynaliadwy, a thrwy sicrhau bod maint a lleoliad datblygiadau'n cefnogi Aneddiadau Clwstwr sydd â chysylltiad effeithiol drwy gludiant cyhoeddus neu ffordd weithredol o deithio â phrif anheddle, mae'n gyfle i deithio heblaw mewn car. Gall defnyddio'r polisi hwn gael effaith gadarnhaol ar gymunedau Cymraeg eu hiaith a'r diwylliant lleol. Mae gan bolisïau eraill yn y CDLl a pholisi cynllunio cenedlaethol berthynas uniongyrchol ag amcanion yn ymwneud â phridd, gwastraff, ailddefnyddio defnyddiau, a llifogydd, ac ati, a gallant fynd i'r afael a'r rheiny. |
| **SP 10 Cefn Gwlad** | Gall lleoli datblygiadau priodol mewn mannau yng nghefn gwlad ychwanegu at yr Amcanion GC o'i weithredu at y cyd â |

| | |
|---|---|
| | pholisiau eraill yn y cynllun. |
| **SP 11 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd** | Bydd i'r polisi strategol hwn berthynas uniongyrchol â nifer o'r amcanion GC. Bydd y potensial i gynnal a gwella'r amgylchedd (gan gynnwys rhywogaethau, tirweddau a'r systemau sy'n cynnal y rheiny) a'i diogelu rhag datblygiad niweidiol sylweddol yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar amcanion ar gyfer yr amgylchedd, tirwedd, newid yn yr hinsawdd, lles a nodweddion arbennig yr amgylchedd adeiladau. |
| **SP 12 Datblygiad yn gysylltiedig â Phorthladdoedd ac Ynni** | Mae yna botensial i'r polisi hwn gefnogi rhai o'r amcanion cynaliadwyedd, yn enwedig y rheiny'n ymwneud â materion cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, mewn llawer achos arall mae'r effeithiau'n ansicr a byddant yn dibynnu ar union natur y datblygiadau sy'n cael eu cyflwyno. Lle bydd y rhain yn y sector ynni, mae potensial clir i fuddiannau amgylcheddol ddeillio, ond bydd y polisi hefyd yn cynnal mathau eraill o ddatblygiadau porthladdoedd ac ynni, lle gall fod llai o fuddiannau amgylcheddol (os o gwbl). Yng Nghymru, mae ymdrech polisi clir tuag at ynni adnewyddadwy, gan fod hyn yn cefnogi'r ymgyrch am ddyfodol carbon sero. Fodd bynnag, dyhead dros gyfnod hir yw hyn, a gall bodloni anghenion yr economi ac ynni ofyn hefyd am rai mathau o ddatblygiad trawsnewid na fyddant o reidrwydd yn dod â buddiannau amgylcheddol mawr, ond yn cefnogi cyflogaeth ac ynni ac anghenion cymdeithasol. |
| **SP 13 Cyflogaeth Darparu Tir** | Mae yna botensial i'r polisi hwn gefnogi rhai o'r amcanion cynaliadwyedd, yn enwedig y rheiny'n ymwneud â materion cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, mewn llawer achos arall mae'r effeithiau'n ansicr a byddant yn dibynnu ar union natur y datblygiadau sy'n cael eu cyflwyno. Mewn rhai sectorau, megis ynni adnewyddadwy, mae potensial i fuddiannau amgylcheddol ddeillio, ond nid yw'r polisi'n cyfeirio'n benodol at y sector hwnnw. Mae'r lleoliadau allweddol ar gyfer twf yn y dyfodol yn rhan fwyaf o achosion yn gyfleus ac yn gysylltiedig ag aneddiadau sydd eisoes yn bod, a chyd-leoli'n cynnig y potensial ar gyfer teithio a byw cynaliadwy. |
| **SP 14 Hierarchaeth Adwerthu** | Mae'r polisi hwn yn gosod allan yr hierarchaeth adwerthu mewn trefi a chanolfannau lleol yn y cynllun. Mae'r rhain yn lleoliadau cyfleus a chynaliadwy iawn ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn cefnogi'n gryf amcanion y cynllun. A bydd ganddynt y potensial i gefnogi'r iaith Gymraeg a lles diwylliannol cymunedau o fewn ardal y cynllun. Mae gan bolisïau eraill yn y CDLl a pholisi cynllunio cenedlaethol berthynas uniongyrchol ag amcanion yn ymwneud â'r pridd, gwastraff, ailddefnyddio defnyddiau, a llifogydd ac ati, a gallant fynd i'r afael a'r rheiny. |
| **SP 15 Economi Ymwelwyr** | Gall cefnogi'r economi ymwelwyr a lleoli datblygiadau priodol mewn lleoliadau cynaliadwy ychwanegu at yr Amcanion GC yn y cynllun o'u gweithredu ar y cyd a pholisiau eraill yn y cynllun. Mae'r polisi'n ei gwneud yn ofynnol lleoli pob datblygiad yn gynaliadwy ac i barchu a gwarchod yr amgylchedd naturiol a'r amgylcheddau adeiladau, a bod yn llesol i gymunedau lleol. Felly, gellid dod i'r casgliad bod y polisi'n ddigonol i sicrhau na fydd effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol yn negyddol. |
| **SP 16 Mwynau** | Mae ar gymdeithas angen mwynau i hwyluso adeiladu cartrefi |

| | |
|---|---|
| | newydd yn enwedig a datblygiadau newydd yn gyffredinol. Felly, bydd y polisi hwn, sy'n cefnogi darparu mwynau i fodloni anghenion y Sir, yn dod ag amrywiol fuddiannau economaidd a chymdeithasol. Fodd bynnag, mae yna wrthdaro anorfod, a allai fod yn sylweddol, ag amrywiol amcanion amgylcheddol GC, er y gall fod buddiannau i fioamrywiaeth ac addysg wrth adfer ac ar ôl gorffen defnyddio (ar ôl i'r cloddio ddod i ben). Gall fod enghreifftiau hefyd lle nad oes gan y polisi hwn ddim perthynas uniongyrchol ag Amcanion GC. |
| **SP 17 Yr Iaith Gymraeg** | Bydd y polisi hwn yn cefnogi defnyddio'r iaith Gymraeg a lles diwylliannol cymunedau Cymraeg eu hiaith yn ardal y cynllun. Mae gan bolisiau eraill yn y CDLl a pholisi cynllunio cenedlaethol berthynas uniongyrchol ag amcanion yn ymwneud â'r pridd, gwastraff, ailddefnyddio defnyddiau, a llifogydd ac ati, a gallant fynd i'r afael a'r rheiny. |
| **SP 18 Seilwaith Cludiant a Mynediad** | Mae'r agweddau ar y polisi sy'n ymwneud â gwella seilwaith cludiant cynaliadwy a dulliau teithio, yn enwedig cerdded a beicio, yn debygol o gynnal amcanion GC cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae gwella mynediad yn gyffredinol yn debygol o ddod â buddiannau cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, bydd rhai o'r gwelliannau seilwaith yn helpu o ran teithio mewn cerbydau sy'n defnyddio tanwydd ffosil. Lle digwydd hyn, gall effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol negyddol godi. Mae yna lawer achos lle nad oes gan y polisi ddim perthynas uniongyrchol ag Amcan GC penodol, ond yn yr achosion hyn maent yn dal yn gydnaws. |
| **SP 19 Atal a Rheoli Gwastraff** | Mae gan atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy y potensial i ddod â nifer o fuddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Adlewyrchir hyn yn y tabl uchod, sy'n dangos amrywiol enghreifftiau lle gallai'r polisi gefnogi Amcan GC. Mae gwastraff yn faes cymhleth, ac mae rhai achosion lle mae'r effeithiau'n ansicr, neu lle gall cyfuniad o ganlyniadau negyddol a chadarnhaol godi. Mae yna hefyd lawer achos lle nad oes gan y polisi ddim perthynas uniongyrchol ag Amcan GC, ond maent yn gydnaws. |

## Casgliadau'r Gwerthusiad o'r Polisïau Strategol

5.3. Caiff yr 19 o Bolisiau Strategol eu hasesu yn erbyn yr Amcanion GC. Roedd y rhan fwyaf o'r Polisïau'n gydnaws ac yn cyfrannu at fodloni'r Amcanion GC. Cafodd y polisïau eu hasesu gan swyddogion cynllunio ac arbenigwyr y Cyngor Sir i ragweld eu heffeithiau o ran yr Amcanion Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Yn benodol, roedd y GC yn helpu sicrhau bod datblygiad y Polisïau Strategol yn unol â'r Amcanion GC o'r cychwyn a chafodd y polisïau eu coethi a'u hail-eirio i sicrhau eu bod yn fwy cydnaws â'r Amcan GC.

5.4. Yn ôl y disgwyl, mae ychydig ansicrwydd o hyd am effeithiau posibl y Polisïau Strategol lle nad oes dyraniadau tir penodol wedi'u gwneud. Caiff polisïau eu hasesu'n fanylach pan fydd polisïau a thir penodol wedi'u dyrannu.

# Pennod 6: Asesiad o'r Polisiau Cyffredinol

## Cyflwyniad

6.1. Caiff y 5 Polisi Cyffredinol eu hasesu yn erbyn yr Amcanion GC fel y Polisiau Strategol. Mae'r asesiadau polisi cyffredin llawn wedi'u darparu yn Atodiad 5.

Tabl 2: Crynodeb o asesiadau'r Polisiau Cyffredinol

| **Polisiau Cyffredinol** | |
|---|---|
| **GN 1 Polisi Datblygiad Cyffredinol** | Bydd y polisi eang hwn yn cyfrannu at ddarparu'r rhan fwyaf o'r Amcanion GC ar gyfer y Cynllun. Mae polisïau eraill y CDLl yn debygol o gefnogi gweddill yr Amcanion GC. O'i ddefnyddio gyda pholisiau eraill y Cynllun, bydd y polisi'n sicrhau bod datblygiad yn darparu buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol cyfnod byr a chyfnod hir. Mae'r cyfiawnhad sydd wedi'i resymu yn ehangu'r polisi ymhellach i sicrhau y gellir delio â'r holl ystod o effeithiau posibl. |
| **GN 2 Dylunio Cynaliadwy** | Mae'r polisi hwn yn edrych ar yr agweddau niferus ar ddylunio cynaliadwy. Mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at ddarparu'r rhan fwyaf o'r Amcanion GC, a gall helpu darparu'r gweddill yn anuniongyrchol. Does dim perthynas uniongyrchol â rhai o'r Amcanion GC, ond gall polisïau eraill y Cynllun helpu darparu'r rheiny, ac maent yn dal yn gydnaws. Bydd effeithiau'r polisi yn gadarnhaol ac yn amlwg yn y cyfnod byr a'r cyfnod hir. Bydd y polisi hefyd yn dod â buddiannau cronnus i'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiladau yn ardal y Cynllun. |
| **GN 3 Seilwaith a Datblygiad Newydd** | Mae datblygiad newydd yn golygu galwadau ychwanegol ar seilwaith a gwasanaethau, felly, disgwylir i ddatblygwyr gyfrannu. Bydd y cyfraniadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau ac ar yr amgylchedd. |
| **GN 4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Carbon-isel** | Mae'r polisi hwn yn gyffredinol yn gefnogol i gynigion ynni adnewyddadwy, ac eithrio cynigion tyrbinau gwynt ar raddfa fawr, ac yn ddibynnol ar rai amodau ar effeithiau tirwedd ac amgylchedd unigol a chronnus. Mae technolegau ynni adnewyddadwy hefyd yn niwtral o ran cynhyrchu carbon. Fel y cyfryw mae'r polisi'n cefnogi nifer o'r Amcanion GC economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Fodd bynnag, mae ychydig o'r Amcanion GC lle mae effeithiau technolegau ynni adnewyddadwy yn ansicr a / neu'n gyfuniad o effeithiau cadarnhaol a negyddol. Hefyd nid yw rhai o'r Amcanion GC yn uniongyrchol gydnaws â'r polisi. |
| **GN 5 Datblygiadau Mewnlenwi mewn Pentrefi Bach** | Byddai'r polisi hwn yn helpu cynnal cymunedau cydlynol, a gallai fod o fudd i'r iaith Gymraeg, ac mewn achosion lle mae pobl yn gweithio mewn ardaloedd gwledig gallai ddarparu cyfleoedd i fyw yn agos at eu lle gweithio. Fodd bynnag, mae effeithiau nad ydynt yn gydnaws â'r amcanion, gan gynnwys y tebygolrwydd i bobl orfod teithio ymhellach drwy ddulliau anghynaliadwy, i allu cyrraedd y rhan fwyaf o leoedd gweithio, gwasanaethau a chyfleusterau mewn aneddiadau mwy o faint. |

## Casgliadau'r Gwerthusiad o'r Polisiau Cyffredinol

6.2. Cafodd y pum Polisi Cyffredinol eu hasesu yn erbyn yr Amcanion GC. Roedd y rhan fwyaf o'r Polisïau'n gydnaws ac yn cyfrannu at fodloni'r Amcanion GC. Cafodd y polisïau eu hasesu gan swyddogion cynllunio ac arbenigwyr y Cyngor Sir i ragweld eu heffeithiau o ran yr Amcanion Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Yn benodol, roedd y GC yn helpu sicrhau bod datblygiad y Polisïau Strategol yn unol â'r Amcanion GC o'r cychwyn a chafodd y polisïau eu coethi a'u hail-eirio i sicrhau eu bod yn fwy cydnaws â'r Amcan GC.

6.3. Yn ôl y disgwyl, mae ychydig ansicrwydd o hyd am effeithiau posibl y Polisïau Strategol lle nad oes dyraniadau tir penodol wedi'u gwneud. Caiff polisïau eu hasesu'n fanylach pan fydd polisïau a thir penodol wedi'u dyrannu.

# Pennod 7: Sefyllfa Dim Cynllun

## Cefndir

7.1. Mae'r dim cynllun neu fusnes yn ôl yr arfer hefyd yn cael ei asesu yn ôl gofynion y Gyfarwyddeb AAS. Diben hyn yw penderfynu'r effeithiau cynaliadwyedd yn absenoldeb y cynllun, ac mae'n dangos cyfraniad y cynllun newydd i ddatblygiad cynaliadwy.

7.2. Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn ei gwneud yn ofynnol nodi "agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'i hesbygliad tebygol heb weithredu'r cynllun neu'r rhaglen (Atodiad 1 (b)).

7.3. Mae Tabl 3 yn rhoi crynodeb o'r sefyllfaoedd posibl yn erbyn yr Amcan GC perthnasol.

Tabl 3: Sefyllfa dim cynllun neu fusnes yn ôl yr arfer

| **Amcan GC** | **Busnes yn ôl yr arfer – CDLl1 tan 2021, Polisi cenedlaethol wedi hynny** |
|---|---|
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys | Ychydig le sydd yn y system gynllunio i fodloni'r amcan hwn - mae pob cynllun a pholisi presennol yn annog datblygaidau sy'n fuddiol i bob sector mewn cymdeithas. Mae egwyddor y CDLl1 yn rhoi datblggiad cynaliadwy yng nghanol y cynllun. Mae polisïau o fewn CDLl1 yn cefnogi datblygiadau economaidd a thwf tai, gan gynnwys tai fforddiadwy. |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles pobl drwy ffordd iach o fyw, gall u cael gofal iechyd a chyfleusterau hamdden, ac amgylchedd glân ac iach | Mae'r nod o ddatblygiadau cynaliadwy, sy'n cynnwys pob agwedd ar yr amcan hwn, yn cael ei hyrwyddo gan agendâu rhyngwladol a chenedlaethol. Yn absenoldeb Cynllun, neu dan CDLl1, gellir disgwyl y bydd y System Gynllunio yn dal i gefnogi'r Amcan GC hwn. |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i wella'r sail sgiliau a gwybodaeth | Gall y system gynllunio hwyluso;'r amcan hwn drwy ddyrannu tir, ond na all hybu'r gwelliannau hyn yn uniongyrchol, boed drwy'r CDLl1 neu bolisi cenedlaethol. |
| 4. Lleihau'r angen i deithio ac annog dulliau teithio cynaliadwy | Mae gan ddull Datblygiad Cynaliadwy y CDLl1 wahanol effeithiau wth iddi anelu art lfeihau'r angen i'r boblogaeth wledig deithio i ardaloedd trefol, er y gall hyn arwain at fwy o deithio rhwng aneddiadau. Pwyslais gofodol cyffredinol y CDLl1 yw darparu datblygiad o fewn strategaeth aneddiadau. Mae'r CDLl1 yn dyrannu tir cyflogaeth ledled y Sir gan anodd cyfleoedd buddsoddi a chyflogaeth yn agos at ganolfannau poblogaeth mewn ardaloedd trefol, a gwledig a safleoedd strategol. Mae canllawiau cenedlaethol yn ceisio darparu datblygiad cynaliadwy, ac felly, mewn sefyllfa dim cynllun, byddai canllaw yn rhwystro adeiladu anaddas yn y wlad ac mewn lleoliadau anghynaliadwy eraill. |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon uchel gan gynnwys tai fforddiadwy i ateb anghenion lleol | Mae CDLl1 yn hawlio'i fod yn mynd i'r afael â'r angen am dai drwy ddyraniadau tai, fel y gwelir ym Mholisïau Strategol SP 7, SP 8, SP 12-15 a'r Polisïau Cyffredinol am gyfnod y Cynllun 2013-20121. Mewn sefyllfa o ddim cynllun, byddai hyn yn achosi anawsterau wrth sicrhau darpariaeth briodol o dai. |

| | |
|---|---|
| | Mae polisïau cryf ar dai o fewn y CDLl1 wedi dod â nifer fawr o dai fforddiadwy, a byddai'n parhau tan 2021. |
| 6. Adeiladu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol sydd a gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol | Mae CDLl1 yn hyrwyddo hierarchaeth aneddiadau'n seiliedig ar nodweddion defnyddioldeb ac argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau. Mae Trefi Canolbwynt, Aneddiadau Gwledig, Pentrefi Lleol Mawr, a Phentrefi Lleol Bach wedi eu nodi.<br><br>Mae Polisïau Strategol a Chyffredinol sy'n cefnogi'r CDLl1 yn sicrhau bod datblygiad yn cefnogi'r Amcan GC hwn. Mae canllawiau i'w cael hefyd mewn polisi cenedlaethol. |
| 7. Diogelu a gwella swyddogaeth yr iaith Gymraeg a'r diwylliant | Mae'r cysylltiad rhwng y system defnyddio tir a'r iaith Gymraeg yn cael ei osod allan mewn canllawiau cenedlaethol. Mae Polisi Strategol SP 9 yn CDLl1 yn sicrhau bod datblygiad yn cael ei reoli'n sensitif mewn ardaloedd lle mae gan y Gymraeg swyddogaeth sylweddol yn y gymuned leol. Nid yw'r polisi'n gwneud fawr ddim i 'wella' swyddogaeth yr iaith. |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon sydd ar gael i bob rhan o'r boblogaeth | Mae tir wedi'i ddyrannu yn CDLl1 i ddarparu cyfuniad o safleoedd strategol a lleol, wrth ymyl Dyfrffordd Aberdaugleddau, yn Noc Penfro, Hwlffordd a Thre-cŵn. Caiff safleoedd lleol eu nodi yn y Trefi Canolbwynt a rhai aneddiadau gwledig. Fodd bynnag, nid yw'r system Gynllunio'n darparu'r cyfleoedd hyn, p'un a oes cynllun wedi'i fabwysiadu neu beidio. |
| 9. Cefnogi economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Mae CDLl1 yn bennaf yn ceisio cefnogi economi wledig a threfol gref. Mae'r CDLl1 o blaid cael yr aneddiadau allweddol i gydweddu, a dylai darparu datblygiadau tai bob yn gam hwyluso cyrraedd yr amcan hwn. Mae polisïau yn y CDLl1 hefyd yn cefnogi'r Economi Ymwelwyr, Datblygiadau Adwerthu a hyrwyddo arallgyfeirio amaethyddol. |
| 10. Paratoi ar gyfer cyfraniad Sir Benfro i'r newid yn yr hinsawdd a lleihau effaith hynny | Mae gan y CDLL1 a chanllawiau cenedlaethol bolisïau'n ymwneud â'r Amcan GC, er enghraifft, ynglŷn â chynhyrchu ynni adnewyddadwy a darparu cludiant cynaliadwy. |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer | Mae dwy Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer o fewn ffiniau'r Cynllun. Mae yna bolisïau yn CDLL1 sy'n delio ag ansawdd yr amgylchedd, gan gynnwys llygredd awyr. Datblygiad Cynaliadwy yw egwyddor tros-fwaol y Cynllun. |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd | Mae gwastraff a llygredd yn feysydd lle mae nifer fawr o gyfarwyddiadau ac arweiniad ar lefel Genedlaethol ac uwch. Caiff CDLl1 ei arwain gan Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru, TAN 21, a'i gefnogi gan bolisïau lleol SP11, GN 40, GN 41 a GN 42. |
| 13. Annog cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau | Mae adnoddau yn y cyd-destun hwn yn cynnwys amrywiaeth eang - gan gynnwys mwynau, gwastraff, compost, dŵr, ynni, tir ac yn y blaen. Mae nifer o'r rhain yn destun penodol mewn amcanion GC eraill lle ceir mwy o fanylion. Yr egwyddor allweddol i ddarparu |

| | |
|---|---|
| | CDLl1 yw Datblygiad Cynaliadwy (Polisi Strategol 1). Yn absenoldeb y cynllun, byddai Polisi a chanllawiau cenedlaethol hefyd yn cefnogi'r Amcan GC hwn yn absenoldeb y cynllun. |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol | Mae deddfwriaeth ar lefel Genedlaethol ac Ewropeaidd yn cefnogi'r Amcan GC hwn. Mae yn y CDLl1 amcanion a pholisïau i sicrhau bod dyfroedd mewndirol ac arfordirol yn cael eu cynnal a'u diogelu. |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | Mae TAN 15 yn darparu arweiniad manwl perthnasol yn ychwanegol at bolisiau CDLl1. Mae'r polisïau hyn yn amlwg yn rhwystro datblygiad a all achosi llifogydd neu wanhau ein hamddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cael arweiniad clir gan Gyfoeth Naturiol Cymru mewn cysylltiad Chynlluniau Datblygu a cheisiadau cynllunio unigol, felly ar y cyfan byddai'r amcan hwn yn digwydd dan sefyllfa 'dim cynllun, busnes yn ôl yr arfer', a sefyllfa CDLl1. |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau llygru | Mae CDLl1 yn gwneud yn glir bod tir yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon (GN 2 Dylunio Cynaliadwy), ac y byddai unrhyw ardaloedd o dir llwyd gyda llygredd yn cael eu cywiro fel rhan o'u hailddatblygiad. Bydd yr amcanion GC sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd yn cael yr un flaenoriaeth dan unrhyw fath o gynllun a / neu dan arweiniad cenedlaethol. |
| 17. Diogelu ansawdd a swmp y pridd | Cynhwysir y pridd yn CDLl1 dan GN1 o'r Polisi Datblygu Cyffredinol. Mae diffyg gwybodaeth o hyd ar y mater hwn. |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau | Mae Polisi CDLl1 GN 37 yn cefnogi Polisi Cynllunio Cymru, TAN 5 a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro wrth geisio gwarchod effeithiau andwyol datblygu. Fel nifer o'r amcanion sy'n canolbwyntio mwy ar yr amgylchedd, caiff yr amcan hwn yr un flaenoriaeth dan unrhyw fath o gynllun a / neu dan ganllaw cenedlaethol. |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Mae GN 1 y Polisi Datblygiad Cyffredinol CDLl1 yn dweud y caiff datblygiadau eu caniatáu lle nad effeithir yn andwyol ar y dirwedd. Mae'r LPA hefyd yn defnyddio'r LANDMAP wrth asesu effeithiau cynigion datblygiad ar dirwedd. Mae polisïau eraill yn y CDLl1 (GN2) hefyd yn cefnogi hyn, a chaiff effeithiau ar dirwedd eu hystyried drwy gydol amrywiaeth o bolisiau ar gyfer nifer o fathau o ddatblygiad. |
| 20. Annog dylunio o safon sydd â nodweddion lleol penodol i ychwanegu at y dreftadaeth adeiladau | Mae polisi CDLl1 ar Ddylunio Cynaliadwy (GN 2) yn cefnogi'r cysyniad o arwahanrwydd lleol a dylunio priodol. Mae Polisi Cynllunio Cymru a TAN12 Dylunio hefyd yn gymwys. |
| 21. Diogelu, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiladau a hanesyddol | Mae yn y system Gynllunio fecanweithiau megis Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig, Henebion Rhestredig ac amrywiol ddynodiadau eraill sy'n sicrhau bod yr effaith ar yr amgylchedd dreftadaeth a hanesyddol yn cael eu hystyried ym mhob cynnig datblygu, boed dan y CDLl1 neu'n unig drwy ganllawiau cenedlaethol. Mae polisiau yn CDLl1 yn cefnogi hyn; GN1, GN2, GN 38. |

## Casgliad Sefyllfa Dim Cynllun

7.4. Felly, mae'r materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd ar gyfer Sir Benfro o bob ffynhonnell wedi'u dadansoddi i asesu'r sefyllfa debygol pe na bae CDLl ar gyfer 2017-2033 (gweler Tabl 3). Mae'n anodd rhagdybio hyn gan ei fod yn ddibynnol ar amrywiaeth eang o ffactorau anhysbys. Mae'r sefyllfa'n seiliedig ar yr oblygiadau tebygol ar gyfer Sir Benfro yn absenoldeb fframwaith i arwain ar ddefnyddio a datblygu tir. Lle mae cynlluniau, rhaglenni a pholisïau eraill a all hefyd ddylanwadu ar y materion hyn, megis polisi cenedlaethol, rhoir y rhain fel enghraifft. Bydd CDLl1 yn peidio â bod yn gynllun perthnasol yn 2021, ac ar ôl hynny byddai datblygiad yn cael ei lywio gan bolisi cenedlaethol yn absenoldeb unrhyw gynllun.

# Pennod 8: Effeithiau Cyfunol a Chronnus

## Cyflwyniad

8.1. Gall cynlluniau eraill hefyd ddylanwadu ar effeithiau Strategaeth Ddewisol y Cynllun Datblygu Lleol. Y mwyaf nodedig o'r rhain yw Cynllun Gofodol Cymru (diweddarwyd 2008), a'r Cynlluniau Datblygu ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Gaerfyrddin. Bydd CDLl Sir Benfro yn cymryd i ystyriaeth y cynlluniau eraill hyn. Cafodd cynlluniau, rhaglenni a pholisïau eraill hefyd eu hadolygu ar gyfer Atodiadau yr Adroddiad Cwmpasu GC, a chaiff y dogfennau hyn eu diweddaru i gynnwys unrhyw gynlluniau newydd a gaiff eu datblygu.

8.2. Bydd effeithiau posibl a chyfuniad posibl Cynlluniau Awdurdodau cyfagos yn cael sylw drwy ystyried dyraniadau Cyngor Sir Penfro yng nghyd-destun dyraniadau Awdurdodau cyfagos. Caiff datganiadau tir cyffredin eu paratoi hefyd gydag awdurdodau cyfagos.

8.3. Cafodd natur gronnus yr effeithiau a ragwelwyd ei harchwilio lle'r oedd yn bosibl a darparwyd manylion yn y sylwebaeth. Bydd penderfyniad mwy manwl o'r effeithiau cronnus ac unrhyw ystyriaeth o gamau lleddfu yn cael ei wneud yn ystod cam nesaf y GC/AAS, lle caiff polisïau mwy penodol a safleoedd strategol eu gwerthuso.

8.4. Bydd effeithiau'n gysylltiedig â'r llinell sylfaen cynaliadwyedd mewn ardal benodol drwy asesu pob dewis yn ôl ei haeddiant a'i gysylltu â'r llinell sylfaen a'r materion neu'r cyfleoedd a fydd ar gael. Mae yna amrywiaeth o effeithiau cronnus posibl (Tabl 4), megis colli a darnio cynefinoedd oherwydd gwahanol ddatblygiadau a allai gyda'i gilydd gael mwy o effaith na'r datblygiadau hyn ar eu pen eu hunain. Mae'r tabl isod yn nodi'r effeithiau cronnus posibl. Nid yw'r rhestr yn cynnwys popeth a gall gael ei diweddaru drwy gydol y broses wrth i effeithiau eraill ddod i'r amlwg.

Tabl 4: Effeithiau cronnus posibl

| **Effaith Gronnus Bosibl** | **Derbynnydd yr Effeithir arno** | **Achosion** |
|---|---|---|
| Colli a darnio cynefinoedd | - ADdGA, AGA, ACA<br>- Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol – Ardaloedd arwyddocaol o ran cadwraeth leol<br>- Safleoedd pwysig ar gyfer cyswllt ecolegol sydd heb eu dynodi<br>- ecosystemau | Defnyddio tir ar gyfer seilwaith newydd, anheddau a dibenion cyflogaeth. |
| Newid yn yr hinsawdd | - byd-eang | Cynyddu allyriadau $CO_2$ drwy ddefnyddio mwy o gludiant moduron a mwy o allyriadau o ddatblygiadau preswyl a masnachol. |
| Mwy o sŵn o gwmpas | - pobl yn byw yn ymyl priffyrdd<br>- rhywogaethau | Cynnydd yn llif y traffig, mwy o dagfeydd, seilwaith cludiant newydd. |
| Mwy o lygredd awyr | - pobl sy’n byw ac yn gweithio mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Awyr<br>- Cynefinoedd a rhywogaethau a ddisgrifiwyd uchod | Cynnydd yn llif y traffig, mwy o dagfeydd, seilwaith cludiant newydd. |
| Darnio/colli mannau agored cyhoeddus | - Trigolion ac ymwelwyr<br>- Mannau agored cyhoeddus presennol<br>- Cynefinoedd a rhywogaethau a ddisgrifiwyd uchod | Defnyddio tir ar gyfer seilwaith newydd, anheddau a dibenion cyflogaeth. |
| Diraddio ansawdd dŵr | - Trigolion<br>- Cynefinoedd a rhywogaethau fel uchod | Defnyddio tir ar gyfer seilwaith newydd a mwy o ddŵr yn rhedeg oddi ar wynebau anhydraidd gan lygru dyfrffyrdd. |
| Colli cymeriad trefwedd leol | - Adeiladau rhestredig<br>- Ardaloedd cadwraeth | Dyluniad anghydnaws mewn datblygiadau newydd yn cael effaith negyddol ar leoliad adeiladau rhestredig. Tarfu ar gymeriad ardaloedd oherwydd mwy o draffig. |
| Perygl llifogydd cynyddol | - Trigolion<br>- Cynefinoedd a rhywogaethau fel uchod<br>- Cynefinoedd arfordirol | Defnyddio tir ar gyfer seilwaith newydd, anheddau a dibenion cyflogaeth a mwy o ddŵr yn rhedeg oddi ar wynebau anhydraidd. |
| Gwella lefelau iechyd yn gyffredinol | - Trigolion | Mwy o gerdded a beicio oherwydd gwella seilwaith. Gwella lefelau ansawdd yr awyr. |
| Gwell mynediad i wasanaethau hanfodol | - Trigolion | Gwell darpariaeth cludiant cyhoeddus, cerdded a beicio a chysylltiadau ceir i wasanaethau hanfodol. Darpariaeth newydd o gyfleusterau cymunedol. |
| Llai traffig a thagfeydd | - Trigolion ac ymwelwyr<br>- Cynefinoedd a rhywogaethau fel uchod | Amrywiol gamau a chynigion i geisio lleihau traffig ffyrdd a thagfeydd ac annog dulliau yn lle’r car. |

| | | |
|---|---|---|
| Denu buddsoddi mewnol ac amrywiaeth economaidd | - Trigolion | Amrywiol gynigion i geisio gwella delwedd yr ardal i drigolion a busnesau, a all ddenu buddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat yn yr ardal. |

## Asesiad o Effeithiau Cronnus y Polisïau

8.5. Mae effeithiau cronnus y polisïau strategol wedi eu harchwilio gan ddefnyddio tabl yn cymharu'r effeithiau cadarnhaol ac ansicr ar draws Polisïau Strategol a Chyffredinol. Tynnwyd sylw hefyd at y polisïau hynny lle nad oes dim perthynas. Caiff ansicrwydd effeithiau cronnus ei archwilio pan fydd polisïau manylach a lleoliadau penodol wedi eu nodi. Caiff polisïau eu datblygu i sicrhau na fydd effeithiau andwyol.

8.6. Drwy ddarllen ar draws y tabl, gellir crynhoi effeithiau cronnus cyffredinol posibl y polisïau ar yr Amcan GC. Mae'r Polisïau Strategol wedi'u rhoi mewn grŵp lle mae cysylltiadau clir rhwng polisïau.

8.7. Gwelir yr asesiadau cronnus yn Nhablau 5 a 6 a defnyddir yr allwedd sy'n dilyn:

✓ Gall y polisi gael effaith gadarnhaol bosibl ar yr Amcan GC.
? Mae'n ansicr pa effeithiau a gaiff y polisi ar yr Amcan GC. Bydd angen asesiad manylach.
0 Nid oes gan y polisi ddim perthynas uniongyrchol â'r Amcan GC.

## Casgliadau Asesiad Effeithiau Cyfunol a Chronnus

8.8. Gwneir asesiad o effaith gyfunol y cynllun pan gaiff polisïau manwl pellach a dyraniadau tir penodol eu datblygu. Wedyn gellir cymharu'r rhain ag awdurdodau cyfagos a hefyd â chynlluniau eraill.

8.9. Mae ansicrwydd pennaf yr effeithiau cronnus yn ymwneud â'r amcanion GC amgylcheddol (Tablau 5 a 6). Fodd bynnag, mae effeithiau cadarnhaol sylweddol ar yr amcanion cymdeithasol ac economaidd o ran tai, addysg, cyflogaeth a'r economi.

8.10. Bydd y GC yn ystyried effeithiau cronnus y dewisiadau gofodol o ran cynlluniau awdurdod cyfagos wrth i'r rheiny ddatblygu.

Tabl 5: Effeithiau cronnus y Polisïau Strategol

| | **Polisïau Strategol** | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcanion GC** | **1** | **2,3, 5,6** | 4 | **7** | **8, 9** | **10** | 11 | **12** | **13** | **14** | **15** | **16 & 19** | **17** | **18** | **Effeithiau Cronnus Posibl** |
| 1 – Poblogaeth | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ | 0 | Effeithiau cadarnhaol gan mwyaf |
| 2 – Iechyd Pobl | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | Effaith gadarnhaol bosibl ar iechyd pobl |
| 3 – Addysg | 0 | 0 | ✓ | 0 | 0 | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | 0 | ✓ | 0 | Effeithiau cronnus cadarnhaol a dim perthynas |
| 4 – Cludiant | ✓ | ✓ | ? | ? | ? | ? | ? | 0 | ✓ | ✓ | ? | ? | 0 | ✓ | Rhai effeithiau cadarnhaol, ansicrwydd gyda chludiant yng nghefn gwlad |
| 5 – Tai | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | Effeithiau cadarnhaol gan mwyaf ar dai gan gynnwys tai fforddiadwy |
| 6 – Cymunedau | ✓ | ✓ | ✓ | ? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | Effeithiau cymdeithasol cadarnhaol gan mwyaf |
| 7 – Y Gymraeg | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | 0 | Dim effaith gan mwyaf, rhai effeithiau cadarnhaol |
| 8 – Cyflogaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | Effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyflogaeth |
| 9 – Economi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Effeithiau cadarnhaol sylweddol ar yr economi |
| 10 – Newid yn yr hinsawdd | ✓ | ✓ | ? | ✓ | ? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ✓ | 0 | ✓ | Effeithiau cadarnhaol ar y newid yn yr hinsawdd, ychydig ansicrwydd, rhagor o ymchwilio wrth i'r cynllun ddatblygu |
| 11 – Ansawdd Awyr | ✓ | 0 | ? | ? | ? | ✓ | ? | ✓ | ? | ? | 0 | ✓ | 0 | ✓ | Effaith gronnus gadarnhaol ar ansawdd yr awyr, rhagor o ymchwilio wrth i'r cynllun ddatblygu. |
| 12 – Gwastraff a llygredd | ✓ | ✓ | ? | ? | ? | ✓ | ✓ | ✓ | ? | 0 | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | Effeithiau cadarnhaol posibl, ychydig ansicrwydd |
| 13 – Adnoddau | ✓ | ✓ | ? | ? | ? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | Effeithiau cadarnhaol cronnus ar gyfer adnoddau, ychydig ansicrwydd |
| 14 – Ansawdd Dŵr | ✓ | ✓ | ? | ✓ | ? | ✓ | ✓ | ✓ | ? | 0 | 0 | ✓ | 0 | 0 | Effeithiau cadarnhaol gan mwyaf, ychydig ansicrwydd |
| 15 – Llifogydd a Lefel y Môr | ✓ | ✓ | ? | ? | ? | ✓ | ✓ | ✓ | ? | 0 | 0 | ✓ | 0 | 0 | Effeithiau cronnus yn gyffredinol yn gadarnhaol |
| 16 – Defnyddio Tir a Halogi | ✓ | ✓ | ✓ | ? | ? | ✓ | ✓ | ✓ | ? | 0 | 0 | ✓ | 0 | ✓ | Effeithiau cadarnhaol gan mwyaf ar ddefnyddio tir a halogi, ychydig ansicrwydd |
| 17 – Pridd | ✓ | 0 | ? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ? | 0 | ✓ | Effaith gadarnhaol bosibl ar bridd |
| 18 – Bioamrywiaeth | ✓ | ? | ? | ✓ | ? | ✓ | ✓ | ? | ? | ? | ✓ | ? | 0 | ✓ | Angen rhagor o ymchwilio i fioamrywiaeth wrth i'r cynllun ddatblygu. |
| 19 – Tirwedd | ✓ | ? | ? | ✓ | ? | ✓ | ✓ | ? | ? | ? | ✓ | ? | 0 | ✓ | Effeithiau cadarnhaol ar dirwedd, ychydig ansicrwydd. |
| 20 – Dylunio | ✓ | ? | ? | ✓ | ✓ | ✓ | ? | ✓ | 0 | 0 | ✓ | 0 | 0 | ✓ | Effeithiau cadarnhaol ar dirwedd, ychydig ansicrwydd. |

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 – Treftadaeth Adeiladau a Hanesyddol | ✓ | ? | ? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ? | ✓ | 0 | 0 | ✓ | Ychydig ansicrwydd sy'n galw am ymchwilio pellach. Rhai effeithiau cadarnhaol. |

Tabl 6: Asesiad effeithiau cronnus y Polisïau Cyffredinol 1-5

| | **Polisïau Cyffredinol** | | | | | **Effeithiau Cronnus Posibl** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcanion GC** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | |
| 1 – Poblogaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | Dim effeithiau'n gyffredinol |
| 2 – Iechyd Pobl | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Effaith gadarnhaol bosibl gan mwyaf ar iechyd pobl |
| 3 – Addysg | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | Rhai effeithiau cadarnhaol, ond dim llawer o bolisïau'n effeithio'n uniongyrchol ar yr amcan hwn |
| 4 - Cludiant | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ? | Cadarnhaol gan mwyaf, ond ychydig ansicrwydd a bydd angen ymchwilio pellach. Yn dibynnu ar natur cynigion unigol |
| 5 – Tai | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Effeithiau cadarnhaol |
| 6 – Cymunedau | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | Rhagwelir effeithiau cymdeithasol cadarnhaol o nifer o fathau o ddatblygiad |
| 7 – Y Gymraeg | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | Dim effaith gan mwyaf. Yn dibynnu ar natur cynigion unigol |
| 8 – Cyflogaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyflogaeth |
| 9 – Economi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Effeithiau cadarnhaol sylweddol ar yr economi |
| 10 – Newid yn yr hinsawdd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ? | Effeithiau cadarnhaol posibl ar y newid yn yr hinsawdd |
| 11 – Ansawdd yr arwyr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ? | Rhai effeithiau cadarnhaol ond yr effaith gronnus yn dibynnu ar bolisïau diogelu yn lleddfu effeithiau datblygiad. |
| 12 – Gwastraff a llygredd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ? | Rhai effeithiau cadarnhaol ond yr effaith gronnus yn dibynnu ar bolisïau diogelu yn lleddfu effeithiau datblygiad |
| 13 – Adnoddau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Effeithiau cadarnhaol |
| 14 – Ansawdd Dŵr | ✓ | ✓ | ✓ | ? | ✓ | Ychydig effeithiau cadarnhaol ac ansicr yn ôl natur y datblygiad |
| 15 – Llifogydd a Lefel y Môr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Effeithiau cadarnhaol |
| 16 – Defnyddio Tir a Halogi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Effeithiau cadarnhaol |
| 17 – Pridd | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ? | Ychydig effeithiau cadarnhaol ac ansicr |
| 18 – Bioamrywiaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ? | ? | Rhai effeithiau cadarnhaol ond yr effaith gronnus yn dibynnu ar bolisïau gwarchod yn lleddfu effeithiau datblygiad. |
| 19 – Tirwedd | ✓ | ✓ | ✓ | ? | ? | Rhai effeithiau cadarnhaol ond yr effaith gronnus yn dibynnu ar bolisïau diogelu yn lleddfu effeithiau datblygiad |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 – Dylunio | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ? | Effeithiau cadarnhaol gan mwyaf |
| 21 – Treftadaeth Adeiladau a Hanesyddol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Effeithiau cadarnhaol |

# Pennod 9: Gwerthuso Rheoliadau Cynefinoedd

9.1. Mae angen Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) o effeithiau sylweddol tebygol y CDLl ar safleoedd Natura 2000 hefyd dan Erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Dynodwyd nifer o safleoedd Natura 2000 oherwydd eu cynefinoedd a'u rhywogaethau a bydd angen eu hystyried.

9.2. Mae HRA yn cael ei wneud drwy gydol cynhyrchu'r cynllun, gydag adroddiadau ar wahân ond cyfochrog â'r broses GC hon. Yn gynnar yn yr arolwg CDLl, nid oedd yn bosibl llunio casgliad a fyddai'r cynllun yn cael effaith sylweddol debygol ar safleoedd Natura 2000 (gweler www.pembrokeshire.gov.uk/planning). Fodd bynnag, gan fod Strategaeth Ddewisol wedi cael ei datblygu nawr, bydd y Strategaeth Ddewisol yn cael ei sgrinio yn erbyn yr amcanion cadwraeth ar gyfer y safleoedd Natura 2000, a bydd ymgynghori arni gyda'r ymgyngoreion statudol. Caiff canlyniadau hyn eu hystyried hefyd wrth gynhyrchu'r CDLl.

# Pennod 10: Crynodeb a'r Camau nesaf

## Crynodeb

10.1. Defnyddiwyd y GC hwn i benderfynu cynaliadwyedd y Dewisiadau Gofodol a'r Polisïau Strategol a Chyffredinol i helpu cynhyrchu Strategaeth Ddewisol. Byddwn yn ymgynghori â'r ymgyngoreion, budd-ddeiliaid a'r cyhoedd ar y Strategaeth Ddewisol a'r Adroddiad Dechreuol.

10.2. Datblygwyd y dewis gofodol drwy ymgynghori â budd-ddeiliad a rhoi ystyriaeth i GC y Weledigaeth Ddrafft a'r Amcanion Drafft a GC y Newidiadau Strategol. Roedd y dewisiadau'n perfformio'n dda o ran cyfraniadau at gyrraedd yr Amcan GC. Byddwn yn ymchwilio i unrhyw ansicrwydd ac yn cyflwyno adroddiad yn y cam nesaf.

10.3. Dylid sylwi mai polisïau a dewisiadau strategol yw'r rhain ac felly nid oes lleoliadau wedi'u pennu'n derfynol. Cymerwyd hyn i ystyriaeth yn ystod y broses werthuso, a nodir hynny yn y tablau perthnasol yn yr adrannau priodol.

10.4. Y camau nesaf yn y broses GC yw cynhyrchu Adroddiad/Adroddiad Amgylcheddol llawn ar gyfer y Cynllun Adnau, a fydd yn rhoi ystyriaeth lawn i ganlyniadau'r ymgynghori ar y Strategaeth Ddewisol. Bydd hefyd yn cynnwys gwerthusiad llawn o unrhyw bolisïau manwl, dewisiadau gwahanol, dyrannu safleoedd a'r dewisiadau gofodol penodol. Byddwn yn ymgynghori'n helaeth hefyd ar yr adroddiadau pellach hyn.

## Monitro

10.5. Bydd monitro GC y CDLl yn digwydd ar ôl mabwysiadu, a chaiff cynllun monitro llawn ei ddatblygu yn GC y Cynllun Adnau. Mae dangosyddion wedi eu hawgrymu ar gyfer proses y cyfnod monitro yn yr Adroddiad Cwmpasu, ar sail mesur yr Amcanion GC. Fodd bynnag, dangosyddion posibl yw'r rhain sydd wedi'u dewis o'r canllaw (Tabl 7).

Tabl 7: Dangosyddion posibl ar gyfer monitro'r GC

| **Amcanion GC** | **Dangosyddion GC posibl: ffyrdd i werthuso'r llinell sylfaen, rhagfynegi a monitro** |
|---|---|
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | • % y boblogaeth sy'n 65 oed a hŷn<br>Rhagfynegiadau'r boblogaeth,<br>% pobl oed gweithio yn hawlio budd-daliadau,<br>Canran pobl mewn wardiau sydd ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig,<br>Digartrefedd,<br>% anheddau anaddas,<br>Nifer y bobl yn gwneud cais am dai fforddiadwy (h.y. rhestr aros am dai cymdeithasol,<br>Pobl yn gwneud cais am dai cymdeithasol fel eu hunig ddewis. |
| 2. Hybu iechyd a ffyniant pobl trwy ffordd iach o fyw a gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd | Marwoldeb yn ôl achos,<br>Cyfraddau marwolaeth,<br>Rhestri aros mewn ysbytai, |

| | |
|---|---|
| hamdden ac amgylchedd glân ac iach | Cyfran yr aelwydydd o fewn pellter cerdded / seiclo a gytunwyd i wasanaethau iechyd allweddol,<br>Disgwyliad byw dynion a merched,<br>Marwoldeb babanod,<br>Cyfanswm y bobl yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol (KSI) ar y ffyrdd bob blwyddyn,<br>Salwch hirdymor,<br>Hygyrchedd llecynnau glas lled-naturiol |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i wella'r sail sgiliau a gwybodaeth. | Cymwysterau yn 19 oed<br>Pobl 16 oed heb ddim cymwysterau<br>% oedolion mewn addysg oedolion |
| 4. Lleihau'r angen i deithio ac annog dulliau cynaliadwy o gludiant. | Hyd hawliau tramwy,<br>Dull teithio i'r gwaith, yn enwedig % yn teithio i'r gwaith mewn car,<br>Pellter teithio y pen y flwyddyn yn ôl math o gludiant<br>Dwysedd traffig,<br>Teuluoedd sydd â char/heb gar,<br>Siwrneiau cludiant cyhoeddus,<br>Darpariaethau parcio mewn datblygiadau newydd,<br>Nifer a hyd llwybrau beicio,<br>Nifer y bobl neu nifer y siwrneiau yn rhannu car,<br>Mapio tagfeydd,<br>Hwylustod cludiant cyhoeddus,<br>Ansawdd awyr yn gysylltiedig â thagfeydd,<br>Damweiniau digwyddiadau traffig ffyrdd (cysylltiadau Iechyd Pobl) |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol.<br><br>6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol<br><br>7. Gwarchod a gwella swyddogaeth y Gymraeg a diwylliant Cymreig. | Proffil oed y boblogaeth,<br>% y bob sy'n siarad Cymraeg,<br>% y bobl ifanc sy'n aros yn yr ardal neu'n dychwelyd yno,<br>Cymhareb fforddio prisiau tai/enillion,<br>Lefelau cyffredinol o dai newydd a ddarperir,<br>Amrywiaeth, math a chyfuniad o dai newydd,<br>Faint o dai fforddiadwy sy'n cael eu darparu,<br>Tai sy'n cael eu hail-ddefnyddio<br>Nifer y cartrefi anaddas,<br>Cartrefi wedi'u gwella er mwyn effeithlonrwydd ynni ac effeithlonrwydd thermol,<br>% o ail gartrefi a chartrefi gwyliau,<br>% trigolion yn ei chael yn hawdd cyrraedd gwasanaethau allweddol (siopau, swyddfa bost, ysgolion, meddyg/gofal cychwynnol),<br>Gallu cael gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.<br>Hwylustod gwasanaethau i bobl anabl,<br>Ystadegau troseddu,<br>Ystadegau troseddu yn ôl math o drosedd<br>Ystadegau ofn troseddau,<br>Troseddau am 1000 o'r boblogaeth |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon sydd o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Diweithdra<br>Gwerth wedi'i Ychwanegu (GVA) a GVA y pen<br>Cynnyrch Domestig Gros (GDP)<br>% pobl o oed gweithio sydd mewn gwaith |

| | |
|---|---|
| 9. Cynnal economi lleol amrywiol a chynaliadwy | Canran (i) plant a (ii) phobl o bob oed yn byw mewn teuluoedd lle nad oes neb yn gweithio<br>Amrywiaeth sectorau economaidd a gynrychiolir (% cwmnïau wedi'u cofrestru ar gyfer TAW)<br>% gweithgarwch economaidd yn ôl sector,<br>Tâl wythnosol ar gyfartaledd, lefelau cyflogau ar gyfartaledd,<br>Strwythur diwydiannol (e.e. sawl cwmni micro, bach, canolig, mawr)<br>Maint a gwario gan dwristiaid<br>Enillion/colledion siopau yng nghanol trefi<br>Nifer unedau gwag yng nghanol trefi<br>Tir ar gyfer cyflogaeth ar gael<br>Adeiladau ar gyfer cyflogaeth<br>Ardal o safleoedd cyflogaeth newydd ac unedau gyda gwasanaethau<br>Cwmpas ac ansawdd band eang<br>Gweithgarwch economaidd,<br>Incwm y pen |
| 10. Paratoi ar gyfer cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd a lleihau ei effaith. | Gollyngiadau blynyddol o nwyon tŷ gwydr<br>$CO_2$ yn ôl defnyddiwr terfynol<br>$CO_2$ yn ôl sector a gollyngiadau y pen<br>Defnyddio ynni (nwy a thrydan)<br>Defnyddio ynni yn ôl teulu<br>Effeithlonrwydd ynni yr economi<br>Cyfran a maint ynni a ddarperir o ffynonellau adnewyddadwy (lleol)<br>Ôl troed ecolegol Sir Benfro<br>Ôl troed carbon Sir Benfro<br>% datblygiadau newydd ar orlifdir<br>% datblygiadau newydd gyda SUDS<br>% neu nifer y bobl/eiddo/cymunedau yn dioddef gan lifogydd<br>Amlder digwyddiadau lifogydd (fel uchod) |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr awyr | Diwrnodau pan fydd llygredd awyr yn ganolig neu'n uwch yn AURN Arberth<br>Dwyster llygryddion awyr<br>Gollyngiadau sylffwr a nitrogen deuocsid<br>Presenoldeb Ardal Rheoli Ansawdd yr Awyr<br>Cyrraedd gwerthoedd terfynau gollyngiadau |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd<br><br>13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon | Gwastraff yn deillio yn ôl sector<br>Cyfanswm a chanran gwastraff dinesig a gwastraff dinesig yn cael ei ailgylchu, ei gompostio, ei ddefnyddio i adennill gwres, pŵer a ffynonellau ynni eraill, a thirlenwi<br>Gwastraff peryglus<br>Cyfran mwynau ac agredau a ddefnyddir o fwynau ac agredau eilaidd ac wedi'u hailgylchu<br>Cyfran gwastraff adeiladu a dymchwel i dirlenwi<br>Cyfran gwastraff adeiladu a dymchwel yn cael ei ailddefnyddio a'i ailgylchu<br>Defnyddio mwynau y pen<br>Trydan a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy<br>Gallu defnyddio cyfleusterau ailgylchu |

| | |
|---|---|
| | % eiddo'n cael casgliad wrth y palmant/nifer ar gyfartaledd yn gallu defnyddio canolfan amwynder ddinesig neu fan gadael. |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol.<br><br>15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | % afonydd, dyfroedd wyneb, dyfroedd tir sy'n cydymffurfio ag amcanion/deddfwriaeth ansawdd dŵr<br>Maethion mewn dŵr<br>Nifer digwyddiadau llygru dŵr wedi'u cadarnhau<br>Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi<br>% datblygiadau newydd ar orlifdir<br>% datblygiadau newydd gyda SUDS<br>Nifer y bobl/eiddo/cymunedau yn dioddef oherwydd llifogydd<br>Nifer eiddo ar orlifdir wedi'i ddiffinio gan TAN15<br>Amlder llifogydd<br>Tynnu dŵr yn ôl sector<br>Dŵr yn gollwng<br>Effeithlonrwydd a gwarchod dŵr – nifer metrau dŵr<br>Defnyddio dŵr y pen<br>Arwynebedd pridd yn cael ei golli oherwydd wynebau anhydraidd<br>Llifogydd oherwydd carthion<br>Llifogydd mewnol |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogi.<br><br>17. Diogelu ansawdd a swmp pridd | Arwynebedd pridd yn cael ei golli oherwydd wynebau anhydraidd<br>Newid yng ngharbon y pridd<br>Arwynebedd tir halogedig a thir halogedig wedi'i adfer<br>Arwynebedd datblygiadau tir llwyd/tir halogedig/tir wedi'i ddatblygu gynt<br>Dwysedd datblygiadau<br>Arwynebedd dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol<br>Colli tir amaethyddol |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau | Poblogaethau adar gwyllt (Pob rhywogaeth, tir ffermio, tir coediog a threfol)<br>Cyrraedd targedau lleol a chenedlaethol<br>Cyfran tir sy'n ACA, AGA, Ramsar, SoDdGA, LNR, GNG, RIG<br>% safleoedd wedi'u pennu mewn cyflwr anffafriol<br>Cyfran tir coediog a thir coediog lled-naturiol<br>Enillion bioamrywiaeth o gynigion datblygiadau newydd<br>Nifer safleoedd bioamrywiaeth a datblygiad yn effeithio arnynt<br>Nifer ymwelwyr â gwarchodfeydd natur<br>Cyfran tir dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol<br>Parciau a mannau gwyrdd wedi ennill gwobr baner werdd<br>Cynefinoedd yn cysylltu (tir coediog, afonydd, cloddiau, ac ati)<br>Nifer TPO<br>Nifer ceisiadau cynllunio gydag arolygon ecolegol/asesiadau priodol. |
| 19. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd | Nifer ceisiadau cynllunio gyda datganiad dylunio<br>Nifer safleoedd wedi'u pennu ar gyfer treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys archeoleg a chynigion cynllun yn effeithio arnynt |

| | |
|---|---|
| hanesyddol<br><br>20. Annog dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig<br><br>21. Gwarchod a gwella'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Cyflwr safleoedd wedi'u pennu ar gyfer treftadaeth ddiwylliannol<br>Nifer adeiladau rhestredig â chynigion cynllun yn effeithio'n andwyol arnynt<br>Cyflwr adeiladau rhestredig<br>Nifer adeiladau nad ydynt bellach yn rhestredig<br>Nifer / % adeiladau ar y gofrestr adeiladau mewn perygl<br>Colli neu niweidio llinellau gwelededd neu olygfeydd<br>Ardaloedd cadwraeth gydag asesiadau cymeriad wedi'u diweddaru<br>Ardaloedd cadwraeth dan ddylanwad cynigion cynllun<br>Ardaloedd tirwedd hanesyddol gydag asesiad cymeriad tirwedd<br>Arwynebedd tir wedi'i fesur o fewn Tirweddau Hanesyddol mae datblygiad newydd yn effeithio arnynt<br>Nifer parciau a gerddi hanesyddol mae cynigion datblygiad / cynllun yn effeithio'n andwyol arnynt<br>Nifer safleoedd geo-amrywiaeth mae datblygiad yn effeithio arnynt<br>Nifer Cymunedau Gweithredu Geo-amrywiaeth (LGAP)<br>Arwynebedd tir comin<br>Nifer digwyddiadau o adael sbwriel yn anghyfreithlon<br>Hyd, presenoldeb nodweddion tirwedd penodol (cloddiau, waliau carreg) wedi eu symud neu eu hadfer<br>Nifer safleoedd sgerbwd llongau mae cynigion cynllun yn effeithio arnynt<br>Nifer ardaloedd agwedd hanesyddol/ddiwylliannol eithriadol yn LANDMAP<br>Nifer ardaloedd agwedd weledol neu synhwyraidd eithriadol yn LANDMAP<br>% SAM ym mherchnogaeth y Cyngor sydd wedi cael gwaith rheoli cadarnhaol yn ystod cyfnod y CDLl<br>Nifer SAM lle mae cynigion cynllun yn effeithio'n andwyol arnynt<br>Gwelliant/gwaethygiad yng nghyflwr henebion ym mherchnogaeth y Cyngor<br>Safleoedd diwylliannol yn gyfleus i'r cyhoedd drwy gludiant cyhoeddus<br>Hectarau o dir yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn<br>Arwynebedd tir diffaith yn dychwelyd i fod yn lle agored<br>Nifer safleoedd diffaith wedi eu hadfer<br>Hyd ffyrdd gyda cholofnau goleuadau uwchben<br>Newid mewn llygredd golau<br>Nifer datblygiadau'n defnyddio goleuadau diffodd llawn<br>% tir wedi'i bennu ar gyfer tirwedd neu ardd hanesyddol. |

# Atodiadau

## ATODIAD 1: GC o Weledigaeth y CDLl

**Allwedd**

+ Effeithiau cadarnhaol posibl
- Effeithiau negyddol posibl
? Ansicr/aneglur pa effeithiau a fydd.
0 Dim perthynas â’r Amcan GC

| **Amcanion y Weledigaeth a’r GC** | **Yn 2033 mae yn Sir Benfro gymunedau medrus a chryf, lle atebir heriau newid hinsawdd a chefn gwlad yn llwyddiannus.** | | **Ceir ymdeimlad unigryw o le ar sail ei dirwedd naturiol a’i dreftadaeth ddiwylliannol, adeiledig ac ieithyddol.** | | **Darperir cartrefi i bawb ac mae economi gref yn galluogi pobl o bob oedran i fyw, gweithio a ffynnu yn y Sir.** | | **Hyrwyddir cyfleoedd cyflogaeth sy’n gysylltiedig â busnesau newydd, twristiaeth, arallgyfeirio gwledig, y diwydiant ynni glas a gwyrdd a sectorau newydd sy’n gysylltiedig â’r cyfleoedd strategol a roir gan Ddyfrffordd y Ddau Gleddau a’r cysylltiadau ag Iwerddon.** | | **Mae Canol Trefi yn lleoedd bywiog a ddefnyddir mewn ffyrdd amrywiol.** | | **Cefnogir datblygiad gan seilwaith allweddol.** | | **Ledled y Sir cryfheir seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth ag amgylcheddau hygyrch ac iach a gyflenwir i bobl ac i fywyd gwyllt.** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys.** | + | Gall datblygu cymunedau medrus lle atebir heriau cefn gwlad yn llwyddiannus gynorthwyo i | 0 | Mae datblygu ymdeimlad unigryw o le yn annhebygol o effeithio’n sylweddol ar | + | Dylai darparu cartrefi priodol i bob rhan o’r gymuned ac annog economi gref gyda’i nod | + | Dylai darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth gefnogi’r amcan GC hwn yn | 0 | Mae sicrhau bod Canol Trefi’n fywiog yn annhebygol o effeithio ar strwythur poblogaeth. | 0 | Dim effaith sylweddol ar gynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | 0 | Gallai sicrhau bod amgylcheddau’n hygyrch ac iach i bobl wella iechyd cyffredinol ac |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ddatblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | | strwythur poblogaeth. | | penodol o roi cyfleoedd i bob oedran fyw, gweithio a ffynnu yn y Sir gefnogi'r amcan GC hwn yn gadarnhaol. | | gadarnhaol. | | | | | | mae felly'n gyswllt posibl â'r boblogaeth gyffredinol, er nad uniongyrchol â'i strwythur. |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Bydd ecosystemau iach a chyflwyno SDCau yn helpu i leihau dŵr ffo i ardaloedd dyfrol ac yn helpu i gynnal ansawdd dŵr. | ✓ | ✓ |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC ond gallai fod yn gydnaws, oherwydd gallai tir sy'n dueddol o orlifo gael ei wella'n amgylcheddol yn briodol. | 0 | ✓ |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. Bydd polisïau manwl yn ymdrin â dwyseddau tai a thir wedi'i halogi. | 0 | 0 |
| 17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd. | Ansawdd pridd yw un o gydrannau canolog ecosystemau iach, a bydd y polisi hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar yr amcan hwn. | ✓ | ✓ |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau | Bydd y polisi hwn yn sicrhau bod yr amcan hwn yn cael ei fodloni. | ✓ | ✓ |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Bydd y polisi hwn, ynghyd â pholisïau manwl ar effaith ar dirwedd, yn helpu i sicrhau bod yr amcan hwn yn cael ei fodloni. | ✓ | ✓ |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Trwy gynnwys gwelliannau amgylcheddol wrth ddylunio datblygiad adeiledig, helpir i wella ansawdd datblygiad adeiledig, ac mae'n gydnaws â'r amcan hwn. | ✓ | ✓ |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Mae'r polisi hwn yn gydnaws â'r amcan hwn. | 0 | ✓ |
| **Crynodeb** | | | |

| |
|---|
| Bydd gan y polisi strategol hwn berthynas uniongyrchol â nifer o amcanion GC. Bydd y potensial i gynnal a gwella'r amgylchedd (gan gynnwys rhywogaethau, cynefinoedd, tirweddau a'r systemau sy'n sail iddynt) a'i warchod rhag datblygiad sy'n sylweddol o niweidiol, yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar amcanion amgylcheddol, tirwedd, newid hinsawdd, lles a hynodrwydd yr amgylchedd adeiledig. |

**Polisi Strategol SP 12 – Datblygiad yn gysylltiedig â Phorthladdoedd ac Ynni**

Mae'r polisi hwn yn cefnogi cynigion datblygu ar gyfer cyfleusterau a seilwaith priodol diwydiannol a chysylltiedig â phorthladd, gan gynnwys cynigion ynni sy'n uniongyrchol berthnasol i leoliadau porthladd, ac yn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau lle gallant arddangos eu bod yn parchu ac yn gwarchod y dirwedd, a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.

| Amcan GC | Sylwadau / eglurhad | A ydy'r polisi hwn yn cyfrannu at fodloni'r Amcan GC? | A ydy'r polisi hwn yn gydnaws â'r Amcan GC? |
|---|---|---|---|
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | Byddai cefnogaeth i gynigion priodol cysylltiedig ag ynni a phorthladdoedd yn hwyluso datblygiadau sydd yna'n darparu swyddi i bobl leol a phobl fedrus. | ✓ | ✓ |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw'n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân. | Bydd datblygiadau ynni adnewyddadwy'n cyfrannu at amgylchedd glanach. Fodd bynnag, byddai'r polisi hwn hefyd yn cefnogi datblygiadau porthladd ac ynni y tu allan i'r sector ynni adnewyddadwy. | ? | ? |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi'r sail sgiliau a gwybodaeth. | Byddai datblygiadau cysylltiedig â phorthladdoedd ac ynni yn cefnogi cyfleoedd cyflogaeth ac addysg, a fydd yn atgyfnerthu sgiliau'r llafurlu lleol. | ✓ | ✓ |
| 4. Lleihau'r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant. | Mae'r lleoliadau allweddol y mae cynigion cysylltiedig â phorthladdoedd ac ynni'n cael eu cyfeirio atynt, gan amlaf, yn hygyrch ac yn berthnasol i ganolfannau poblogaeth mawr, y gellir eu cyrraedd drwy amrywiol foddau teithio. | ✓ | ✓ |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol | Byddai datblygiadau cysylltiedig ag ynni a phorthladdoedd yn darparu swyddi, sy'n helpu i gynnal a chefnogi cymunedau lleol. Fodd bynnag, nid oes cyswllt uniongyrchol â mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol. | ✓ | ✓ |
| 7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Byddai datblygiadau cysylltiedig ag ynni a phorthladdoedd yn darparu swyddi o safon i bawb. | ✓ | ✓ |
| 9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Byddai datblygiadau cysylltiedig ag ynni a phorthladdoedd yn helpu i gynnal yr economi leol a chefnogi darparu cyfleoedd economaidd amrywiol. | ✓ | ✓ |
| 10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd. | Bydd datblygiadau ynni adnewyddadwy (daearol a morol) yn gwneud cyfraniad pwysig at ymateb Sir Benfro i newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, byddai'r polisi hwn hefyd yn cefnogi datblygiadau porthladd ac ynni y tu allan i'r sector ynni adnewyddadwy. | ? | ? |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer. | Bydd datblygiadau ynni adnewyddadwy yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynnal a gwella ansawdd yr aer, drwy leihau'r angen i losgi tanwydd ffosil sy'n cynhyrchu $CO_2$. Fodd bynnag, byddai'r polisi hwn hefyd yn cefnogi datblygiadau porthladd ac ynni y tu allan i'r sector adnewyddadwy, a fydd efallai'n groes i'r amcan hwn. | ? | ? |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. | ? | ? |
| 13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. | ? | ? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. | ? | ? |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | Bydd datblygiadau ynni adnewyddadwy yn helpu i leihau'r angen i ddefnyddio tanwyddau ffosil sy'n cynhyrchu $CO_2$. Yn y pen draw, gallai hynny leihau amlder (ond nid effaith) llifogydd a lefel y môr yn codi. Fodd bynnag, byddai'r polisi hwn hefyd yn cefnogi datblygiadau porthladd ac ynni y tu allan i'r sector ynni adnewyddadwy, a fydd yn cael llai o effaith efallai. | ? | ? |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. | ? | ? |
| 17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. | Gallai datblygiadau ynni adnewyddadwy helpu i fodloni amcanion bioamrywiaeth a gwytnwch ecolegol, drwy leihau'r angen i losgi tanwyddau ffosil. Fodd bynnag, gallai'r polisi hwn hefyd gefnogi datblygiadau y tu allan i'r sector ynni adnewyddadwy. Yn yr achosion hyn, efallai na fydd buddion felly'n cronni. | ? | ? |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. Mae cynlluniau datblygu wedi'u dylunio'n dda yn gallu lliniaru effeithiau ar y dirwedd. Fodd bynnag, goddrychol yw dyfarnu a fydd tirwedd a threftadaeth ddaearegol yn cael eu gwella mewn achosion felly. | ? | ? |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. Mae cynlluniau datblygu wedi'u dylunio'n dda yn gallu ategu treftadaeth | ? | ? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | adeiledig. | | |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. Bydd cynlluniau wedi'u dylunio'n dda yn ceisio lleihau effeithiau ar dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol. | ? | ? |

**Crynodeb**

Mae'n bosibl y bydd y polisi hwn yn cefnogi rhai o'r amcanion cynaliadwyedd, yn enwedig y rheini mewn perthynas â materion cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion eraill, mae'r effeithiau'n ansicr a byddant yn dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. Os yw'r rhain yn y sector ynni adnewyddadwy, mae'n amlwg bod posibilrwydd i fuddion amgylcheddol gronni, ond bydd y polisi hefyd yn cefnogi mathau eraill o ddatblygiad porthladd ac ynni, lle gall fod llai o fuddion amgylcheddol (os o gwbl). Yng Nghymru, mae sbardun polisi clir tuag at ynni adnewyddadwy, am fod hyn yn cefnogi'r newid tuag at ddyfodol di-garbon. Fodd bynnag, uchelgais tymor hir yw hwn ac, er mwyn bodloni anghenion economaidd ac ynni, efallai hefyd y bydd gofyn rhai mathau trosiannol o ddatblygiad na fyddant o reidrwydd yn dwyn buddion amgylcheddol mawr, ond a fydd yn cefnogi anghenion cyflogaeth, cymdeithasol ac ynni.

**Polisi Strategol SP 13 – Darparu Tir Cyflogaeth**

Mae'r polisi hwn yn nodi tir ar gyfer datblygu cynigion cyflogaeth strategol a lleol.

| Amcan GC | Sylwadau / eglurhad | A ydy'r polisi hwn yn cyfrannu at fodloni'r Amcan GC? | A ydy'r polisi hwn yn gydnaws â'r Amcan GC? |
|---|---|---|---|
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | Byddai darparu tir i gefnogi cynigion cyflogaeth priodol yn hwyluso datblygiadau sydd yna'n darparu swyddi i bobl leol a phobl fedrus. | ✓ | ✓ |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw'n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. | ? | ? |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi'r sail sgiliau a gwybodaeth. | Byddai darparu tir i gefnogi cynigion cyflogaeth priodol yn cefnogi cyfleoedd cyflogaeth ac addysg, a fydd yn atgyfnerthu sgiliau'r llafurlu lleol. | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. Lleihau'r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant. | Mae'r lleoliadau allweddol y mae twf cyflogaeth yn cael ei gyfeirio atynt, gan amlaf, yn hygyrch ac yn berthnasol i ganolfannau poblogaeth mawr, y gellir eu cyrraedd drwy amrywiol foddau teithio. | ✓ | ✓ |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol | Byddai datblygiadau cyflogaeth yn darparu swyddi, a fydd yn helpu i gynnal a chefnogi cymunedau lleol. Nid oes cyswllt uniongyrchol â gwasanaethau a chyfleusterau allweddol, ond gallai buddion anuniongyrchol godi. | ✓ | ✓ |
| 7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Bydd y polisi hwn yn hwyluso cyfleoedd cyflogaeth o safon i bawb ar amrywiaeth o safleoedd. | ✓ | ✓ |
| 9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Bydd y polisi hwn yn helpu i gefnogi economi leol amrywiol a chynaliadwy drwy hwyluso datblygiad economaidd ar amrywiaeth o safleoedd. | ✓ | ✓ |
| 10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. | ? | ? |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. | ? | ? |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. | ? | ? |
| 13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union | ? | ? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| effeithlon | natur y datblygiadau a gyflwynir. | | |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. | ? | ? |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. | ? | ? |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. | ? | ? |
| 17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r amcan GC. | 0 | 0 |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. | ? | ? |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. Mae cynlluniau datblygu wedi'u dylunio'n dda yn gallu lliniaru effeithiau tirwedd. Fodd bynnag, goddrychol yw dyfarnu a yw'r dirwedd a'r dreftadaeth ddaearegol yn cael eu gwella. | ? | ? |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. Mae cynlluniau datblygu wedi'u dylunio'n dda yn gallu ategu treftadaeth adeiledig. | ? | ? |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Nid yw'n glir a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcan hwn neu'n gydnaws ag ef. Mae'n dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. Bydd cynlluniau wedi'u dylunio'n dda yn ceisio lleihau effeithiau ar dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol. | ? | ? |
| **Crynodeb** | | | |

| |
|---|
| Mae potensial i'r polisi hwn gefnogi rhai o'r amcanion cynaliadwyedd, yn enwedig y rheini sy'n berthnasol i faterion cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion eraill, mae'r effeithiau'n ansicr a byddant yn dibynnu ar union natur y datblygiadau a gyflwynir. Mewn rhai sectorau, fel ynni adnewyddadwy, mae potensial i fuddion amgylcheddol gronni, ond nid yw'r polisi wedi'i gyfeirio'n benodol at y sector hwnnw. Mae'r lleoliadau allweddol ar gyfer twf y dyfodol, gan amlaf, yn hygyrch ac wedi'u cysylltu'n dda ag aneddiadau presennol, gyda chyd-leoliad yn cynnig y potensial i deithio a byw'n gynaliadwy. |

**Polisi Strategol SP 14 – Hierarchaeth Adwerthu**
Mae'r polisi hwn yn sefydlu hierarchaeth adwerthu canolfannau adwerthu lleol a thref yn ardaloedd y cynllun.

| Amcan GC | Sylwadau / eglurhad | A ydy'r polisi hwn yn cyfrannu at fodloni'r Amcan GC? | A ydy'r polisi hwn yn gydnaws â'r Amcan GC? |
|---|---|---|---|
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | Bydd y polisi hwn yn helpu i gynnal canolfannau adwerthu a masnachol hanfodol a dichonadwy yn ardal y cynllun, ond nid yw'n glir a fydd hyn yn cyfrannu at gynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | ? | ? |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw'n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân. | Bydd cyfeirio defnyddiau adwerthu a masnachol at ganolfannau adwerthu yn gwella mynediad iddynt i lawer o'r boblogaeth, ac mae'n gydnaws â'r amcan hwn. | ✓ | ✓ |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi'r sail sgiliau a gwybodaeth. | Mae polisi cenedlaethol yn nodi bod canolfannau adwerthu a masnachol yn lleoedd addas i addysg, ac i sefydliadau addysg gyfrannu at yr amrywiaeth o ddefnyddiau mewn canolfannau. Mae'r polisi hwn yn gydnaws â pholisi cenedlaethol. | 0 | ✓ |
| 4. Lleihau'r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant. | Mae'r hierarchaeth adwerthu, ynghyd â pholisïau eraill y CDLl a rhai cenedlaethol, yn annog amrywiaeth o ddefnyddiau mewn canolfannau yr ystyrir eu bod yn fannau cynaliadwy. | ✓ | ✓ |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion | Nid oes gan y polisi hwn berthynas uniongyrchol â'r amcan hwn, ond mae'n gydnaws. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| lleol. | | 0 | ✓ |
| 6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | ✓ |
| 7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. Fodd bynnag, mae potensial i gymunedau Cymraeg eu hiaith gymdeithasu a sgwrsio yn Gymraeg mewn canolfannau adwerthu bywiog lleol ac felly mae'r polisi hwn yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Byddai'r polisi hwn yn galluogi cyfleoedd cyflogaeth mewn canolfannau masnachol a thref sy'n hygyrch iawn. | ✓ | ✓ |
| 9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Bydd y polisi hwn yn cefnogi'n uniongyrchol economi leol gynaliadwy ac amrywiol. | ✓ | ✓ |
| 10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd. | Mae crynodi amrywiaeth o ddefnyddiau lle gall pobl wneud un daith i gael at amrywiaeth o wasanaethau drwy gludiant cyhoeddus yn debygol o helpu i leihau effaith newid yn yr hinsawdd. | ✓ | ✓ |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer. | Bydd lleoli datblygiad mewn mannau hygyrch iawn lle gall pobl gerdded a defnyddio cludiant cyhoeddus yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr aer. | ✓ | ✓ |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | ? |
| 13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | 0 |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | 0 |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. Fodd bynnag, | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| codi | mae canllawiau cynllunio cenedlaethol yn atal tai mewn ardaloedd risg llifogydd felly dylid lleihau effaith llifogydd, ac ni ddylid lleoli datblygiad bregus mewn ardaloedd sydd mewn perygl llifogydd. | 0 | ✓ |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd. | Mae'r hierarchaeth adwerthu'n cynnwys canolfannau presennol sy'n dir llwyd ac mae ailddefnyddio'r tir hwn yn fodd effeithlon o ddefnyddio tir. | ✓ | ✓ |
| 17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn, ond gallai fod yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn, ond gallai fod yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Nid oes perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | ✓ |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Bydd y polisi hwn yn sicrhau bod datblygiad yn gydnaws â Strategaethau Adfywio'r Prif Drefi ac mae'n cefnogi'r amcan hwn yn uniongyrchol. | ✓ | ✓ |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Dylai'r polisi hwn, ynghyd â pholisïau ar ddylunio, sicrhau bod yr amcan yn cael ei fodloni. | ✓ | ✓ |

**Crynodeb**

Mae'r polisi hwn yn nodi hierarchaeth adwerthu canolfannau lleol a thref yn y cynllun. Mae'r rhain yn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch iawn i amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau, a fydd yn cefnogi amcanion cynaliadwyedd y cynllun yn gryf, ac sydd â'r potensial i gefnogi'r iaith Gymraeg a lles diwylliannol y cymunedau yn ardal y cynllun. Mae gan bolisïau eraill y CDLl a pholisi cynllunio cenedlaethol berthynas uniongyrchol ag amcanion mewn perthynas â phridd, gwastraff, ailddefnyddio deunyddiau a llifogydd ac ati, a gallant fynd i'r afael â hwy.

**Polisi Strategol SP 15 – Economi Ymwelwyr**

Mae'r polisi hwn yn cefnogi datblygiad yr economi ymwelwyr mewn lleoliadau cynaliadwy a phriodol.

| Amcan GC | Sylwadau / eglurhad | A ydy'r polisi hwn yn cyfrannu at fodloni'r Amcan GC? | A ydy'r polisi hwn yn gydnaws â'r Amcan GC? |
|---|---|---|---|
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn, ond gallai fod yn gydnaws am fod economi ymwelwyr lwyddiannus yn gallu helpu i gynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | 0 | ✓ |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw'n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân. | Gall datblygiad priodol helpu i hyrwyddo cael at gyfleoedd hamdden a hefyd at amgylchedd glân ac iach. | ✓ | ✓ |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi'r sail sgiliau a gwybodaeth. | Gall datblygiad priodol helpu i wella addysg a dealltwriaeth o'r amgylchedd lleol. | ✓ | ✓ |
| 4. Lleihau'r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant. | Gall datblygiad priodol helpu i leihau'r angen i deithio a/neu annog moddau teithio eraill cynaliadwy yn lle'r car. | ✓ | ✓ |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | ✓ |
| 6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn, ond gallai fod yn gydnaws am fod economi ymwelwyr lwyddiannus yn gallu helpu i gynnal cymuned ddiogel a bywiog. | 0 | ✓ |
| 7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | Gall datblygiad priodol helpu i warchod a gwella'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | ✓ | ✓ |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Gall datblygiad priodol helpu i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon. | ✓ | ✓ |
| 9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Gall datblygiad priodol helpu i warchod a gwella'r economi leol. | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn, ond gallai fod yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn, ond gallai fod yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn, ond gallai fod yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon | Gall datblygiad priodol helpu o ran cynhyrchu, defnyddio ac ailddefnyddio adnoddau'n effeithlon. | ✓ | ✓ |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Mae datblygiad priodol yn helpu i gynnal a gwarchod ansawdd dŵr. | ✓ | ✓ |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn, ond gallai fod yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd. | Gall datblygiad priodol helpu i ddefnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad. | ✓ | ✓ |
| 17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn, ond gallai fod yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau | Gall datblygiad priodol helpu i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau. | ✓ | ✓ |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Gall datblygiad priodol warchod a gwella'r dirwedd. Ansicr a ydy'r polisi'n gydnaws â gwarchod a gwella treftadaeth ddaearegol. | ✓ | ✓ |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Gall datblygiad priodol ategu'r amcan hwn. | ✓ | ✓ |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r | Gall datblygiad priodol ategu'r amcan hwn. | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| amgylchedd hanesyddol | | | |

**Crynodeb**

Gall cefnogaeth i'r economi ymwelwyr a lleoli datblygiad priodol mewn lleoliadau cynaliadwy ategu Amcanion GC y cynllun, o'u gweithredu ochr yn ochr â pholisïau eraill y cynllun. Mae'r polisi'n gofyn bod pob datblygiad yn cael ei leoli'n gynaliadwy, gan barchu a gwarchod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig a dwyn budd i gymunedau lleol. Gellid dod i'r casgliad felly fod y polisi'n ddigonol i atal effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol negyddol.

**Polisi Strategol SP 16 – Mwynau**
Mae'r polisi hwn yn sail i sicrhau cyflenwad o fwynau yn y dyfodol yn ardal y Cynllun.

| Amcan GC | Sylwadau / eglurhad | A ydy'r polisi hwn yn cyfrannu at fodloni'r Amcan GC? | A ydy'r polisi hwn yn gydnaws â'r Amcan GC? |
|---|---|---|---|
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw'n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi'r sail sgiliau a gwybodaeth. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 4. Lleihau'r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. | Heb gyflenwad digonol o fwynau, ni fyddai'n bosibl darparu tai anghenion cyffredinol na thai fforddiadwy. Drwy gefnogi datblygiadau mwynau priodol, bydd y polisi hwn yn helpu i sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu darparu i fodloni anghenion adeiladu tai yn y Sir a'r tu hwnt. | ✓ | ✓ |
| 6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad i | Mae darparu mwynau'n galluogi anghenion tai cyfredol i gael eu bodloni drwy adeiladu tai. Yn y modd hwn, bydd datblygiadau mwynau'n cyfrannu | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| wasanaethau a chyfleusterau allweddol | at ddarparu a pharhau cymunedau diogel, bywiog a chydlynol. Ceir felly gysylltiadau anuniongyrchol â chynnal a chadw a gwella gwasanaethau a chyfleusterau sy'n cefnogi cymunedau lleol, ac a gefnogir gan gymunedau lleol. | | |
| 7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Mae angen darparu mwynau er mwyn darparu safleoedd ac adeiladau cyflogaeth newydd priodol. | ✓ | ✓ |
| 9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Mae angen darparu mwynau er mwyn darparu safleoedd ac adeiladau cyflogaeth newydd priodol. | ✓ | ✓ |
| 10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC, ond bydd angen i ddatblygiad sicrhau nad yw effeithiau'n cyfrannu tuag at newid yn yr hinsawdd. | 0 | 0 |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC, ond byddai angen i'r datblygiad sicrhau nad oes effeithiau ar ansawdd yr aer lleol. | 0 | 0 |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC.<br><br>Bydd y polisi'n cefnogi'r amcan drwy foddau fel cefnogi ailddefnyddio ac ailgylchu mwynau. | 0 | 0 |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC.  Fodd bynnag, byddai angen i ddatblygiadau sicrhau nad oes effaith andwyol ar ansawdd dŵr. | 0 | 0 |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| bo modd. | | | |
| 17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd. | Bydd chwarela mwynau'n arwain at golli priddoedd. Mae caniatâd mwynau bron bob amser yn gwneud darpariaeth ar gyfer adfer ac ôl-ddefnydd priodol. Fodd bynnag, ni all y gwaith chwarela, yn ôl ei natur, ddiogelu ansawdd na swmp pridd. Mae potensial i storio pridd ar gyfer ei ailddefnyddio yn y pen draw yn y cyfnod adfer, ond gallai ddiraddio wrth ei storio dros dro. | x | x |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. | Yn ôl ei union natur, bydd chwarela mwynau'n cael effaith andwyol ar fioamrywiaeth ac ar wytnwch ecosystemau. Fodd bynnag, gallai adfer ac ôl-ddefnyddio ar ôl i'r chwarela ddod i ben ddwyn buddion i fioamrywiaeth ac ecosystemau. Mae llawer o enghreifftiau o chwareli wedi'u hadfer â gwerth bioamrywiaeth uchel. | x | x |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Yn ôl ei union natur, bydd chwarela mwynau'n cael effaith andwyol ar dirwedd ac ar dreftadaeth ddaearegol. Fodd bynnag, gallai adfer ac ôl-ddefnyddio ar ôl i'r chwarela ddod i ben gynhyrchu tirweddau gwerthfawr yn y pen draw. Gall chwarela ddinoethi'r dilyniant daearegol mewn modd sy'n werthfawr fel cyfle dysgu ac addysgu. | x | x |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. Fodd bynnag gallai'r polisi gefnogi'r amcan GC drwy hyrwyddo defnyddio deunyddiau a echdynnir yn lleol ar gyfer adeiladu, a fyddai'n cadw'n driw i'r dreftadaeth adeiledig. | 0 | 0 |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. Gallai deunyddiau a geir yn lleol gefnogi'r Amcan GC hwn. | 0 | 0 |

**Crynodeb**

Mae angen mwynau ar gymdeithas i hwyluso adeiladu cartrefi newydd yn benodol a datblygiad newydd yn gyffredinol. Felly, bydd y polisi hwn, sy'n cefnogi darparu mwynau i fodloni anghenion y Sir, yn dwyn buddion economaidd a chymdeithasol amrywiol. Fodd bynnag, mae gwrthdaro anochel ac efallai sylweddol ag amrywiol amcanion amgylcheddol y GC, ond gallai buddion bioamrywiaeth ac addysgol godi yn y cyfnod adfer ac ôl-ddefnyddio

| |
|---|
| (ar ôl i'r chwarela ddod i ben). Mae hefyd llawer o achosion lle nad oes gan y polisi hwn berthynas uniongyrchol o gwbl ag Amcanion GC. |

**Polisi Strategol SP 17 – yr Iaith Gymraeg**

Mae'r polisi hwn yn canfod ardaloedd o sensitifrwydd o ran y Gymraeg a ffyrdd y bydd anghenion y gymuned Gymraeg yn cael eu hystyried.

| Amcan GC | Sylwadau / eglurhad | A ydy'r polisi hwn yn cyfrannu at fodloni'r Amcan GC? | A ydy'r polisi hwn yn gydnaws â'r Amcan GC? |
|---|---|---|---|
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | Mae'n aneglur a fydd y polisi hwn yn cyfrannu at gynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | ? | ? |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw'n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân. | Bydd y polisi hwn yn cael effaith uniongyrchol ar les cymunedau Cymraeg eu hiaith drwy gyfleoedd diwylliannol ac ieithyddol. | ✓ | ✓ |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi'r sail sgiliau a gwybodaeth. | Nid oes gan y polisi hwn berthynas uniongyrchol â'r amcan hwn ond ystyrir ei fod yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 4. Lleihau'r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant. | Nid oes gan y polisi hwn berthynas uniongyrchol â'r amcan hwn ond mae'n gydnaws. | 0 | ✓ |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. | Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod effeithiau iaith Gymraeg lle bo'u gofyn yn lliniaru unrhyw effaith ar gymuned Cymraeg ei hiaith y datblygiad newydd ac ystyrir ei fod yn gydnaws â'r amcan hwn. | 0 | ✓ |
| 6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol | Bydd y polisi hwn yn cefnogi cymunedau bywiog a chydlynol Cymraeg eu hiaith. Yn yr achos hwn, efallai bydd cael at wasanaethau'n llai pwysig nag ystyriaethau iaith Gymraeg. | 0 | ✓ |
| 7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | Mae perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. Mae'n ceisio sicrhau bod cymunedau Cymraeg eu | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hiaith yn cael cyfleoedd i siarad iaith eu dewis. | | |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | 0 |
| 9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | 0 |
| 10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | 0 |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | 0 |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | ? |
| 13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | 0 |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | 0 |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. Fodd bynnag, mae canllawiau cynllunio cenedlaethol yn atal tai mewn ardaloedd risg llifogydd felly dylid lleihau effaith llifogydd ac ni ddylid lleoli datblygiad bregus mewn ardaloedd sydd mewn perygl llifogydd. | 0 | ✓ |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd. | Mae'n bosibl y bydd datblygiad mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith yn golygu datblygu tir glas, ond nid yw hyn yn bendant. | ? | ? |
| 17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn, ond gallai fod yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn, ond gallai fod yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau | gydnaws. | 0 | ✓ |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Nid oes perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. | 0 | ✓ |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Nid oes perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn ond mae'n gydnaws. | 0 | ✓ |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Dylai'r polisi hwn, ynghyd â pholisïau ar ddylunio, sicrhau bod yr amcan yn cael ei fodloni. | ✓ | ✓ |
| **Crynodeb**<br><br>Bydd y polisi hwn yn cefnogi defnyddio'r iaith Gymraeg a lles diwylliannol cymunedau Cymraeg eu hiaith yn ardal y cynllun. Mae gan bolisïau eraill y CDLl a pholisi cynllunio cenedlaethol berthynas uniongyrchol ag amcanion mewn perthynas â phridd, gwastraff, ailddefnyddio deunyddiau a llifogydd ac ati, a gallant fynd i'r afael â hwy. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Polisi Strategol SP 18 – Seilwaith Cludiant a Mynediad**<br>Mae'r polisi hwn yn cefnogi gwelliannau i'r seilwaith cludiant presennol a fydd yn cynyddu mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau, yn enwedig lle mae hyn drwy foddau cynaliadwy. | | | |
| Amcan GC | Sylwadau / eglurhad | A ydy'r polisi hwn yn cyfrannu at fodloni'r Amcan GC? | A ydy'r polisi hwn yn gydnaws â'r Amcan GC? |
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw'n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân. | Gall cynlluniau sy'n gwella mynediad drwy fathau cynaliadwy o deithio (cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus) gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles pobl drwy roi cyfleoedd i fyw'n iach. Mae cerdded a beicio hefyd yn dechnolegau teithio di-garbon ac | ? | ? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | felly maent yn dwyn buddion amgylcheddol. Fodd bynnag, mae'r polisi hefyd yn hwyluso gwelliannau i foddau teithio a ddefnyddir gan gerbydau sy'n defnyddio tanwydd carbon, ac ni fydd y rheini'n dwyn y buddion hynny. | | |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi'r sail sgiliau a gwybodaeth. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 4. Lleihau'r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant. | Ni fydd y polisi hwn, ynddo'i hun, yn lleihau'r angen i deithio. Fodd bynnag, mae rhai agweddau arno'n annog mathau cynaliadwy o deithio – yn benodol, cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus. Bydd agweddau eraill o fudd i fathau llai cynaliadwy o deithio. Mae'n anodd bod yn siŵr felly a yw'r polisi'n cyfrannu'n gadarnhaol neu'n negyddol at yr Amcan GC – mae'n siŵr y bydd elfennau o'r ddau. | ? | ? |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol | Bydd y polisi hwn yn gwella mynediad i wasanaethau a chyfleusterau lleol, er budd y cymunedau lleol. | ✓ | ✓ |
| 7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Bydd y polisi hwn yn hwyluso gwelliannau i seilwaith a hygyrchedd cludiant, a fydd felly'n cefnogi economi gynaliadwy ac amrywiol, yn enwedig os yw'r gwelliannau cludiant yn berthnasol i fathau cynaliadwy o deithio. | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd. | Lle mae'r gwelliannau i hygyrchedd a'r seilwaith cludiant sy'n deillio o'r polisi hwn yn berthnasol i fathau cynaliadwy o deithio, bodlonir gofynion yr Amcan GC hwn. Fodd bynnag, ni fydd pob gwelliant felly er budd moddau teithio cynaliadwy yn unig. | ? | ? |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer. | Lle mae'r gwelliannau i hygyrchedd a'r seilwaith cludiant yn berthnasol i gerdded a beicio, a siwrneiau drwy'r moddau teithio hyn yn disodli rhai a wnaed yn flaenorol mewn cerbydau'n llosgi tanwyddau ffosil, bodlonir yr amcan GC hwn. Fodd bynnag, bydd rhai o'r gwelliannau hygyrchedd a seilwaith er budd teithio mewn cerbydau sy'n llosgi tanwyddau ffosil ac ni fydd hynny'n helpu i gynnal na gwella ansawdd yr aer. | ? | ? |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd. | Lle mae'r gwelliannau i hygyrchedd a'r seilwaith cludiant yn berthnasol i gerdded a beicio, a siwrneiau drwy'r moddau teithio hyn yn disodli rhai a wnaed yn flaenorol mewn cerbydau'n llosgi tanwyddau ffosil, bodlonir yr amcan GC hwn – oherwydd bydd llai o lygredd. Fodd bynnag, bydd rhai o'r gwelliannau hygyrchedd a seilwaith er budd teithio mewn cerbydau sy'n llosgi tanwyddau ffosil ac ni fydd hynny'n lleihau llygredd. | ? | ? |
| 13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 17. Gwarchod ansawdd | Mae gwelliannau i'r seilwaith cludiant | x | x |

| | | | |
|---|---|---|---|
| a swmp pridd. | yn debygol o arwain at golli priddoedd, oni bai bod y gwaith yn gyfan gwbl o fewn ffiniau priffyrdd presennol. Fodd bynnag, gellir stripio a storio priddoedd yn ystod y gwaith ac yna'u hailddefnyddio yn gydran o gynlluniau gorffenedig, er bod lleihau ansawdd yn debygol mewn gwaith felly. | | |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. | Gallai gwelliannau seilwaith cludiant mewn perthynas â cherdded a beicio ddwyn buddion bioamrywiaeth na fyddent yn codi mewn perthynas â moddau teithio eraill. Gallai llwybrau llinellol hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau beicio (ac weithiau priffyrdd a rheilffyrdd hefyd) hefyd ddarparu aliniadau llinellol a llystyfiant y naill ochr iddynt sy'n gallu darparu coridorau bywyd gwyllt. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y bydd cynlluniau seilwaith cludiant yn dwyn buddion felly bob tro ac, mewn llawer o achosion, ni fydd eu hadeiladu'n dwyn buddion bioamrywiaeth nac ecosystem. | ? | ? |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Yn aml bydd gwelliannau i'r seilwaith cludiant yn effeithio'n andwyol ar y dirwedd a gallant hefyd effeithio ar dreftadaeth ddaearegol. Bydd maint yr effeithiau'n amrywio o'r naill gynllun i'r llall, a bydd ansawdd dyluniad cynlluniau'n effeithio arnynt hefyd o ran gweddu i'r tirweddau presennol. | x | x |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Ni fydd y polisi, ynddo'i hun, yn annog dylunio unigryw lleol i ategu treftadaeth adeiledig. Fodd bynnag, bydd polisïau eraill y cynllun yn gosod gofynion dylunio, a fydd yn berthnasol i gynlluniau cludiant yn ogystal â llawer o fathau eraill o ddatblygiad. Bydd gofyn cymhwyso darpariaethau'r Cynllun yn ei gyfanrwydd i sicrhau bod ymagwedd bolisi gyfannol ynghlwm wrth asesu'r cynllun. | ? | ? |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Bydd bodloni gofynion yr Amcan GC yn dibynnu ar raddfa, natur, safle, aliniad ac ansawdd dylunio gwahanol gynlluniau. Anodd felly yw bod yn siŵr a fydd yr effeithiau, ar y cyfan, yn | ? | ? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gadarnhaol neu'n negyddol. | | |

**Crynodeb**

Mae'r agweddau ar y polisi sy'n berthnasol i welliannau i'r seilwaith cludiant a moddau teithio cynaliadwy, yn enwedig cerdded a beicio, yn debygol o gefnogi Amcanion GC cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae gwelliannau hygyrchedd ar y cyfan yn debygol o ddwyn buddion cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, bydd rhai o'r gwelliannau seilwaith er budd teithio drwy gerbydau sy'n llosgi tanwyddau ffosil. Os felly, gallai effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol negyddol godi. Mae hefyd nifer o achosion lle nad oes gan y polisi berthynas uniongyrchol ag Amcan GC penodol, ond yn yr achosion hyn maent yn gydnaws o hyd.

**Polisi Strategol SP 19 – Atal a Rheoli Gwastraff**

Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer cyfleusterau gwaredu neu reoli gwastraff yn ardal y Cynllun, ar sail strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Cymru'n Un, Cenedl Un Blaned'.

| Amcan GC | Sylwadau / eglurhad | A ydy'r polisi hwn yn cyfrannu at fodloni'r Amcan GC? | A ydy'r polisi hwn yn gydnaws â'r Amcan GC? |
|---|---|---|---|
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw'n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân. | Bydd atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy yn cyfrannu at amgylchedd glân ac iach. | ✓ | ✓ |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi'r sail sgiliau a gwybodaeth. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 4. Lleihau'r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 6. Creu cymunedau diogel, bywiog a | Bydd atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy yn helpu i wella | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| chydlynol gyda gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol | diogelwch cymunedol a sicrhau bod cyfleusterau addas ar gael i reoli gwastraff. | | |
| 7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Mae atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy yn ategu gweithgarwch economaidd lleol. Heb y rhain, niweidir economi, ffabrig cymdeithasol ac amgylchedd ardal. | ✓ | ✓ |
| 10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd. | Mae atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy yn dwyn buddion amgylcheddol, ond anoddach yw mesur y berthynas uniongyrchol â lleihau newid yn yr hinsawdd. | ? | ? |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer. | Bydd atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy yn dwyn buddion amgylcheddol. Fodd bynnag, gallai rhai agweddau ar reoli gwastraff effeithio'n andwyol ar ansawdd yr aer. Mae safleoedd tirlenwi'n cynhyrchu nwy methan a lleihawyd y gwastraff gweddilliol yn mynd i'r safle tirlenwi dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn bodloni gofynion yr UE a chynhyrchu llai o nwy tirlenwi. Mae rhai moddau eraill o ymdrin â gwastraff gweddilliol, fel gweithfeydd ynni-o-wastraff, hefyd yn cynhyrchu allyriadau. Y gobaith yw y bydd y polisi hwn yn gwella sefyllfa ansawdd yr aer yn Sir Benfro ond mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr hyn a allai ddigwydd. | ? | ? |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd. | Mae'r polisi hwn yn ceisio atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy. | ✓ | ✓ |
| 13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon | Mae un agwedd ar y polisi hwn yn berthnasol i ailddefnyddio ac ailgylchu, sy'n elfennau o'r hierarchaeth gwastraff ac yn well na gwaredu gwastraff i'r tir, | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ond nid cystal ag atal gwastraff rhag codi yn y lle cyntaf. | | |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Mae safleoedd tirlenwi'n cynhyrchu trwytholch, sy'n gallu ymuno ag afonydd, nentydd a dŵr daear. Am fod y polisi hwn yn ceisio atal gwastraff ac, os nad yw hynny'n bosibl, ei reoli'n gynaliadwy, mae'n bosibl mai llai o dirlenwi fydd un canlyniad tymor hir. Byddai hynny, wedyn, yn sefydlogi neu leihau maint y trwytholch sy'n cyrraedd cyrsiau dŵr a dŵr daear. | ✓ | ✓ |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd. | Gallai atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy gyfrannu at leihau halogiad. | ✓ | ✓ |
| 17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd. | Gallai atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy olygu bod llai o wastraff yn mynd i'r safle tirlenwi. Gallai hyn ddwyn rhai buddion drwy leihau'r pridd a gollir oherwydd gweithrediadau tirlenwi. | ✓ | ✓ |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. | Gallai atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy olygu bod llai o wastraff yn mynd i'r safle tirlenwi. Gallai hyn ddwyn rhai buddion bioamrywiaeth os bydd yn lleihau'r tir a gollir i weithrediadau tirlenwi. | ✓ | ✓ |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Gallai atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy olygu bod llai o wastraff yn mynd i'r safle tirlenwi. Gallai hyn ddwyn rhai buddion tirwedd wedyn. | ✓ | ✓ |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Gallai atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy olygu bod llai o wastraff yn mynd i'r safle tirlenwi. Gallai hyn ddwyn rhai buddion wedyn drwy leihau effeithiau gweledol ar y dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol. | ✓ | ✓ |

**Crynodeb**

Gallai atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy ddwyn llawer o fuddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Adlewyrchir hyn yn y tabl uchod, sy'n nodi amrywiol achosion lle gallai'r polisi gefnogi Amcan GC. Mae gwastraff yn bwnc cymhleth ac mae rhai achosion lle mae'r effeithiau'n ansicr neu lle gallai cymysgedd o ganlyniadau negyddol a chadarnhaol godi. Mae hefyd nifer o achosion lle nad oes perthynas uniongyrchol o gwbl rhwng y polisi ac Amcan GC, ond maen nhw'n gydnaws.

## ATODIAD 5: Asesiad o'r Polisïau Cyffredinol

Asesir y pum Polisi Cyffredinol o'r Strategaeth a Ffafrir mewn perthynas â'r Amcanion GC (gweler y tablau isod); gweler Dogfen y Strategaeth a Ffafrir am sylwadau ar y polisïau.
✓ Mae'r polisi'n cyfrannu at yr Amcan GC a/neu'n gydnaws ag ef.
X Nid yw'r polisi'n gydnaws â'r Amcan GC.
0 Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC.
? Nid yw'n hysbys/yn glir a ydy'r polisi'n cyfrannu at yr Amcan GC a/neu'n gydnaws ag ef.

| **Polisi Cyffredinol GN1 – Polisi Datblygiad Cyffredinol**<br>Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith i werthuso effeithiau datblygu posibl. | | | |
|---|---|---|---|
| Amcan GC | Sylwadau / eglurhad | A ydy'r polisi hwn yn cyfrannu at fodloni'r Amcan GC? | A ydy'r polisi hwn yn gydnaws â'r Amcan GC? |
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw'n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân. | Bydd rhai agweddau ar y polisi hwn yn helpu i gyflenwi'r Amcan GC hwn. Er enghraifft, cyfeiria maen prawf 2 at effaith cynigion datblygu ar amwynder lleol a maen prawf 7 at iechyd a diogelwch. | ✓ | ✓ |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi'r sail sgiliau a gwybodaeth. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 4. Lleihau'r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant. | Mae maen prawf 5 y polisi hwn yn mynnu bod datblygiad yn digwydd mewn lleoliad hygyrch, i ymgorffori egwyddorion hygyrchedd a chludiant cynaliadwy ac i ystyried diogelwch priffyrdd a lefelau traffig. | ✓ | ✓ |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. Fodd bynnag, bydd pob mathau o ddatblygiad yn destun y polisi hwn. | 0 | 0 |
| 6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad i | Bydd rhai agweddau ar y polisi hwn yn helpu i gyflenwi'r Amcan GC hwn. Yn benodol, mae maen prawf 6 yn mynnu bod cynigion datblygu'n darparu | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| wasanaethau a chyfleusterau allweddol | seilwaith gwasanaeth, mynediad a lleoedd parcio sy'n briodol ac angenrheidiol. | | |
| 7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | Roedd maen prawf 1 y polisi hwn yn mynnu bod datblygiad yn gydnaws â chynhwysedd a chymeriad y safle a'r ardal lle mae. Mae'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn elfennau pwysig o'r eilbeth. | ✓ | ✓ |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. Fodd bynnag, drwy annog datblygiadau newydd i fod mewn lleoliad cynaliadwy, yn agos i gartrefi a chyflogaeth, byddai'n gwella hygyrchedd i gyflogaeth. Mae datblygiad newydd hefyd yn darparu cyflogaeth (e.e. dylunio ac adeiladu). | 0 | 0 |
| 9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd. | Bydd rhai agweddau ar y polisi hwn yn helpu i gyflenwi'r Amcan GC hwn ar lefel leol. Er enghraifft, mae maen prawf 2 yn mynnu nad yw datblygiad yn effeithio'n andwyol ar amwynder lleol, gan gynnwys effeithiau a achosir gan fwg a mygdarthau. | ✓ | ✓ |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer. | Cyfeiria maen prawf 2 y polisi hwn yn benodol at ansawdd yr aer, yng nghyd-destun sicrhau nad yw datblygiad yn effeithio'n andwyol ar amwynder lleol. | ✓ | ✓ |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd. | Mae'r polisi hwn yn sicrhau na fydd datblygiad yn effeithio'n andwyol ar amwynder lleol, y bydd yn parchu ac yn gwarchod yr amgylchedd naturiol, bod ganddo'r seilwaith angenrheidiol a phriodol, ac na fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar ansawdd dŵr. Bydd datblygiad newydd yn cynhyrchu gwastraff, a bydd polisïau eraill yn y Cynllun yn mynd i'r afael â hyn. | 0 | 0 |
| 13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Cyfeiria maen prawf 8 y polisi hwn yn benodol at y gofyniad i ddatblygiad osgoi effeithiau andwyol sylweddol ar ansawdd dŵr. | ✓ | ✓ |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | Cyfeiria maen prawf 7 y polisi hwn at yr angen i ddatblygiad osgoi niwed annerbyniol i iechyd a diogelwch. Mae risg llifogydd yn elfen o hyn. | ✓ | ✓ |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd. | Mae'r polisi'n cefnogi'n gryf ddefnyddio tir yn effeithlon drwy ystyried safle a maint unrhyw ddatblygiad newydd yn ofalus. Mae'r polisi hefyd yn sicrhau nad yw datblygiad yn achosi nac yn arwain at niwed annerbyniol i iechyd a diogelwch drwy halogiad. | ✓ | ✓ |
| 17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd. | Mae gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC, ond mae'r polisi'n hyrwyddo gwarchod yr amgylchedd gan gynnwys priddoedd, gan ddwyn buddion tymor hir. | ✓ | ✓ |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau | Cyfeiria maen prawf 4 y polisi hwn at yr angen i ddatblygiad barchu a gwarchod yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig. | ✓ | ✓ |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Cyfeiria maen prawf 3 y polisi hwn at yr angen i ddatblygiad osgoi effeithiau andwyol sylweddol ar gymeriad, ansawdd neu amrywiaeth tirwedd, gan gynnwys nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac awdurdodau cyfagos. | ✓ | ✓ |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Cyfeiria maen prawf 1 y polisi hwn at yr angen i natur, lleoliad, safle a maint datblygiad fod yn gydnaws â chynhwysedd a chymeriad y safle a'r ardal lle mae. Mae'r rhain yn elfennau dylunio, ond y prif bolisi sy'n mynd i'r afael â'r mater hwn yw GN2. | ✓ | ✓ |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Cyfeiria maen prawf 1 y polisi hwn at yr angen i natur, lleoliad, safle a maint datblygiad fod yn gydnaws â gallu a chymeriad y safle a'r ardal lle mae. Mae'r rhain yn elfennau dylunio, ond y prif bolisi sy'n mynd i'r afael â'r mater hwn yw GN2. | ✓ | ✓ |

| **Crynodeb** |
|---|
| Bydd y polisi amrywiol hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gyflenwi'r rhan fwyaf o'r Amcanion GC i'r Cynllun. Mae polisïau eraill y CDLl yn debygol o gefnogi gweddill yr amcanion GC. Bydd y polisi, o'i ddefnyddio gyda pholisïau eraill y Cynllun, yn sicrhau y bydd datblygiad yn dwyn buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol tymor hir a byr. Mae'r cyfiawnhad rhesymedig yn ymhelaethu ar y polisi i sicrhau y gellir mynd i'r afael â'r amrywiaeth lawn o effeithiau posibl. |

**Polisi Cyffredinol GN 2 – Dylunio Cynaliadwy**
Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod dyluniad datblygiad newydd yn gynaliadwy.

| Amcan GC | Sylwadau / eglurhad | A ydy'r polisi hwn yn cyfrannu at fodloni'r Amcan GC? | A ydy'r polisi hwn yn gydnaws â'r Amcan GC? |
|---|---|---|---|
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | ✓ |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw'n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân. | Bydd rhai agweddau ar y polisi hwn yn helpu i gyflenwi'r Amcan GC. Er enghraifft, cyfeiria maen prawf 6 at dir cyhoeddus bywiog, graenus, a chyfeiria maen prawf 7 at fannau awyr agored wedi'u dylunio'n dda ac wedi'u cysylltu'n dda â strydoedd a mannau cyfagos a seilwaith gwyrdd arall. | ✓ | ✓ |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi'r sail sgiliau a gwybodaeth. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | ✓ |
| 4. Lleihau'r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant. | Cyfeiria maen prawf 5 at yr angen i ddatblygiad greu amgylchedd cynhwysol a hygyrch i ddefnyddwyr, sy'n mynd i'r afael â diogelwch cymunedol. Cyfeiria maen prawf 6 at yr angen i ddatblygiad ddarparu tir cyhoeddus bywiog, graenus sy'n integreiddio'n dda â strydoedd a mannau cyfagos. Mae'r rhain yn agweddau ar gludiant a theithio cynaliadwy. | ✓ | ✓ |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy | Dylai'r polisi dylunio hwn sicrhau bod tai a datblygiadau newydd o ansawdd da, a bod costau gweithredu tymor hir | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| i ddiwallu anghenion lleol. | y tai hyn yn llai am eu bod yn defnyddio adnoddau'n effeithlon. Bydd hyn yn fuddiol dros y tymor hir yn y Sir wrth i ddatblygiadau newydd gael eu caniatáu. | | |
| 6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol | Nid yw'r polisi'n uniongyrchol berthnasol i'r Amcan GC hwn, ond gallai rhai agweddau arno helpu'n anuniongyrchol i'w gyflenwi – er enghraifft yr agweddau hynny sy'n berthnasol i amgylcheddau, tir y cyhoedd a mannau awyr agored cynhwysol a hygyrch. | ? | ✓ |
| 7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | ✓ |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Mae'r polisi'n anuniongyrchol berthnasol i'r Amcan GC. Mae perthynas uniongyrchol tymor hir rhwng y polisi a'r amcan hwn oherwydd dylai'r polisi hwn fod yn berthnasol i bob datblygiad a bydd yn sicrhau bod cyfleusterau cyflogaeth yn cael eu hadeiladu i safon uchel. | ✓ | ✓ |
| 9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | ✓ |
| 10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd. | Cyfeiria maen prawf 3 o'r polisi hwn at yr angen i ddatblygiad ymgorffori dyluniad sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn ymateb i'r hinsawdd. | ✓ | ✓ |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer. | Nid yw'r polisi'n uniongyrchol berthnasol i'r Amcan GC hwn, ond gallai rhai agweddau arno helpu'n anuniongyrchol i'w gyflenwi – er enghraifft, yr agweddau hynny sy'n berthnasol i ddylunio sy'n ymateb i'r hinsawdd. | ? | ✓ |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd. | Mae maen prawf 3 yn mynnu bod datblygiad newydd yn ymgorffori atebion storio a rheoli gwastraff, a fydd yn cyfrannu at gyflenwi'r Amcan GC hwn. | ✓ | ✓ |
| 13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio | Mae maen prawf 3 yn mynnu bod datblygiad newydd yn ymgorffori | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon | atebion storio a rheoli gwastraff, a fydd yn cyfrannu at gyflenwi'r Amcan GC hwn, yn enwedig y rhan sy'n cyfeirio at ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau. | | |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Nid yw'r polisi'n uniongyrchol berthnasol i'r Amcan GC hwn, ond gallai rhai agweddau arno helpu'n anuniongyrchol i'w gyflenwi – er enghraifft, y cyfeirio at arbed dŵr ym maen prawf 3. | ? | ✓ |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | Nid yw'r polisi'n uniongyrchol berthnasol i'r Amcan GC hwn, ond gallai rhai agweddau arno helpu'n anuniongyrchol i'w gyflenwi – er enghraifft y cyfeirio at ddylunio sy'n ymateb i'r hinsawdd ym maen prawf 3. | ? | ✓ |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd. | Mae maen prawf 3 yn mynnu bod datblygiad newydd yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac mae hefyd yn cyfeirio at atebion storio a rheoli gwastraff, a allai helpu'n anuniongyrchol i leihau halogiad. | ✓ | ✓ |
| 17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | ✓ |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau | Mae maen prawf 3 yn mynnu bod datblygiad newydd yn deillio o ddyluniad sy'n ymateb i'r hinsawdd. Gallai hynny gyfrannu'n anuniongyrchol at yr Amcan GC hwn. | ? | ✓ |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Mae maen prawf 2 yn mynnu bod datblygiad newydd yn briodol i'w gyd-destun tirwedd / trefwedd. Er nad oes cyfeiriad at ddaeareg, mae'r dirwedd, yn rhannol, yn adlewyrchiad o'r hyn sydd islaw'r wyneb. | ✓ | ✓ |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Mae'r polisi'n ceisio cyflenwi dylunio cynaliadwy. Cyfeiria maen prawf 1 yn benodol at yr angen i ddatblygiad newydd ystyried hynodrwydd lleol yn briodol a chyfrannu'n gadarnhaol at y cyd-destun lleol. | ✓ | ✓ |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Cyfeiria maen prawf 1 yn benodol at yr angen i ddatblygiad newydd ystyried hynodrwydd lleol yn briodol a chyfrannu'n gadarnhaol at y cyd- | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | destun lleol. | | |

**Crynodeb**

Mae’r polisi hwn yn edrych ar y gwahanol agweddau lawer ar ddylunio cynaliadwy. Mae’n cyfrannu’n uniongyrchol at gyflenwi’r rhan fwyaf o’r Amcanion GC a gallai helpu’n anuniongyrchol i gyflenwi’r gweddill. Nid oes perthynas uniongyrchol â rhai o’r Amcanion GC, ond gallai polisïau eraill y Cynllun helpu i gyflenwi’r rhain, ac maent yn gydnaws o hyd. Bydd effeithiau’r polisi’n gadarnhaol ac yn amlwg yn y tymor byr a’r tymor hir. Bydd y polisi hefyd yn dwyn buddion cronnus i’r amgylchedd naturiol ac adeiledig yn ardal y Cynllun.

**Polisi Cyffredinol GN 3 – Seilwaith a Datblygiad Newydd**

Mae’r polisi hwn yn mynnu bod datblygiad newydd yn ariannu seilwaith, gwasanaethau neu gyfleusterau cymunedol newydd neu well, os yw’r angen hwnnw’n codi o’r datblygiad ac os nad yw eisoes ar raglen cwmni seilwaith neu wasanaeth.

| Amcan GC | Sylwadau / eglurhad | A ydy’r polisi hwn yn cyfrannu at fodloni’r Amcan GC? | A ydy’r polisi hwn yn gydnaws â’r Amcan GC? |
|---|---|---|---|
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â’r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw'n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân. | Gallai cyfraniadau yn sgil datblygiad newydd gyflenwi rhai agweddau ar yr Amcan GC hwn – er enghraifft, mannau agored hamdden ac amwynder, cyfleusterau cymunedol a diwylliannol a gwelliannau bioamrywiaeth. | ✓ | ✓ |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi’r sail sgiliau a gwybodaeth. | Gallai cyfraniadau yn sgil datblygiad newydd gael eu defnyddio i sicrhau buddion mewn perthynas ag addysg. | ✓ | ✓ |
| 4. Lleihau’r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant. | Gallai cyfraniadau yn sgil datblygiad newydd gael eu defnyddio i sicrhau cyfleusterau cludiant cynaliadwy. | ✓ | ✓ |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. | Defnyddir cyfraniadau yn sgil datblygiadau tai marchnad newydd i sicrhau tai fforddiadwy. Lle cynigir datblygu tai, bydd cyfraniadau’n cael eu blaenoriaethu o blaid tai fforddiadwy heblaw bod angen llethol eu defnyddio at ddiben arall. | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol | Gallai cyfraniadau yn sgil datblygiad newydd gyflenwi rhai agweddau ar yr Amcan GC hwn – er enghraifft, cyfleusterau cymunedol a diwylliannol. | ✓ | ✓ |
| 7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | Gallai cyfraniadau yn sgil datblygiad newydd gyflenwi rhai agweddau ar yr Amcan GC hwn – er enghraifft gwelliannau cysylltiedig ag addysg a chyfleusterau cymunedol a diwylliannol, a'r ddau'n debygol o gynnwys agweddau Cymraeg. | ✓ | ✓ |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd. | Gallai cyfraniadau yn sgil datblygiad newydd gyflenwi rhai agweddau ar yr Amcan GC hwn – er enghraifft, seilwaith gwyrdd, mathau amrywiol o fannau agored a buddion bioamrywiaeth. | ✓ | ✓ |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer. | Gallai cyfraniadau yn sgil datblygiad newydd gyflenwi rhai agweddau ar yr Amcan GC hwn – yn enwedig ynni adnewyddadwy a charbon isel, sy'n ddi-garbon ac felly'n ffynhonnell ynni well na thechnolegau sy'n llosgi tanwyddau ffosil. | ✓ | ✓ |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd. | Gallai cyfraniadau yn sgil datblygiad newydd gyflenwi rhai agweddau ar yr Amcan GC hwn – yn enwedig y rheini sy'n cael eu cyfeirio at reoli gwastraff. | ✓ | ✓ |
| 13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon | Mae perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn; gall y polisi gyfrannu tuag at gyfleusterau effeithlon. | ✓ | ✓ |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Gallai cyfraniadau yn sgil datblygiad newydd gyflenwi rhai agweddau ar yr Amcan GC hwn – er enghraifft seilwaith gwyrdd a gwelliannau bioamrywiaeth a allai fod er budd yr | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | amgylchedd dyfrol ehangach. | | |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | Gallai cyfraniadau yn sgil datblygiad newydd gyflenwi rhai agweddau ar yr Amcan GC hwn – er enghraifft seilwaith gwyrdd a gwelliannau bioamrywiaeth a allai fod er budd yr amgylchedd dyfrol ehangach. | ✓ | ✓ |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd. | Gallai cyfraniadau yn sgil datblygiad newydd gyflenwi rhai agweddau ar yr Amcan GC hwn – er enghraifft seilwaith gwyrdd a gwelliannau bioamrywiaeth a allai fod er budd ansawdd a swmp pridd. | ✓ | ✓ |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. | Gallai cyfraniadau yn sgil datblygiad newydd gyflenwi rhai agweddau ar yr Amcan GC hwn – er enghraifft seilwaith gwyrdd a gwelliannau bioamrywiaeth a fydd yn cefnogi ecosystemau gwerthfawr. | ✓ | ✓ |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Mae gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. Mae'r polisi'n cynnwys darpariaethau amgylcheddol a allai leihau unrhyw effeithiau negyddol ar gymeriad y dirwedd a helpu i gefnogi'r amcan hwn. | 0 | 0 |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Mae perthynas anuniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. Gellir gwneud darpariaethau lle gellir lliniaru effeithiau andwyol ar dreftadaeth ddiwylliannol drwy'r polisi hwn. | ✓ | ✓ |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC.<br><br>Mae'r polisi'n cynnwys darpariaethau a allai warchod yr amgylchedd adeiledig. | 0 | 0 |

**Crynodeb**

Mae lleoedd datblygiad newydd yn gosod pwysau ychwanegol ar seilwaith a gwasanaethau felly disgwylir i ddatblygwyr wneud cyfraniadau. Bydd y cyfraniadau hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar gymunedau ac ar yr amgylchedd.

| **Polisi Cyffredinol GN 4 – Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**<br>Mae'r polisi hwn yn ceisio lleihau'r galw am adnoddau, defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a chefnogi cynigion priodol i ddatblygu ynni adnewyddadwy. | | | |
|---|---|---|---|
| Amcan GC | Sylwadau / eglurhad | A ydy'r polisi hwn yn cyfrannu at fodloni'r Amcan GC? | A ydy'r polisi hwn yn gydnaws â'r Amcan GC? |
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC, er eu bod yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw'n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân. | Ar y cyfan, mae'r polisi'n cefnogi cynigion ynni adnewyddadwy (ac eithrio cynigion tyrbin gwynt mwy na 25MW), ar yr amod nad ydynt yn achosi effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd neu dirwedd, a hynny'n unigol neu'n gronnus. Mae ynni adnewyddadwy'n dechnoleg ddi-garbon ac felly bydd yn dwyn buddion i iechyd pobl ac yn cefnogi amgylchedd glân ac iach. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae gosodiadau tyrbin gwynt yn effeithio'n andwyol ar unigolion, felly nid buddion cadarnhaol mohonynt i gyd. | ? | ? |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi'r sail sgiliau a gwybodaeth. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 4. Lleihau'r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC.<br>Drwy ddewis safle datblygiad newydd yn ofalus, gellir lleihau'r angen i deithio neu gellir integreiddio cysylltiadau'n dda yn y seilwaith cludiant cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli. Hefyd drwy ymgorffori technolegau adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd, gellir hyrwyddo mathau cynaliadwy o gludiant. | ✓ | ✓ |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC.<br>Dylai datblygiadau tai yn y dyfodol | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| lleol. | ddefnyddio adnoddau'n effeithlon (ynni a dŵr) a bod wedi'u dylunio'n dda. Mae hyn er budd yr amgylchedd yn y tymor hir a'r gymuned drwy leihau costau tymor hir a bodloni anghenion lleol. Drwy hyrwyddo defnyddio adnoddau'n effeithlon, dylai'r polisi hwn ddarparu tai sy'n llai costus i'w cynnal a'u cadw. | | |
| 6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol | Gall prosiectau ynni adnewyddadwy gael eu datblygu a'u gweithredu'n gymunedol ac, yn yr achosion hyn, maent yn debygol o ddwyn budd i'r gymuned. Fodd bynnag, dim ond cyfran fechan o'r holl gynlluniau a fydd yn perthyn i'r categori hwn. | ? | ✓ |
| 7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | 0 |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Mae'r polisi'n cefnogi llawer o fathau o brosiect ynni adnewyddadwy, yn destun rhai amodau. Gall prosiectau felly ddwyn buddion cyflogaeth i ardaloedd trefol a gwledig. | ✓ | ✓ |
| 9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Mae'r polisi'n cefnogi llawer o fathau o brosiect ynni adnewyddadwy, yn destun rhai amodau. Gall prosiectau felly helpu i gefnogi economi leol gynaliadwy ac amrywiol. | ✓ | ✓ |
| 10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd. | Mae'r polisi'n cefnogi llawer o fathau o brosiect ynni adnewyddadwy, yn destun rhai amodau. Mae prosiectau felly'n garbon niwtral ac felly gallant helpu i baratoi ar gyfer newid hinsawdd a lleihau ei effaith. Mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy'n lleihau'r ddibyniaeth ar losgi tanwyddau ffosil i gynhyrchu gwres a phŵer, a fydd hefyd yn fuddiol yng nghyd-destun lleihau achosion newid yn yr hinsawdd. | ✓ | ✓ |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer. | Mae'r polisi'n cefnogi llawer o fathau o brosiect ynni adnewyddadwy, yn destun rhai amodau. Nid yw prosiectau felly'n llygru'r aer. Felly, mae'r polisi'n debygol o gyfrannu at gyflawni'r Amcan GC hwn. | ✓ | ✓ |
| 12. Cynhyrchu llai o | Mae'r polisi'n cefnogi llawer o fathau o | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| wastraff a llygredd. | brosiect ynni adnewyddadwy, yn destun rhai amodau. Nid yw prosiectau felly'n llygru wrth weithredu. Felly, mae'r polisi'n debygol o gyfrannu at gyflawni'r Amcan GC hwn. . | | |
| 13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon | Mae'r polisi'n cefnogi llawer o fathau o brosiect ynni adnewyddadwy, yn destun rhai amodau. Mae prosiectau ynni adnewyddadwy'n defnyddio adnoddau naturiol ac nid ydynt yn llygru wrth weithredu. Felly, mae'r polisi'n debygol o gyfrannu at gyflawni'r Amcan GC hwn. . | ✓ | ✓ |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC.<br><br>Gallai datblygiadau newydd effeithio'n negyddol ar ansawdd dŵr drwy halogi, creu mwy o ddŵr ffo a gwaredu dŵr gwastraff. Mae posibilrwydd darparu mesurau lliniaru tymor hir drwy hyrwyddo defnyddio dŵr yn effeithlon, gosod systemau defnyddio dŵr adnewyddadwy a hyrwyddo systemau draeniad cynaliadwy yn y datblygiadau newydd (GN 2). | ? | ? |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn codi | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC.<br><br>Yn y tymor hir, gall defnyddio adnoddau'n effeithlon a chynigion ynni adnewyddadwy a charbon isel gyfrannu at leihau allyriadau nwy tŷ gwydr ac felly effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae lefel y môr yn codi a llifogydd ymhlith effeithiau newidiadau hinsoddol, felly mae unrhyw gyfraniad at liniaru eu heffaith yn fuddiol. | 0 | 0 |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd. | Mae'r polisi'n cefnogi llawer o fathau o brosiect ynni adnewyddadwy, yn destun rhai amodau. Mae prosiectau ynni adnewyddadwy'n defnyddio adnoddau naturiol ac nid ydynt yn llygru wrth weithredu. Felly, mae'r polisi'n debygol o gyfrannu at gyflawni'r Amcan GC hwn, am na fydd yn cynhyrchu halogiad a gallai leihau'r angen i gynhyrchu ynni ar sail carbon, | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a allai fod wedi cynhyrchu halogiad. | | |
| 17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC. | 0 | ✓ |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. | Mae'r polisi'n cefnogi llawer o fathau o brosiect ynni adnewyddadwy, yn destun rhai amodau. Mae prosiectau ynni adnewyddadwy'n defnyddio adnoddau naturiol ac nid ydynt yn llygru wrth weithredu. Yn yr ystyr honno, maent yn debygol o helpu i gynnal bioamrywiaeth a chefnogi ecosystemau. Fodd bynnag, gallai rhai mathau o dechnoleg ynni adnewyddadwy gael effeithiau negyddol – er enghraifft, gallai llafnau tyrbinau gwynt anafu a/neu ladd ystlumod ac adar. Felly, nid yw'r sefyllfa'n gwbl amlwg a bydd yn amrywio rhwng gwahanol dechnolegau ynni adnewyddadwy. | ? | ? |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Mae'r polisi'n cefnogi llawer o fathau o brosiect ynni adnewyddadwy, yn destun rhai amodau. Fodd bynnag, gallai rhai mathau o brosiect gael effeithiau unigol a/neu gronnus sylweddol, yn enwedig tyrbinau gwynt ac araeau paneli solar. Bydd maint yr effeithiau'n amrywio'n fawr a dylanwadir arnynt gan fath a maint y dechnoleg a'i hagosrwydd i osodiadau tebyg eraill. | ? | ? |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC.  Nid yw technolegau ynni adnewyddadwy'n adlewyrchu treftadaeth a phensaernïaeth gynhenid. Bydd polisïau yn y Cynllun yn sicrhau yr ystyrir y dreftadaeth adeiledig mewn cynigion datblygu. | 0 | 0 |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Nid oes gan y polisi berthynas uniongyrchol â'r Amcan GC.  Nid yw technolegau ynni adnewyddadwy'n adlewyrchu treftadaeth a phensaernïaeth gynhenid. Bydd polisïau yn y Cynllun yn sicrhau yr ystyrir y dreftadaeth adeiledig mewn cynigion datblygu. | 0 | 0 |

| **Crynodeb** |
|---|
| Mae’r polisi hwn yn fras gefnogi cynigion ynni adnewyddadwy, ac eithrio cynigion tyrbin gwynt ar raddfa fawr ac yn destun amodau ar effeithiau unigol a chronnus ar y dirwedd a’r amgylchedd. Mae technolegau ynni adnewyddadwy hefyd yn rhai carbon niwtral. Fel y cyfryw, mae’r polisi’n cefnogi llawer o’r Amcan GC economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Fodd bynnag, mae rhai o’r Amcanion GC lle mae effeithiau technolegau ynni adnewyddadwy yn ansicr a/neu’n cymysgu effeithiau cadarnhaol a negyddol. Hefyd, nid yw ambell un o’r Amcanion GC yn uniongyrchol berthnasol i’r polisi. |

| **Polisi Cyffredinol GN 5 – Datblygiadau Mewnlenwi mewn Pentrefannau**<br>Mae’r polisi hwn yn cefnogi datblygiad cyfyngedig mewn pentrefannau mewn cymunedau gwledig. | | | |
|---|---|---|---|
| Amcan GC | Sylwadau / eglurhad | A ydy’r polisi hwn yn cyfrannu at fodloni’r Amcan GC? | A ydy’r polisi hwn yn gydnaws â’r Amcan GC? |
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys. | Cyfleoedd mewnlenwi cyfyngedig mewn pentrefannau bychain, gan gynnwys tai fforddiadwy a fydd yn helpu i fodloni amrywiaeth o anghenion. Fodd bynnag, mae’r diffyg rheolaeth ar feddiannaeth yn golygu ei bod yn ansicr a fyddai’r polisi’n arwain at strwythur poblogaeth mwy cytbwys. | ? | ✓ |
| 2. Hyrwyddo a gwella iechyd a lles trwy fyw’n iach, gallu cael gofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd iach a glân. | Nid oes perthynas uniongyrchol rhwng darparu tai a gallu cael at ofal iechyd a hamdden a hyrwyddo a gwella iechyd. Fodd bynnag, trwy fodloni anghenion pobl mewn cymunedau bychain drwy dai priodol, gellid gwella eu hiechyd, a thrwy osod datblygiad mewn ardaloedd lle gellir cael at gefn gwlad, gellid helpu i fodloni rhywfaint o’r amcan. | 0 | ✓ |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i gyfoethogi’r sail sgiliau a gwybodaeth. | Dim perthynas rhwng y polisi a’r amcan hwn, ond maent yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 4. Lleihau’r angen i deithio a hybu mathau cynaliadwy o gludiant. | Trwy leoli datblygiad i ffwrdd o aneddiadau hygyrch, gellid annog pobl i deithio drwy foddau anghynaliadwy gan gynnwys y car. | x | x |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon gan | Mae’r polisi hwn yn caniatáu ar gyfer datblygu tai fforddiadwy mewn | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. | cymunedau bychain lle gallai pobl y mae angen tai arnynt aros yn lleol. | | |
| 6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol gyda gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol | Bydd y polisi hwn yn bodloni'r amcan hwn yn rhannol mewn perthynas â chymunedau cydlynol, ond mae mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol yn debygol o fod yn brin ac mae effaith gyffredinol hyn yn ansicr. | ? | ? |
| 7. Gwarchod a gwella rhan yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | Mae cydnawsedd yn bosibl yn yr amcan hwn os gall pobl aros mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith neu ddysgu Cymraeg lle mae traddodiad diwylliannol o siarad Cymraeg. | 0 | ✓ |
| 8. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o safon o fewn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth. | Gallai'r polisi hwn fod yn gydnaws am y bydd yn galluogi pobl sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig a chynnal economi wledig fywiog i fyw'n agos i weithleoedd. | 0 | ✓ |
| 9. Cynnal economi leol gynaliadwy ac amrywiol | Dim perthynas rhwng y polisi a'r amcan hwn ond maent yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 10. Paratoi ar gyfer a lleihau effaith cyfraniad Sir Benfro at newid yn yr hinsawdd. | Mae anheddau ychwanegol mewn pentrefannau bach yn debygol o fynnu datblygu safleoedd maes glas, a chynyddu teithio i leoliadau lle mae gwasanaethau. Mae'r ddwy weithred hyn yn annhebygol o leihau'r cyfraniad at newid yn yr hinsawdd. | x | x |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd yr aer. | Dim perthynas rhwng y polisi a'r amcan hwn ond maent yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 12. Cynhyrchu llai o wastraff a llygredd. | Dim perthynas rhwng y polisi a'r amcan hwn ond maent yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 13. Hybu cynhyrchu, defnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau'n effeithlon | Dim perthynas rhwng y polisi a'r amcan hwn ond maent yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 14. Cynnal a gwarchod ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | Dim perthynas rhwng y polisi a'r amcan hwn ond maent yn gydnaws. | 0 | ✓ |
| 15. Lleihau effeithiau llifogydd a lefel y môr yn | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn, ond gallai fod yn gydnaws. Mae canllawiau cynllunio | 0 | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| codi | cenedlaethol yn atal tai mewn ardaloedd risg llifogydd felly dylid lleihau effaith llifogydd. | | |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogiad gymaint ag y bo modd. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. Bydd polisïau manwl yn ymdrin â dwyseddau tai a thir halogedig. | 0 | 0 |
| 17. Gwarchod ansawdd a swmp pridd. | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. Ansicr a yw'r polisi'n gydnaws â'r amcan oherwydd bydd tai newydd yn anochel yn golygu gwaredu pridd. | 0 | ? |
| 18. Cynnal, gwella a gwerthfawrogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau | Dim perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan hwn. Ansicr a yw'r polisi'n gydnaws â'r amcan. Bydd polisïau eraill yn y cynllun yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei gwarchod. | 0 | ? |
| 19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a threftadaeth ddaearegol. | Mae'r polisi hwn yn ceisio cyfyngu datblygiadau mewnlenwi i'r rheini sy'n gydnaws ag effaith ar y dirwedd. Fodd bynnag, maent yn annhebygol o wella'r dirwedd ac mae'r berthynas yn ansicr. | 0 | ? |
| 20. Hybu dylunio o safon â nodweddion lleol sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig. | Mae'r polisi hwn yn sicrhau y byddai'r datblygiad yn gydnaws â'r dreftadaeth adeiledig leol o ran graddfa, cynllun a dwysedd. Bydd polisïau manwl ar ddylunio yn helpu i fodloni'r amcan hwn. | ✓ | ✓ |
| 21. Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | Dylai'r polisi hwn, ynghyd â pholisïau ar ddylunio, sicrhau bod yr amcan yn cael ei fodloni. | ✓ | ✓ |

**Crynodeb**

Byddai'r polisi hwn yn helpu i gynnal cymunedau cydlynol, a gallai ddwyn budd i'r iaith Gymraeg a, lle mae pobl yn gweithio mewn ardaloedd gwledig, gallai ddarparu cyfleoedd i fyw'n agos i'w man gwaith. Fodd bynnag, mae effeithiau sy'n anghydnaws â'r amcanion, gan gynnwys y tebygolrwydd y byddai'n rhaid i bobl deithio ymhellach drwy foddau anghynaliadwy, i gael at fwyafrif y gweithleoedd, gwasanaethau a chyfleusterau mewn aneddiadau mwy o faint.

# ATODIAD 6: Ffurflen Sylwadau Ymgynghori ar yr Adroddiad GC Dechreuol

Defnyddiwch y ffurflen hon/ y fformat hwn i roi sylwadau ar Werthuso Cynaliadwyedd (yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol) y Strategaeth a Ffafrir. Bydd yr holl sylwadau ar gael i'r cyhoedd ac nid oes modd eu trin yn gyfrinachol. Mae'r holl ffurflenni / sylwadau i'w dychwelyd erbyn 4 Chwefror 2019.

| Manylion Cysylltu | |
|---|---|
| Enw | |
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | |
| E-bost | |
| Ffôn | |
| Sefydliad | |

| **Ystyriwch y cwestiynau canlynol, gan gyfeirio at rif y paragraff pan fo hynny'n briodol, a pharhau ar dudalen ar wahân os bydd angen.** |
|---|
| **Cwestiwn 1: Asesu Amcanion a Gweledigaeth y CDLl**<br>A oes gennych unrhyw sylwadau am yr asesiad o Weledigaeth y CDLl? A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar asesu cydnawsedd Amcanion y CDLl mewn perthynas ag Amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd? |
| |

| |
|---|
| (Parhewch ar ddalen ar wahân os bydd angen) |
| **Cwestiwn 2: Asesu Dewis a Ffafriwyd y CDLl**<br>A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar werthuso Dewisiadau'r CDLl a sut y penderfynwyd ar y Dewis a Ffafriwyd? |
| (Parhewch ar ddalen ar wahân os bydd angen) |
| **Cwestiwn 3: Asesu Polisïau Strategol y CDLl**<br>A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar werthuso'r Polisïau Strategol? |
| |

| |
|---|
| (Parhewch ar ddalen ar wahân os bydd angen) |
| **Cwestiwn 4: Asesu Polisïau Cyffredinol y CDLl**<br>A oes gennych unrhyw sylwadau ar werthuso'r Polisïau Cyffredinol? |
| (Parhewch ar ddalen ar wahân os bydd angen) |
| **Cwestiwn 5: Sylwadau eraill**<br>A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am Adroddiad Dechreuol y Gwerthusiad Cynaliadwyedd? |
| (Parhewch ar ddalen ar wahân os bydd angen) |

# ATODIAD 7: Gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol

(O Ganllaw Ymarferol Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog i Gyfarwyddeb AAS 2005)

| **Gofynion** | Cyfnod / rhan yr adroddiad sy'n ei gynnwys |
|---|---|
| Paratoi adroddiad amgylcheddol (Adroddiad GC) ar gyfer nodi, disgrifio a gwerthuso effeithiau sylweddol tebygol gweithredu'r cynllun neu raglen ar yr amgylchedd, a gwahanol ddewisiadau rhesymol, gan ystyried amcanion a chwmpas daearyddol y cynllun neu raglen. Y wybodaeth i'w rhoi yw (Erthygl 5 ac Atodiad I): | |
| a) amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion y cynllun neu raglen, a'r berthynas gyda chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill; | A / Adroddiad Cwmpasu GC ac Adroddiad Cwmpasu GC Atodiad 1. |
| b) yr agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'r datblygiad tebygol ohono heb weithredu'r cynllun neu raglen; | A / Adroddiad Cwmpasu GC ac Atodiad 2 Cwmpasu GC; Pennod 7 yr Adroddiad GC Dechreuol hwn. |
| c) nodweddion amgylcheddol ardaloedd y mae'n debygol yr effeithir yn sylweddol arnynt; | A / Adroddiad Cwmpasu GC |
| d) unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu raglen gan gynnwys, yn arbennig, y rhai sy'n berthnasol i unrhyw ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol arbennig, fel ardaloedd a ddynodwyd yn unol â Chyfarwyddebau 79/409/EEC a 92/43/EEC; | A / Adroddiad Cwmpasu GC ac Adroddiad Asesu Rheoli Cynefinoedd. |
| e) amcanion gwarchod yr amgylchedd, a sefydlwyd yn rhyngwladol, yn genedlaethol neu'n gymunedol, sy'n berthnasol i'r cynllun neu raglen a'r ffordd yr ystyriwyd yr amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wrth ei baratoi; | A, B / Adroddiad Cwmpasu GC: Adran 2 ac Atodiad 1. |
| f) yr effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd, gan gynnwys ar faterion fel bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd dynol, ffawna, fflora, pridd, dŵr, yr awyr, ffactorau hinsoddol, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol, tirwedd a'r cydberthynas rhwng y ffactorau uchod. (Troednodyn: Dylai'r effeithiau hyn gynnwys effeithiau eilaidd, cronnus, synergaidd, tymor byr, canolig a hir parhaol a thros dro, cadarnhaol a negyddol); | B / Adroddiad Cwmpasu GC a'r Adroddiad GC Dechreuol hwn. |
| g) y mesurau a ragwelwyd i atal neu leihau effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd, ac i wneud cymaint o iawn ag y bo modd am unrhyw effeithiau felly, yn sgil gweithredu'r cynllun neu raglen; | B / yr Adroddiad GC Dechreuol a chyfnodau diweddarach. |
| h) amlinelliad o'r rhesymau dros wneud y gwahanol ddewisiadau eraill a ystyriwyd, a disgrifiad o sut y gwnaed yr asesiad gan gynnwys unrhyw anawsterau (fel diffygion technegol neu brinder gallu a gwybodaeth ymarferol) a gafwyd wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol; | B / Asesiad Dewisiadau: Penodau 4-6, ac Atodiadau'r Adroddiad GC Dechreuol hwn. GC o'r weledigaeth ac amcanion drafft, a dewisiadau |

| | |
|---|---|
| | strategol. Bydd yn cael ei archwilio hefyd yng nghyfnod y Cynllun Adnau. |
| i) disgrifiad o fesurau a ragwelwyd ynghylch monitro yn unol ag Erthygl 10; | B, / Pennod 10 o'r Adroddiad GC Dechreuol hwn ac adroddiadau diweddarach. |
| j) crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth a ddarparwyd dan y penawdau uchod. | B, C / Pennod 1 – cyflwynir crynodeb annhechnegol llawn yn yr Adroddiad GC Dechreuol hwn. |
| Rhaid i'r adroddiad gynnwys y wybodaeth fydd ei hangen o fewn rheswm gan ystyried gwybodaeth a dulliau asesu presennol, cynnwys a manylder y cynllun neu raglen, ei gyfnod ym mhroses gwneud penderfyniadau ac i ba raddau y mae'n fwy priodol asesu rhai materion yng ngwahanol haenau'r broses honno i osgoi ailadrodd yr asesiad (Erthygl 5.2). | C / Drwy'r holl Adroddiad GC. |
| Ymgynghori:<br><br>• awdurdodau gyda chyfrifoldeb amgylcheddol, wrth benderfynu ar gwmpas a manylder y wybodaeth i'w chynnwys yn yr adroddiad amgylcheddol (Erthygl 5.4). | A / Adroddiad Cwmpasu GC<br><br>B, C / yr Adroddiad GC Dechreuol. |
| • rhaid i awdurdodau gyda chyfrifoldeb amgylcheddol a'r cyhoedd gael cyfle cynnar ac effeithiol o fewn cyfnod priodol i fynegi eu barn ar ddrafft y cynllun neu raglen a'r adroddiad amgylcheddol cysylltiedig cyn mabwysiadu'r cynllun neu raglen (Erthygl 6.1, 6.2). | B, D / Bydd ymgynghori ar Strategaeth a Ffafrir a GC o'r Strategaeth a Ffafrir. Bydd ymgynghori ar y Cynllun Adnau hefyd yn y dyfodol. |
| • aelod-wladwriaethau eraill yr UE, lle bydd gweithredu'r cynllun neu raglen yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar amgylchedd y wlad honno (Erthygl 7). | D / amherthnasol ar yr adeg hon. |
| Ystyried yr adroddiad amgylcheddol a chanlyniadau'r ymgynghoriadau wrth benderfynu (Erthygl 8). | D / amherthnasol ar yr adeg hon. |
| Rhoi gwybodaeth am y penderfyniad: Pan gaiff y cynllun neu raglen ei fabwysiadu, rhaid hysbysu'r cyhoedd ac unrhyw wledydd yr ymgynghorwyd â hwy a gweld bod y canlynol ar gael i'r rhai hynny a hysbyswyd:<br><br>• y cynllun neu raglen fel y mabwysiedig;<br><br>• datganiad yn crynhoi sut yr integreiddiwyd ystyriaethau amgylcheddol yn y cynllun neu raglen a sut yr ystyriwyd yr adroddiad amgylcheddol yn unol ag Erthygl 5, y barnau a fynegwyd yn unol ag Erthygl 6 a chanlyniadau ymgynghoriadau a wnaed yn unol ag Erthygl 7 yn unol ag Erthygl 8, a'r rhesymau dros ddewis y cynllun neu raglen fel y mabwysiedig, yng ngoleuni'r gwahanol ddewisiadau rhesymol eraill a ystyriwyd; a hefyd<br><br>• y mesurau a benderfynwyd ynghylch monitro (Erthyglau 9 a | D / amherthnasol ar yr adeg hon. |

| | |
|---|---|
| 10). | |
| Monitro’r effeithiau amgylcheddol sylweddol yn sgil gweithredu’r cynllun neu raglen (Erthygl 10). | B, E / amherthnasol ar yr adeg hon. |
| Sicrhau ansawdd: dylai adroddiadau amgylcheddol fod o safon ddigonol i ateb gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (Erthygl 12). | Amherthnasol ar yr adeg hon. |